Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.wales.gov.uk



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**2014-2020**

# ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd RHAGLEN WEITHREDOL

CCI (2014UK16RFOP005)

Rhagfyr 2014

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
**EU Funds: Investing in Wales**
European Regional Development Fund

# Rhagair gan Jane Hutt, Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Mae’r Rhaglen Weithredol hon yn elfen hanfodol o gyfres o Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 gan ei bod yn amlinellu cytundeb Llywodraeth Cymru â’r Comisiwn Ewropeaidd ar yr hyn y byddwn yn ei gyflawni. Mae’n ffrwyth gwaith partneriaeth helaeth ledled Cymru ac yn adlewyrchu’r broses dadansoddi a negodi drylwyr yn seiliedig ar dystiolaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae’r fersiwn hon o’r Rhaglen Weithredol wedi cael ei chynhyrchu er mwyn cyflwyno’r un wybodaeth mewn fformat mwy hygyrch na’r hyn a ragnodir yn y fersiwn gyflawn, sy’n gofyn am ddefnyddio templed penodol. Mae’r fersiwn hon yn defnyddio yr un testun yn union â’r hyn a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan ddarparu’r holl fanylion sydd eu hangen i ddatblygu gweithrediadau a rhaglenni, ond mae’n eu cyflwyno mewn fformat sy’n haws ei ddeall. Mae’r Rhaglen Weithredol gyflawn, ffurfiol, ynghyd â phob atodiad ategol, hefyd wedi’i chyhoeddi ar dudalennau gwe WEFO; ond gobeithio y bydd y fersiwn hon o’r brif ddogfen yn ddefnyddiol wrth i chi ddatblygu eich cynigion ariannu.

Nodir nifer o gyfleoedd cyffrous yn y rhaglenni newydd i Gymru a’n nod yw manteisio’n llawn arnynt. Mae’r rhaglenni yn nodi’r heriau allweddol sy’n wynebu economi Cymru a’r farchnad lafur. Mae rhai o’r rhain yn broblemau strwythurol ac efallai y bydd yn cymryd degawdau o fuddsoddi parhaol (gan y sector preifat a’r sector cyhoeddus) i’w datrys. Mae gan Gronfeydd Strwythurol rôl allweddol i’w chwarae yn y broses drawsnewid hon, ond mae angen inni dargedu’r arian hwn ochr yn ochr â’r holl ffynonellau eraill o fuddsoddiad er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf.

Wrth lunio rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol rydym wedi ymgorffori tair egwyddor ddylunio graidd er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd, ateb heriau ac ategu buddsoddiadau eraill:

- **Canolbwyntio**: Ffocws ar lai o bethau mewn llai o fannau er mwyn sicrhau mwy o effaith
- **Integreiddio**: Sicrhau bod buddsoddiadau’r UE yn ategu ei gilydd a rhaglenni buddsoddi ehangach ar draws y sector cyhoeddus a’r sector preifat;
- **Symleiddio**: Ei gwneud yn haws cael gafael ar yr arian a’i weinyddu.

Croesawyd egwyddor **canolbwyntio** yn eang yn ein hymgynghoriad â phartneriaid a chan y Comisiwn Ewropeaidd. Dros y blynyddoedd, mae Cronfeydd Strwythurol wedi cefnogi nifer fawr o fuddsoddiadau, gyda’r nod o wella bywydau unigolion, cefnogi busnesau ac atgyfnerthu seilwaith ledled Cymru. Byddwn yn eich annog i ystyried rhai o’r astudiaethau achos ysbrydoledig ar dudalennau gwe WEFO fel tystiolaeth o’r llwyddiannau. Sicrhaodd ffocws strategol cryfach rhaglenni 2007-2013 fod

buddsoddiadau ein Cronfeydd Strwythurol yn fwy cydlynol; mae'n rhaid inni bellach adeiladu ar hyn yn ein rhaglenni ar gyfer 2014-2020.

Er mwyn darparu'r ffocws hwn – a sicrhau nad materion sy'n ymwneud â chymhwysedd technegol fydd nodwedd bwysicaf trafodaethau ynghylch blaenoriaethau ariannu – mae Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yn rhoi pwyslais clir ar ganlyniadau. Nid yw'r rhaglenni'n ceisio cyfyngu cymhwysedd yn benodol (pa weithgareddau y byddwn yn eu hariannu) ond yn lle hynny, maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau (yr hyn y dylai'r rhaglen geisio ei gyflawni). Bydd WEFO yn galw am yr un newid hwn mewn pwyslais mewn trafodaethau â phartneriaid am gynigion ariannu posibl. Yn gyntaf, ac yn bwysicaf oll, mae angen i WEFO ddeall pa ganlyniadau y bydd pob cynnig yn eu cyflawni (a sut mae hyn yn cyfrannu at y canlyniadau cyffredinol a nodir yn y rhaglenni). Ffordd o gyrraedd y nod yw gweithgareddau penodol felly, yn hytrach na'r nod ynddynt eu hunain. O fewn y ddogfen hon, dylid rhoi sylw penodol i'r adrannau o dan bob Blaenoriaeth sy'n nodi'r canlyniadau rydym yn dymuno eu cyflawni; oherwydd bydd WEFO yn awyddus i ariannu cynigion a all ddangos cyfraniad at y canlyniadau hynny.

Rydym wedi rhoi blaenoriaeth uchel i nodi cyfleoedd **integreiddio** ers inni ddechrau datblygu ein rhaglenni newydd yn gyntaf. Mae holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd Cymru (yr enw a roddir ar Gronfeydd Strwythurol, Gwledig a Physgodfeydd yr UE gyda'i gilydd) wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd. Er enghraifft, am y tro cyntaf, gellir defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i gefnogi ffermio a physgodfeydd os yw'r cymorth hwnnw'n bodloni amcanion Cronfeydd Strwythurol. Mae nifer o feysydd lle rydym yn gobeithio gweld cydweithio ar draws y cronfeydd hyn, gan gynnwys ym maes ynni, cymorth busnes, sgiliau ac ymchwil, datblygu ac arloesi.

Ond nid yw'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn gweithredu ar wahân; mae cysylltiadau ehangach â buddsoddiadau eraill hefyd yn hollbwysig er mwyn cyflawni mwy i Gymru. Mae cyfleoedd sylweddol i gael gafael ar ffrydiau ariannu eraill ledled y DU, Ewrop a thu hwnt; mae'r Rhaglen Weithredol hon yn nodi'r ffrydiau mwyaf perthnasol ar gyfer pob Echel Blaenoriaeth. Yr hyn sy'n bwysicach na dim o bosibl i lwyddiant y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yw eu bod yn cyd-fynd â buddsoddiadau allweddol ym mhob rhan o economi yng Nghymru sydd eisoes wedi cael eu gwneud, sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd, neu sydd wrthi'n cael eu cynllunio, a'u bod yn ychwanegu gwerth at y buddsoddiadau hynny. Dim ond drwy ychwanegu gwerth at y buddsoddiadau hynny gallwn obeithio sicrhau newid cwbl weddnewidiol a mynd i'r afael â'r heriau strwythurol a nodwyd yn ein Rhaglenni Gweithredol. Er mwyn helpu i nodi'r cysylltiadau hyn a chynllunio buddsoddiadau mewn cyd-destun buddsoddi sy'n datblygu'n barhaus, rydym wedi cymhwyso canfyddiadau adolygiad annibynnol gan Dr Grahame Guilford ac wedi datblygu Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd. Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Rhaglenni Gweithredol drwy roi cipolwg ar beth arall sy'n digwydd yn yr economi yng Nghymru. Bydd WEFO yn chwilio am dystiolaeth gan weithrediadau y gallant gyflawni amcanion a chanlyniadau'r rhaglen, a hefyd eu bod yn cyd-fynd â'r cyd-destun buddsoddi ehangach a nodir yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd ac yn ychwanegu gwerth ato.

Erys **symleiddio** yn amcan allweddol o hyd, wrth inni geisio symleiddio rheoliadau a gofynion cydymffurfio cymhleth yr UE hyd y gellir. Bydd pethau na allwn eu newid

bob amser, ond rydym wedi ceisio cysoni’r gofynion ar gyfer pob un o’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi gwahanol hyd y gellir, gan bennu rheolau a therminoleg gyffredin i Gymru. Mae WEFO hefyd yn cyflwyno costau symlach, cyfnodau byrrach ar gyfer cadw dogfennau a llai o faich archwilio ar gyfer rhaglenni 2014-2020. Un o brif nodweddion rhaglenni 2014-2020 fu’r penderfyniad i osgoi newidiadau mawr ers rhaglenni 2007-2013. Lle y gwnaed newidiadau, maent naill ai’n adlewyrchu gofynion rheoliadol newydd neu’n enghreifftiau gwirioneddol o symleiddio. Mae ein partneriaid wedi gofyn am barhad a chysondeb. Mae adolygiadau annibynnol gan Dr Guildford a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfeirio at systemau gweithredu effeithiol ar y cyfan nad oes ond angen eu mireinio yn hytrach na’u hailwampio’n llwyr. Mae dogfennau canllaw helaeth ar dudalennau gwe WEFO yn egluro’r newidiadau allweddol.

Dros gyfnodau ariannu dilynol, rydym wedi cymryd camau breision o ran gwella’r ffordd rydym yn monitro ac yn gwerthuso ein buddsoddiadau. Rydym yn awyddus i barhau i wella’ r ffordd rydym yn cyflwyno adroddiadau ac yn **mesur llwyddiant**. Ar gyfer 2014-2020, rydym yn awyddus i allu cyfleu cyflawniadau prosiectau a rhaglenni mewn ffyrdd newydd sy’n gwneud synnwyr o effaith uniongyrchol ein buddsoddiadau a’r effaith bosibl yn y tymor hwy. Bydd hyn hefyd yn un o ystyriaethau allweddol Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru, y caiff y papurau ar ei gyfer i gyd eu cyhoeddi ar dudalennau gwe WEFO. Mae ein Cynllun Monitro a Gwerthuso hefyd wedi’i gyhoeddi ar y tudalennau gwe ac mae’n nodi’n fanwl y modd y byddwn yn ceisio monitro hynt y rhaglenni a’u gwerthuso yn ystod y cyfnod ariannu.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i lawer o’r sefydliadau partner ac unigolion ledled Cymru sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 ers i’r gwaith ddechrau arnynt yn 2012. Mae’r gwaith partneriaeth helaeth a hynod gynhyrchiol hwn wedi atgyfnerthu’r rhaglenni drwy gydol y prosesau drafftio ac ymgynghori ac rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth hwnnw. Mae ein **hymrwymiad i bartneriaeth** yn mynd y tu hwnt i hynny - mae gan WEFO nifer o grwpiau partneriaeth sy’n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod agweddau amrywiol ar y gwaith o gyflawni’r rhaglenni, yn enwedig Pwyllgor Monitro’r Rhaglen. Bydd WEFO hefyd yn atgyfnerthu’r broses o gydweithio â phartneriaethau rhanbarthol er mwyn helpu i gyflawni’r rhaglenni a sicrhau bod buddsoddiadau’n ystyried blaenoriaethau datblygu economaidd rhanbarthol.

Yn olaf, hoffwn annog sefydliadau i gysylltu â WEFO yn gynnar yn ystod y broses o ddatblygu syniadau prosiect (0845 010 3355 neu http://wefo.wales.gov.uk/applyingforfunding/?skip=1&lang=cy). Gall WEFO eich helpu i ystyried y cyfleoedd amrywiol a gynigir gan y rhaglenni a rhoi help a chyngor ar hyd y daith. Y nod yw gweithio gyda’r sefydliadau hynny sy’n cynnig y syniadau gorau i ddatblygu cynigion cyflawn, gan gefnogi’r broses o baratoi cynlluniau busnes gam wrth gam. Hoffwn annog pob darpar ymgeisydd i fanteisio i’r eithaf ar yr holl gymorth y gall WEFO ei gynnig o’r cychwyn cyntaf.

Jane Hutt
Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

# Cynnwys


1. **Strategaeth** .......... 4

2. **Crynodebau o‘r Cynllun Ariannol, Canlyniadau, Allbynnau a’r Fframwaith Perfformiad** .......... 6

3. **Themau Drawsbynciol** .......... 18

4. **Echel Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd** .......... 28

**Amcan Penodol 1.1:** Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat .......... 34

**Amcan Penodol 1.2:** Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau. .......... 40

Cysylltiadau Rhwng cronfeydd .......... 47

5. **Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BbaCh** .......... 49

**Amcan Penodol 2.1:** Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu. .......... 57

**Amcan Penodol 2.2:** Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth. .......... 61

**Amcan Penodol 2.3:** Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau .......... 65

**Amcan Penodol 2.4:** Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol) . 69

**Amcan Penodol 2.5:** Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu. .......... 75

Cysylltiadau Rhwng cronfeydd .......... 79

6. **Echel Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni** .......... 81

**Amcan Penodol 3.1:** Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, .......... 87

**Amcan Penodol 3.2:** Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir. ........ 92

**Amcan Penodol 3.3:** Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd ........ 96

**Cysylltiadau Rhwng cronfeydd** ........ 100

7. **Echel Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol** ........ 102

**Amcan Penodol 4.1:** Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu). ........ 114

**Amcan Penodol 4.2:** Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol ........ 118

**Amcan Penodol 4.3:** Cyfrannu at dargedau am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps. ........ 123

**Amcan Penodol 4.4:** Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth ranbarthol neu drefol. 126

**Cysylltiadau Rhwng cronfeydd** ........ 131

8. **Echel Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol** ........ 133

**Amcan Penodol 5.1:** Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol. ........ 134

**Amcan Penodol 5.2:** Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau. ........ 134

**Amcan Penodol 5.3:** Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill a rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, ynghyd â'u natur ategol. ........ 135

**Dangosyddion canlyniadau** ........ 135

**Camau** ........ 135

**Dangosyddion allbwn** ........ 139

9. **Dull integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol** ........ 141

10. **Partneriaid perthnasol ynghyd â'u rôl** ........ 147

11. **Lleihau baich gweinyddol buddiolwyr** ........ 154

12. **Rhestr Termau Acronymau Cyffredin** ........ 157

# 1. Strategaeth

1.1 Rhydd yr ddogfen hon y cyfiawnhad dros gynnwys yr Echelau Blaenoriaeth a'r amcanion, camau gweithredu a chanlyniadau disgwyliedig penodol a ddisgrifir yn Chapter 2. Mae'n adeiladu ar y dadansoddiad o wahaniaethau, anghenion a photensial am dwf a'r rhesymeg dros ddethol Amcanion Thematig a gynhwysir yng Nghytundeb Partneriaeth y DU; yn arbennig y dadansoddiad a'r rhesymeg sy'n benodol i Gymru a amlinellir yn y Bennod ar Gymru.

1.2 Mae'r Cytundeb Partneriaeth eisoes wedi ystyried cysylltiadau â'r Argymhellion sy'n Benodol i Wledydd y DU a Phapur Sefyllfa'r Comisiwn ar y DU wrth bennu cyfiawnhad dros ddethol y prif Amcanion Thematig.

1.3 Bydd pob Amcan Blaenoriaeth a Phenodol yn y rhaglen hon yn cyfrannu mewn rhyw ffordd at dwf deallus, cynaliadwy a chynhwysol, ynghyd â chydlyniant darbodus, cymdeithasol a thiriogaethol. Mae'r rhaglen yn anelu at helpu i fynd i'r afael â gwendidau hirsefydledig yn economi'r rhanbarth, tra'n adeiladu ar gryfderau tiriogaethol. Nid yw cydlyniant darbodus, cymdeithasol a thiriogaethol (a wneir mewn ffordd ddeallus, gynaliadwy a chynhwysol) yn annibynnol ar ei gilydd a dylent gael eu hategu gan yr holl Flaenoriaethau, Amcanion Penodol a gweithrediadau a gefnogir. Er enghraifft:

- Cydlyniant darbodus: targedu gwahaniaethau mewn cynhyrchiant ac arloesedd, gan gynyddu adnoddau ymchwil mewn meysydd sy'n gryf yn diriogaethol a gwella natur gystadleuol a deniadol tiriogaethau drwy well cysylltedd, a thrwy hynny gynnal busnesau twf a gweithwyr medrus.

- Cydlyniant cymdeithasol: gwella cysylltiadau rhwng marchnadoedd llafur lleol sydd â symudedd isel i gyflogaeth a chanolfannau trefol, gan gysylltu cymorth busnes wedi'i dargedu â buddsoddiad mewn sgiliau a gwella natur ddeniadol meysydd ar gyfer mewnfuddsoddi gan gefnogi swyddi lleol (e.e. Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd, Carbon Isel).

- Cydlyniant tiriogaethol: targedu meysydd cryf neu lle gwelir gallu yn dod i'r amlwg, gan gynnwys drwy wella hygyrchedd meysydd mwy amgylchol a meithrin potensial gwirioneddol yn y meysydd hynny (e.e. ynni morol). Sicrhau bod symudedd a swyddi lleol yn cael eu hystyried ym mhob gweithrediad.

1.4 Caiff rhaglen ERDF ei llywio gan ffocws pendant ar fuddsoddiadau a all gyfrannu at greu swyddi cynaliadwy a thwf economaidd, gan grynodi adnoddau yn y meysydd hynny lle gellir cael yr effaith fwyaf. Nid yw ffocws ar swyddi cynaliadwy a thwf yn golygu bod twf economaidd yn digwydd ar draul yr amgylchedd neu'r tlotaf a'r mwyaf agored i niwed; twf economaidd sy'n mynd ati'n briodol i ystyried ac ymgorffori

cyfleoedd cymdeithasol ac amgylcheddol, gan adlewyrchu'n llawn brif egwyddor drefniadol Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru[1].

1.5 Mae ein dull o fuddsoddi yn anelu at ystyried y cyd-destun buddsoddi ehangach, gan amlinellu'r rôl benodol y gall y rhaglen ei chwarae i ddatgelu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd ochr yn ochr â buddsoddiadau (llawer mwy o bosibl) y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Felly, nid yw'r rhaglen hon yn ceisio datrys y problemau a nodwyd ar eu pen eu hunain, ond mae'n ceisio gwella'r amodau i'r buddsoddiad ehangach hwnnw ddigwydd gan eraill, yn arbennig y sector preifat. Mae'n anelu at wneud hyn drwy fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau a'r rhwystrau i dwf a helpu i ddileu'r risg sy'n gysylltiedig â chyfleoedd buddsoddi.

1.6 Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i gyflawni twf a chefnogi swyddi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd tra'n cefnogi amcanion allweddol polisi Cydlyniant yr UE drwy ychwanegu gwerth a pheidio â chael effaith andwyol ar economïau rhanbarthol eraill. Yn fwy penodol, lle mae deddfwriaeth Cronfa yn caniatáu i fusnesau mawr dderbyn cyfraniad gan y Cronfeydd, ni chaiff y fath hyblygrwydd ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiadau sy'n arwain at symud nifer sylweddol o swyddi i Orllewin Cymru a'r Cymoedd o leoliadau presennol yn yr Undeb.

1.7 Lle caiff cronfeydd ESI eu gwario ar ffurf consesiynau / contractau cyhoeddus, bydd yr Awdurdod Rheoli - ac unrhyw Gorff Canol, lle bo'n gymwys - yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiolwyr barchu'n llawn reolau caffael cyhoeddus yr UE ac yn arbennig: (i) Cyfarwyddebau 2004/18/EC a 2004/17/EC; (ii) Cyfarwyddebau 2014/23/EU, 2014/24/EU a 2014/25/EU unwaith y'u trosir yn ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig; (iii) Cyfarwyddebau 89/665/EEC a 92/13/EEC; a (iv) yr egwyddorion caffael cyhoeddus cyffredinol sy'n deillio o'r Cytundeb ar Weithrediad yr UE. Hysbysir ymgeiswyr a buddiolwyr am y gofyniad sylfaenol hwn drwy gytundebau dyfarnu grant a rheolau a dogfennau canllaw cymhwysedd cenedlaethol, a ategir gan hyfforddiant a chymorth lle bo angen.

[1] I weld: *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*, Cynllun Datblygu Cynaliadwy i Gymru http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/); a Phapur Gwyn sy'n nodi cynigion ar gyfer bil Datblygu Cynaliadwy (http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopment/sdwhitepaper/)

# 2. Crynodebau o‘r Cynllun Ariannol, Canlyniadau, Allbynnau a’r Fframwaith Perfformiad


## 2a. Dadansoddiad o'r cynllun ariannol yn ôl echel blaenoriaeth

| **Echel Blaenoriaeth** | Cymorth yr Undeb | Cyfanswm Cyllid Cyfatebol | Cyllid Cyfatebol Cyhoeddus | Cyllid Cyfatebol Preifat | Cyfanswm yr arian | Cyfradd gydariannu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 299,317,581 | 152,892,090 | 116,553,442 | 36,338,648 | 452,209,671 | 66.19% |
| **2** | 207,993,404 | 125,275,951 | 58,517,425 | 66,758,526 | 333,269,355 | 62.41% |
| **3** | 170,823,488 | 75,213,511 | 56,055,766 | 19,157,745 | 246,036,999 | 69.43% |
| **4** | 501,305,767 | 262,181,542 | 198,696,431 | 63,485,111 | 763,487,309 | 65.66% |
| **5** | 24,070,209 | 8,186,839 | 8,186,839 | 0 | 32,257,048 | 74.62% |
| **Cyfanswm** | **1,203,510,449** | **623,749,933** | **438,009,903** | **185,740,030** | **1,827,260,382** | **65.86%** |

## 2b. Swm dangosol o gymorth i'w ddefnyddio ar gyfer amcanion newid yn yr hinsawdd

| **Echel Blaenoriaeth** | **Swm dangosol o gymorth i'w ddefnyddio ar gyfer amcanion newid yn yr hinsawdd (EUR)** | **Cyfran o gyfanswm y dyraniad i'r rhaglen weithredol (%)** |
|---|---|---|
| **1. Ymchwil ac Arloesedd** | 67,863,516 | 5.64% |
| **2. Cyst BBaCh** | 5,742,731 | 0.48% |
| **3. Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni** | 168,903,488 | 14.03% |
| **4. Cysylltedd a Datblygu Trefol** | 74,325,687 | 6.18% |
| **5. Cymorth Technegol** | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm** | **316,835,422** | **26.33%** |

## 2c. Siart o'r Cynllun Ariannol yn ôl yr Echel Blaenoriaeth



## 2d. Crynodeb o’r Canlyniadau a’r Allbynnau yn ôl yr Amcan Penodol

| **(1) Ymchwil ac Arloesedd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Penodol** | **Dangosyddion Canlyniadau / Targed** | **Allbynnau** [**Dangosyddion Craidd y Comisiwn*] | |
| **AP(1.1) Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat** | **• Incwm Ymchwil i SAUau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (data o HESA)**<br><br>Targed: Cynnydd o 10-15% | **Swm yr arian ymchwil a sicrhawyd** | **165,000,000** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gefnogir* | 160 |
| | | Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell | 6 |
| | | Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gefnogir* | 470 |
| | | Nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell* | 200 |
| **AP(1.2) Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau** | **• Cyfran gyfartalog o gyfanswm y trosiant o arloesedd cynnyrch, ac arloesedd newydd: newydd i'r farchnad, newydd i fusnesau ac yn llawer gwell**<br><br>Targed: Cynnydd o 24-27% | **Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad*** | **490** |
| | | **Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni*** | **725** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gefnogir* | 1,212 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth* | 520 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael grantiau* | 3,750 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | 30 |
| | | Nifer y busnesau newydd sy'n cael cymorth* | 42,840,000 |
| | | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu* | 1,125 |
| | | Nifer y patentau a gofrestrir ar gyfer cynhyrchion | 519 |
| | | Nifer y prosiectau peilot a gwblheir | n/a |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 956 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 956 |

| (2) Cyst BBaCh | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Penodol** | **Dangosyddion Canlyniadau / Targed** | **Allbynnau** [*Dangosyddion Craidd y Comisiwn*] | |
| **AP(2.1) Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu** | **• Swm a fuddsoddwyd mewn Cyfalaf Menter a Chyfalaf Ehangu**<br><br>Targed: Cynnydd o £18m i £26-£27m yn flynyddol | **Buddsoddiad mewn busnesau** | **91,556,196** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael grantiau* | 160 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau* | 235 |
| | | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer BBaChau - Dim grantiau* | 132,000,000 |
| | | Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | 2,300 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 190 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 190 |
| **AP(2.2) Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth** | **• Cyfrif genedigaethau busnesau newydd**<br><br>Targed: Cynnydd o 8% yn y gyfradd geni flynyddol | **Nifer y busnesau newydd sy'n cael cymorth*** | **5,150** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | 275 |
| | | Unigolion sy'n cael cymorth | 14,350 |
| | | Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd | 7,300 |
| | | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 375 |
| | | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl | 3,650 |
| | | Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | 8,800 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 2,710 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 2,710 |
| **AP(2.3) Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a** | **• Defnydd BBaCh o fand eang ffibr a chebl** | **Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni*** | **1,480** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | 3,450 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **seilwaith TGCh gan BBaChau** | Targed: Cynnydd o 22% BBaChau i 27% | | |
| **AP(2.4) Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwlado)** | **• Cyflogaeth o fewn BBaChau bach (10-49 o gyflogeion) a chanolig (50-249)**<br><br>Targed: Cynnydd o 10% mewn niferoedd cyflogaeth | **Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth*** | **6,450** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael grantiau* | 40 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau* | 330 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | 13,650 |
| | | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer BBaChau - Grantiau* | 4,320,000 |
| | | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer BBaChau - Dim grantiau* | 6,600,000 |
| | | Cynnydd mewn lefelau allforio | 167,100,000 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 8,700 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 8,700 |
| **AP(2.5) Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu** | **• Buddsoddiad ecwiti cam cynnar**<br><br>Targed: Cynnydd o £9m i £12-16m yn flynyddol | **Buddsoddiad mewn busnesau** | **26,536,773** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau* | 90 |
| | | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer BBaChau - Dim grantiau* | 23,760,000 |
| | | Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | 490 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni* | 20 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 45 |
| | | Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 45 |

| **(3) Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Penodol** | **Dangosyddion Canlyniadau / Targed** | **Allbynnau** [*Dangosyddion Craidd y Comisiwn*] | |
| **AP(3.1) Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol** | **• Capasiti gosodedig mewn tonnau a llanw**<br><br>Targed: 20MW ychwanegol | **Capasiti ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy*** | **20** |
| | | Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni | 2 |
| | | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | 8 |
| **AP(3.2) Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir** | **• Nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy (heb gynnwys PV)**<br><br>Targed: Cynnydd o 493 i 530 | **Cynlluniau ynni cymunedol** | **37** |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | 150 |
| | | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni* | 75 |
| | | Nifer y prosiectau peilot a gwblheir | 4 |
| **AP(3.3) Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd** | • Sgôr effeithlonrwydd ynni aelwydydd sy’n wynebu tlodi tanwydd difrifol<br><br>Targed: Cynyddu Perfformiad Ynni 2 radd ar gyfer 10% o'r llinell sylfaen | **Nifer y cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni*** | **5,500** |
| | | Gostyngiad amcangyfrifedig nwyon tŷ gwydr* | 10 |

| (4) Cysylltedd a Datblygu Trefol | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Penodol** | **Dangosyddion Canlyniadau / Targed** | **Allbynnau** [**Dangosyddion Craidd y Comisiwn*] | |
| **AP(4.1) Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu)** | • Cyflymder cyfartalog ar ffordd TEN-T (Llywodraeth Cymru)<br><br>Targed: Cynnydd o 5-10% (A40 / A55) | **Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)*** | **15** |
| | | Llwybr troed neu lwybr beiciau a grëwyd neu a ailadeiladwyd | 10 |
| **AP(4.2) Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol** | • Cyfran y bobl 16 oed a throsodd o fewn trothwy amser teithio 16, 15 a 30 munud i 'Ganolfan Allweddol' rhwng 7am a 9am ar ddydd Mawrth ar drafnidiaeth gyhoeddus<br><br>Target: Cynnydd o 5-10% ym mhob band amser (0-15 / 0-30) | **Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a grëwyd neu a wellwyd** | **2,500,000** |
| | | Cyfleusterau rhyngfoddol a grëwyd neu a wellwyd | 25 |
| | | Cyfanswm hyd llinell reilffordd newydd (gan gynnwys TEN-T)* | 15 |
| | | Cyfanswm hyd llinell reilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)* | 15 |
| | | Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus | 400,000,000 |
| | | Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)* | 5 |
| | | Lleihad mewn allyriadau CO2 ac allyriadau cyfatebol | 10,700 |
| **AP(4.3) Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol** | • Cyfran yr eiddo sydd mewn codau post a wasanaethir gan rwydweithiau | **Safleoedd ychwanegol sydd â mynediad band eang o 30 Mbps o leiaf* - Cartrefi** | **28,000** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ewrop yng Nghymru am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps** | NGA<br><br>Targed: Cynnydd o 58% i 65% | Nifer y Busnesau sy'n cael cymorth i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch | 250 |
| | | Poblogaeth ychwanegol a gwmpesir gan fand eang (> 100Mbps) | n/a |
| **AP(4.4) Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol** | • Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau mewn Ardaloedd Teithio i'r Gwaith<br><br>Targed: Gostyngiad cyfartalog o 8% | **Swyddi y darparwyd ar eu cyfer** | **1,770** |
| | | Tir a ddatblygwyd | 50 |
| | | Eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd | 56,430 |
| | | BBaChau y darparwyd ar eu cyfer | 235 |

## 2e. Crynodeb o'r Fframwaith Perfformiad

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o'r dangosydd neu'r cam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo'n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| **(1) Ymchwil ac Arloesedd** | Cam gweithredu | % o'r targed terfynol ar gyfer 'nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol' a gyflawnwyd gan weithrediadau a ategwyd yn rhannol ac a gwblhawyd yn llawn | 31% | dd/g | Yn angenrheidiol am na all allbwn adrodd carreg filltir resymol yn 2018 |
| | Allbwn | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol | dd/g | 3,750 | Allbwn yw'r prif fesur o weithgarwch o dan Flaenoriaethau Buddsoddi (1b) sy'n cwmpasu 60% o'r Echel Blaenoriaeth |
| | Ariannol | Cyfanswm y gwariant cymwys a nodwyd yn system gyfrifyddu'r awdurdod ardystio ac a ardystiwyd gan yr awdurdod | €115.3m | €452.2m | |
| **(2) Cyst BBaCh** | Cam gweithredu | x% o'r targed terfynol ar gyfer 'nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol' a gyflawnwyd gan weithrediadau a gyflawnwyd yn rhannol ac yn llawn | 44% | dd/g | Yn angenrheidiol er mwyn darparu carreg filltir ar gyfer y targed allbwn terfynol |
| | Allbwn | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol | dd/g | 17,375 | Allbwn yw'r prif fesur o weithgarwch o dan 2 allan o 3 Blaenoriaeth Fuddsoddi (2b) yr Echel |

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o'r dangosydd neu'r cam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo'n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Blaenoriaeth. Mae hyn yn cyfateb i 90% o'r flaenoriaeth |
| | Ariannol | Cyfanswm y gwariant cymwys a nodwyd yn system gyfrifyddu'r awdurdod ardystio ac a ardystiwyd gan yr awdurdod | €85.1m | €333.2m | |
| **(3) Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni** | Cam gweithredu | X nifer y cynlluniau paratoi safle cymorth Ynni a gyflawnwyd gan weithrediadau a gyflawnwyd yn rhannol ac yn llawn | 1 | dd/g | Yn angenrheidiol er mwyn nodi carreg filltir wrth gyflawni targed terfynol allbwn cysylltiedig |
| | Allbwn | Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni | dd/g | 2 | Bydd yn nodi elfen allweddol o'r cymorth er mwyn gallu datblygu sector ynni morol yn GCC. Mae hyn, ar y cyd â'r allbwn, Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd, yn nodi'r rhan fwyaf o weithgarwch o dan AP3.1, sef 59% o'r flaenoriaeth |
| | Cam gweithredu | X Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd a gyflawnwyd gan weithrediadau a gyflawnwyd yn rhannol ac yn llawn | 3 | dd/g | Yn angenrheidiol er mwyn nodi carreg filltir wrth gyflawni targed terfynol allbwn cysylltiedig |
| | Allbwn | Nifer y prototeipiau ynni | dd/g | 8 | Bydd yn nodi elfen allweddol o'r |

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o'r dangosydd neu'r cam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo'n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | adnewyddadwy a brofwyd | | | cymorth er mwyn gallu datblygu sector ynni morol yn GCC. Gweler yr esboniad ar gyfer Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni uchod. |
| | Cam gweithredu | x% o'r targed terfynol ar gyfer deiliaid cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni a gyflawnwyd gan weithrediadau a ategwyd yn rhannol ac a gwblhawyd yn llawn | 50% | dd/g | Yn angenrheidiol er mwyn nodi carreg filltir wrth gyflawni targed terfynol allbwn cysylltiedig (isod) |
| | Allbwn | Nifer y cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni | dd/g | 5,500 | Bydd yn nodi gweithgarwch ar gyfer effeithlonrwydd ynni tai |
| | Ariannol | Cyfanswm y gwariant cymwys a nodwyd yn system gyfrifyddu'r awdurdod ardystio ac a ardystiwyd gan yr awdurdod | €62.8m | €246.0m | |
| **(4) Cysylltedd a Datblygu Trefol** | Cam gweithredu | x% o'r dyraniad ariannol â blaenoriaeth y rhoddwyd cyfrif amdano gan gytundebau er mwyn cyflawni gwaith seilwaith | 35% | dd/g | Cytundebau â chontractwyr i gyflawni gwaith seilwaith. Ar gyfer y diwydiant rheilffordd gallai'r rhain fod yn Gytundebau Gweithredu neu'n Gytundebau Gweithredu Sylfaenol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn adrodd ar garreg filltir yn erbyn yr allbwn km teithwyr gros, sydd â bwlch amser yn gysylltiedig |

| Echel Blaenoriaeth | Math o Ddangosydd | Diffiniad o'r dangosydd neu'r cam gweithredu | Carreg filltir ar gyfer 2018 | Targed terfynol (2023) | Eglurhad o berthnasedd y dangosydd, lle bo'n briodol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ag ef. |
| | Allbwn | Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus | dd/g | 400,000,000 | Mae'r allbwn yn mesur gweithgarwch o dan un o bedair Blaenoriaeth Fuddsoddi o dan yr Echel Blaenoriaeth (tua 34% o'r holl weithgarwch) |
| | Cam gweithredu | X nifer y prosiectau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Rheoli ar ôl dilyn proses flaenoriaethu gytûn | 3 and approval of at least 3 regionally significant schemes | Successful completion of at least 5 regionally significant schemes | Bydd yn nodi'r elfennau Datblygu Trefol ac mae'n angenrheidiol i nodi cerrig milltir ar gyfer allbwn datblygu tir. |
| | Allbwn | Tir a ddatblygwyd (Ha) | dd/g | 50 | Mae'r allbwn yn mesur gweithgarwch o dan un o bedair Blaenoriaeth Fuddsoddi sy'n cwmpasu tua 33% o'r holl weithgarwch ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth. |
| | Ariannol | Cyfanswm y gwariant cymwys a nodwyd yn system gyfrifyddu'r awdurdod ardystio ac a ardystiwyd gan yr awdurdod | €194.7m | €763.5m | |

# 3. Themau Drawsbynciol

## Datblygu cynaliadwy

3.1. Rhydd y Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU drosolwg o'r dull o hyrwyddo'r egwyddorion llorweddol ar draws cronfeydd ESI yng Nghymru sy'n cynnwys Thema Drawsbynciol (ThD) Datblygu Cynaliadwy. Mae hefyd yn amlinellu prif egwyddorion trefniadol ac amcanion cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru sy'n sail i weithredu'r ThD o fewn y Rhaglenni ESF yng Nghymru. Mae'r Cytundeb Partneriaeth hefyd yn disgrifio'r cynnydd tuag at dargedau cynaliadwyedd amgylcheddol cysylltiedig ac mae rhannau eraill o'r rhaglen hon yn disgrifio rhai o'r camau fertigol sy'n cyfrannu atynt (e.e. cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni).

3.2. O ran cynaliadwyedd amgylcheddol, *Cynnal Cymru Fyw* yw dull newydd Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r broses o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru ac mae'n seiliedig ar y dull ecosystem. Diffinnir ecosystem fel yr holl bethau byw, mewn amgylchedd, gan gynnwys eu rhyngweithiadau, â'i gilydd a'u hamgylchedd.

3.3. Bydd y Rhaglen ERDF hon yn cyfrannu at gyflawni nodau cynaliadwyedd amgylcheddol fel a ganlyn:

- Hyrwyddo ymchwil ac arloesedd ym maes Her Fawr carbon isel, ynni a'r amgylchedd, gan adeiladu ar y buddsoddiadau sylweddol a wnaed yn y maes hwn o dan raglenni 2007-2013
- Datblygu'r sector carbon isel, ynni a'r amgylchedd drwy gyngor a chymorth busnes a chyllid busnes o dan Flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh
- Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, drwy ymyriadau o dan Flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh
- Cynyddu'r potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy gefnogi ymchwil ac arloesedd, a galluogi buddsoddiadau seilwaith yn y diwydiant Ynni Morol yng Nghymru
- Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a chymunedol
- Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru, yn arbennig mewn ardaloedd lle ceir tlodi tanwydd ac amddifadedd penodol (fel y mesurir gan MALlC)
- Hyrwyddo cynlluniau ynni carbon isel ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig

- Cefnogi atebion trafnidiaeth carbon isel a chynaliadwy, gan gynnwys drwy gysylltu unigolion diwaith ac anweithgar yn economaidd â gwaith a hyfforddiant

3.4. Hefyd, cymerir y camau canlynol wrth ddethol a datblygu gweithrediadau o dan y Rhaglen er mwyn sicrhau gofynion diogelu'r amgylchedd, effeithlonrwydd adnoddau, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, cadernid mewn trychineb a rheoli trychineb:

- Pennir targedau ar lefel Echel Blaenoriaeth gan ddarparu ysgogwr pwysig i sicrhau bod prosiectau yn ymdrin ag amcanion thema drawsbynciol y rhaglenni

- Asesu thema drawsbynciol ar bob cam o waith datblygu prosiect, gan gynnwys asesiad yn erbyn y cyfraniad tuag at amcanion datblygu cynaliadwy o ran diogelu'r amgylchedd, effeithlonrwydd adnoddau, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, cadernid mewn trychineb ac atal a rheoli risg

- Darperir cyngor arbenigol parhaus i brosiectau drwy WEFO a thrwy drefniadau a ddatblygir i weithredu prosiectau, gan gynnwys ystyried caffael gwyrdd a'r potensial i ymgorffori atebion seilwaith gwyrdd. Un o'r amcanion allweddol fydd darparu'r cyfraniad arbenigol ar gam cynnar yn y broses er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo'r themâu trawsbynciol

- Cyflwynir rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff WEFO a noddwyr prosiectau ar fuddiannau integreiddio themâu trawsbynciol ac arfer gorau mewn perthynas â hwy

- Caiff canllawiau ar gyfer gweithgareddau eu paratoi ynghyd ag enghreifftiau o astudiaethau achos arferion gorau a fydd yn darparu gwybodaeth benodol am y ffordd y gall noddwyr fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol o fewn eu cynlluniau prosiect

- Monitro cynnydd yn rheolaidd, drwy data 'rhagolwg' (y targedau a bennir gan brosiectau o'r dechrau'n deg) a chyflawniad 'gwirioneddol' (yr hyn y mae prosiectau yn ei gyflawni mewn gwirionedd a gaiff ei fonitro drwy'r system ffurflenni chwarterol), gan olygu y gellir ymyrryd yn gynnar lle bo angen

- Cyflwyno adroddiadau diweddaru i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill

- Bydd WEFO yn annog sefydliadau cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy allweddol i gymryd rhan mewn ymgais i sefydlu rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol

3.5. Drwy fesurau anuniongyrchol, ar lefel unigol neu sefydliadol, a thrwy sicrhau bod prosiectau'n mabwysiadu arferion ac egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

priodol wrth gyflawni gweithgarwch ERDF, bydd buddsoddiadau yn gallu cefnogi egwyddorion ac amcanion Datblygu Cynaliadwy cyffredinol Llywodraeth Cymru.

3.6. Ni ragwelir camau dynodedig mewn perthynas â Natura 2000 ar gyfer ERDF, er y bydd y camau a nodir uchod yn sicrhau na chollir cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Fframwaith Camau Blaenoriaethu cysylltiedig Cymru drwy ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd yn y gwaith o ddylunio a chyflawni gweithrediadau. Disgwylir y bydd adnoddau cenedlaethol ac Ewropeaidd eraill ar gael (gan gynnwys EAFRD) er mwyn cyfrannu'n fwy uniongyrchol at y Fframwaith Camau Blaenoriaethu fel y cyflawnir statws cadwraeth ffafriol cynefinoedd a rhywogaethau o ddiddordeb cymunedol.

## Cyfle cyfartal a dim gwahaniaethu

3.7. Mae integreiddio cyfle cyfartal, prif ffrydio rhwng y rhywiau a'r Gymraeg yn bwysig nid yn unig am resymau cyfreithiol, ond hefyd am fod rhannau cymdeithasol a demograffig gwahanol o gymdeithas yn y farchnad lafur yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y gweithgarwch a gyflawnir gan y rhaglenni.

3.8. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2012-16) ac amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol yn ogystal â'i hymrwymiad cryf i gydraddoldeb a chynhwysiant. Datblygwyd y Cynllun yn unol â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010.

3.9. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA) er mwyn asesu effeithiau posibl rhaglenni ERDF ar bobl â nodweddion cymdeithasol-demograffig gwahanol. Mae'r AEG yn cefnogi cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â'r PSED drwy ddarparu tystiolaeth ar effeithiau posibl y rhaglen ar bobl â'r naw nodwedd a warchodir:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil ac Ethnigrwydd
- Crefydd a Chred
- Rhyw / Rhywedd
- Cyfeiriadedd Rhywiol

3.10. Daw'r adroddiad i'r casgliad fod y broses o ddatblygu rhaglenni ERDF 2014-2020 ar gyfer Cymru wedi cynnwys rhoi ystyriaeth helaeth i gydraddoldeb ac, oherwydd hyn, mae'n annhebygol iawn y ceir unrhyw effeithiau negyddol anghymesur ar unrhyw nodwedd a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd yn cefnogi'r Gymraeg fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.11. Amcanion cydraddoldeb allweddol y rhaglen ERDF yng Nghymru yw:

- Annog entrepreneuriaeth a mentrau dechrau busnes er mwyn denu mwy o bobl ifanc, menywod, pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol

- Cefnogi creu amgylchedd sydd o blaid mannau gwaith cynhwysol ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith staff, gan gynnwys cydbwyso gwaith a bywyd preifat

- Sicrhau bod mynediad at dechnoleg ar gael ac yn hygyrch i bawb, yn enwedig pobl mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn ac eraill y mae'r 'rhaniad digidol' yn effeithio arnynt

- Cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesedd sy'n ceisio ateb heriau cymdeithasol, fel cefnogi heneiddio gweithgar, cynnig cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i unigolion a chefnogi byw'n annibynnol

- Cefnogi mynediad i bobl anabl a'r rhai o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys drwy atebion trafnidiaeth gynaliadwy

- Nodi a chefnogi cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

3.12. Mae Cytundeb Partneriaeth y DU yn cynnwys manylion y dull o hyrwyddo egwyddorion llorweddol ar draws cronfeydd ESI yng Nghymru.

3.13. Yn benodol i'r Rhaglen hon, cymerir y camau canlynol wrth ddethol a datblygu gweithrediadau i hyrwyddo cyfle cyfartal ac atal unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar y naw nodwedd gwarchodedig a amlinellir uchod:

- Rhoddir cyngor arbenigol parhaus i brosiectau gan Lywodraeth Cymru a thrwy drefniadau a ddatblygir i weithredu prosiectau. Un o'r amcanion allweddol fydd darparu'r cyfraniad arbenigol ar gam cynnar yn y broses er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo prif ffrydio rhwng y rhywiau a chyfle cyfartal

- Cyflwynir rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff Llywodraeth Cymru a noddwyr prosiectau ar sut i integreiddio amcanion cyfle cyfartal

- Caiff canllawiau ar gyfer gweithgareddau eu paratoi ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos arferion gorau a fydd yn darparu gwybodaeth benodol am sut y gall noddwyr fynd i'r afael â phrif ffrydio rhwng y rhywiau a chyfle cyfartal o fewn eu cynlluniau prosiect

- Monitro cynnydd yn rheolaidd, drwy data 'rhagolwg' (y targedau a bennir gan brosiectau o'r dechrau'n deg) a chyflawniad 'gwirioneddol' (yr hyn y mae prosiectau yn ei gyflawni mewn gwirionedd a gaiff ei fonitro drwy'r system ffurflenni chwarterol), gan olygu y gellir ymyrryd yn gynnar lle bo angen

- Cyflwyno adroddiadau diweddaru i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill

- Bydd Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau prif ffrydio rhwng y rhywiau, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol allweddol i gymryd rhan mewn ymgais i sefydlu rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol

- Mae'r newid rhyngwladol tuag at ymdrin ag anabledd ar sail hawliau yn seiliedig ar y cysyniad o hawl yn hytrach nag elusen. Ni ddylai'r cyfyngiadau a wynebir gan bobl anabl fod ynghlwm wrth eu hanabledd mwyach, ond ag anallu cymdeithas i ddarparu cyfle cyfartal i bawb. Mae'r cysylltiad rhwng sgiliau, cymwysterau, cyfleoedd mewn bywyd ac anabledd yn sefydledig, gan olygu bod pobl yn cael llai o gymwysterau, yn aml drwy anfantais addysgol gynnar, gan arwain at ddibyniaeth ar fudd-daliadau anabledd yn ddiweddarach mewn bywyd.

- Bydd rhaglenni Cymru yn ceisio sicrhau yr ymyrrir yn gynnar er mwyn helpu pobl i gael gwaith a pheidio â diffinio eu hunain fel pobl na allant weithio cyn iddynt gael cymorth o'r fath. Mae angen integreiddio camau mewn ystod eang o raglenni cyflogaeth er mwyn sicrhau y gall pobl anabl barhau i weithio. Ni ddylai atebion fod yn seiliedig ar dybiaethau na stereoteipiau traddodiadol, ond ar angen benodol yr unigolyn.

- Heb amgylchedd hygyrch nid yw'r cymorth na'r rhaglenni cyflogaeth sydd ar gael yn fawr o fudd. Bydd dylunio a darparu'r amgylchedd lle gall pobl anabl deithio, cael mynediad iddo a'i ddefnyddio'n annibynnol neu gyda chymorth lle bo'n briodol, yn ystyriaeth allweddol ar gyfer unrhyw weithgarwch a ariennir.

<u>Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod</u>

3.14. Mae Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol Llywodraeth Cymru yn nodi'r ffordd y mae'n bwriadu hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru.

3.15. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd benodol i lunio Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol mae am gael ei chydnabod am ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddynion a menywod yng Nghymru drwy ddatblygu strategaethau a pholisïau sy'n effeithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

3.16. Ymdrinnir ag amcanion cydraddoldeb rhywiol allweddol drwy raglenni ESF yn bennaf. Bydd rhaglenni ERDF yn gallu ategu'r gweithgarwch hwn fel a ganlyn:

- Cefnogi cystadleurwydd y sector gofal plant lle mae'n cyflawni amcanion yr Echel Blaenoriaeth cysylltiedig

- Cefnogi creu amgylchedd sydd o blaid mannau gwaith cynhwysol ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith staff, gan gynnwys cydbwyso gwaith a bywyd preifat

- Annog entrepreneuriaeth a mentrau dechrau busnes er mwyn denu mwy o fenywod

3.17. Mae Cytundeb Partneriaeth y DU yn cynnwys manylion y dull o hyrwyddo egwyddorion llorweddol ar draws cronfeydd ESI yng Nghymru.

## Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Ardaloedd daearyddol y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf/grwpiau targed sy'n wynebu risg o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol

3.18. Yng Nghymru caiff tlodi ei ddiffinio fel a ganlyn: '*Cyflwr hirdymor o ddiffyg adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol neu amwynderau neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau(megis mynediad i ardaloedd deniadol a mannau agored) y mae eraill mewn cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol.'* Felly, mae cysylltiad cryf rhwng Allgáu Cymdeithasol neu'r gallu i gyfranogi a materion Tlodi.

3.19. Daw'r Dadansoddiad Economaidd-gymdeithasol sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Weithredol hon i'r casgliad bod ymyriadau sydd wedi'u dylunio i wella canlyniadau cyflogaeth ac incwm yn fwy tebygol o lwyddo pan fyddant yn canolbwyntio ar unigolion ond y gall mentrau sydd wedi'u targedu'n ofalus ac sy'n canolbwyntio ar 'le' hefyd fod yn effeithiol. Awgryma y gall cymysgedd o ymyriadau fod yn briodol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd lle ceir gwendidau ym mhroffil sgiliau'r gweithlu ac ardaloedd o amddifadedd ffisegol a all atgyfnerthu canlyniadau gwael o fewn y farchnad lafur.

3.20. Bydd y ffordd yr aiff Cymru ati i ddatblygu gweithgarwch integredig fel yr amlinellir yn Adran 4 o bwys arbennig i fuddsoddiadau sy'n ceisio targedu'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi, anfantais ac allgáu a chysylltu'r grwpiau targed hyn â chyfle economaidd a thwf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a buddsoddiadau seiliedig ar le a wneir ar draws cronfeydd ESI. Disgwylir i bob gweithrediad ymgorffori cysylltiadau o'r fath a dulliau gweithredu integredig ar gam cynnar o'r broses ddatblygu.

3.21. Mae tlodi incwm perthynol yng Nghymru (a ddiffinnir fel cartrefi sy'n byw ar 60% neu lai o incwm canolrif y DU ar draws gwahanol grwpiau o'r boblogaeth) yn weddol debyg i gyfartaleddau'r DU, er bod 31% o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd (dau bwynt canran uwchlaw cyfartaledd y DU)[2].

3.22. Mae canran y boblogaeth sy'n byw mewn tlodi parhaus ar ôl costau tai (a ddiffinnir fel bod mewn tlodi incwm perthynol am o leiaf dair o'r pedair blynedd diwethaf) yn 11%, ychydig yn uwch nag [yn Lloegr a'r Alban.3].

3.23. Hefyd, mae gan Gymru ganran uwch o gartrefi heb waith a phlant sy'n byw mewn cartrefi heb waith na chyfartaleddau'r DU. Mae data Cyllid a Thollau EM ar blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel yn tanlinellu problem acíwt yng Nghymoedd De Cymru[4].

3.24. Yn ogystal â thlodi, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro lefelau amddifadedd yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na

---

[2] *Family Resource Survey* (2010/11), DWP. Data o 2008/9 i 2010/11
[3] Data hydredol o Arolwg Panel Cartrefi Prydain a'r Arolwg Deall Cymdeithas
[4] *Children in Low-Income Families Local Measure* (2011), CThEM

thlodi. Mae tlodi yn golygu peidio â chael digon o arian (neu hanfodion eraill) i fyw. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd cyffredinol (nid dim ond arian). Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (Malc) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd mewn ardaloedd bach yng Nghymru sef Ardaloedd Cynnydd Ehangach Lleol (ACELlau). Er bod maint daearyddol yr ACELlau hyn yn amrywio eithaf tipyn, ac yn dibynnu ar ddwysedd y boblogaeth leol, bwriedir i'r poblogaethau fod yr un peth yn fras, gyda phoblogaeth gyfartalog o 1,500.

3.25. Yn Malc 2011, diffinnir yr awdurdod lleol mwyaf amddifad fel yr awdurdod â'r gyfran fwyaf o'i ACELlau yn y 10% mwyaf amddifad o holl ACELlau Cymru. Gellir ystyried bod y fath ddull yn nodi'r crynodiad o'r ardaloedd mwyaf amddifad mewn Awdurdod Lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

3.26. Bydd buddsoddiadau integredig sy'n seiliedig ar ardaloedd economaidd swyddogaethol yn ystyried cysylltiadau rhwng ardaloedd rhaglen (e.e. yn achos Dinas-Ranbarthau); felly, nid yw'r crynodeb o'r wardiau mwyaf amddifad isod yn gwahaniaethu rhwng ardaloedd rhaglen. Dylai buddsoddiadau cydgysylltiedig ac integredig ystyried y darlun cyfan, nid dim ond o fewn ffiniau ystadegol.

3.27. Ardaloedd o'r cymoedd uchaf sydd â'r crynodiad cymharol uchaf o amddifadedd ledled Cymru gyfan. Amlygir hyn yn Ffigur 29 o'r Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol. Mae rhai wardiau canol dinas o Gaerdydd, Casnewydd ac Abertawe hefyd yn dioddef amddifadedd cymharol uchel. Mae'r darlun hwn yn wir am bump o'r wyth mesur amddifadedd MALlC, sef incwm; cyflogaeth; addysg; iechyd a diogelwch cymunedol.

3.28. Yr awdurdod lleol mwyaf amddifad yw Merthyr Tudful sydd â 25.0% o'i ACELlau yn y 10% mwyaf amddifad o Gymru, ac yna Blaenau Gwent (23.4%) a Rhondda Cynon Taf (17.8%). Mae gan Flaenau Gwent 87.2%, Merthyr Tudful 77.8% a Rhondda Cynon Taf 73.7% o'u ACELlau yn y 50% mwyaf amddifad o Gymru.

3.29. Yr awdurdodau lleol mwyaf amddifad yn y parth incwm yw Blaenau Gwent, sydd â 21.3% o'i ACELlau yn y 10% mwyaf amddifad o Gymru, Caerdydd â 21.2% a Merthyr Tudful â 19.4%.

3.30. Rhydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cyd-fynd â'r rhaglen hon, asesiad cadarn o anghenion y rhai a all wynebu risg o eithrio, anfantais neu wahaniaethu o ganlyniad i un neu fwy o'r nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'u hanghenion penodol o ran cefnogi mynediad i gyflogaeth a sgiliau. Mae'r 'nodweddion gwarchodedig' hyn yn cynnwys oedran (gan gwmpasu pob grŵp oedran), anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil ac ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw / rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

3.31. Mae'r AEG yn tynnu sylw at y ffaith y gall grwpiau â nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wynebu problemau penodol sy'n effeithio ar eu gallu i gael mynediad i'r farchnad lafur a datblygu ynddi, ac sy'n golygu eu

bod yn wynebu mwy o risg o dlodi ac allgáu. Mae'r AEG hefyd yn dangos bod diweithdra yn cael effaith anghymesur ar grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig,[5] gyda chysylltiad agos rhwng ethnigrwydd a thlodi incwm.

<u>Strategaeth i ymdrin ag anghenion penodol ardaloedd daearyddol yr effeithir arnynt fwyaf gan dlodi/grwpiau targed sy'n wynebu'r risg fwyaf o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol</u>

3.32. Ffocws Rhaglenni ERDF Cymru yw hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi cynaliadwy ar draws ardal y rhaglen. Bydd llawer o'r swyddi a gaiff eu creu yn berthnasol i newydd-ddyfodiaid a'r sawl sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur. Bydd yn rhan allweddol o'r dull integredig o ymdrin â gwaith datblygu tiriogaethol a nodir yn Adran 4 ar gyfer awdurdodau rhanbarthol a threfol er mwyn ystyried sut y gall integreiddio cronfeydd ESI ychwanegu gwerth yn eu meysydd, yn arbennig lle y gall gweithgareddau ESF sy'n targedu grwpiau penodol ategu buddsoddiadau ERDF mewn mannau. Bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn profi buddiolwyr er mwyn sicrhau bod yr holl gynigion ar gyfer gweithrediadau yn ystyried cyfleoedd i integreiddio gweithgarwch ar draws cronfeydd yn llawn.

3.33. Mae hyn yn gyson â Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar dri maes: Atal tlodi; Helpu pobl i gael gwaith; a Lliniaru effaith tlodi.

3.34. Ategir hyn gan bwyslais Rhaglen ESF ar ddarparu gofal plant fforddiadwy, o ansawdd da a chamau wedi'u targedu i helpu pobl i wella eu sgiliau a'u cymwysterau, gan gydnabod mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi. Bydd rhaglen ESF yn ceisio cynorthwyo grwpiau targed y mae tlodi a gwahaniaethu yn effeithio arnynt fwyaf.

3.35. Ni wneir gwaith targedu gan ddefnyddio data WIMD yn helaeth fel rhan o raglen ERDF, er y bydd disgwyl hynny o ran gweithgareddau sy'n ceisio helpu i fynd i'r afael â phroblemau tlodi tanwydd drwy wella effeithlonrwydd ynni tai. Byddai ystyried amddifadedd hefyd yn cael ei ddisgwyl mewn unrhyw strategaeth drefol neu ranbarthol a gefnogir o ran gwaith datblygu trefol cynaliadwy o dan Flaenoriaeth 4.

<u>Amcanion Trechu Tlodi Allweddol ar gyfer Rhaglenni Cymru:</u>

- Canolbwyntio ar greu swyddi a thwf sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd allan o waith. Er enghraifft drwy wella cystadleurwydd BBaChau

- Ymdrin â rhwystrau cyflogaeth. Er enghraifft, ymdrin â sgiliau gwael a diffyg gofal plant drwy'r ESF, a ategir gan ymdrin â rhwystrau trafnidiaeth i gael cyflogaeth drwy'r ERDF

[5] Gweler y Sefydliad Cysylltiadau Hiliol: http://www.irr.org.uk/research/statistics/poverty/.

- Canolbwyntio ar dwf. Er enghraifft, drwy gefnogi sectorau seiliedig ar wybodaeth allweddol drwy'r ERDF, sy'n gyson ag ymyriadau datblygu sgiliau gan alluogi'r rhai sy'n profi tlodi mewn gwaith i gael gafael ar swyddi mwy medrus, sy'n talu'n well drwy'r ESF.

3.36. Mae Cytundeb Partneriaeth y DU yn cynnwys manylion y dull o drechu tlodi ar draws cronfeydd ESI yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad clir bod angen cymryd camau integredig er mwyn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a threchu tlodi, gan gyfrannu hefyd at fenter 2020 a Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru.

3.37. Bydd y cymorth a roddir o dan Echel Blaenoriaeth seilwaith yn targedu gwaith adfywio, creu swyddi a gwella cysylltedd mewn ardaloedd daearyddol penodol lle mae diffygion yn cael eu nodi'n aml fel rhwystr i gyflogaeth. Lle bo modd, anogir prosiectau i gysylltu ardaloedd cyfleoedd twf ag ardaloedd â chyfraddau uchel o dlodi ac amddifadedd.

3.38. Bydd camau i ymdrin ag effeithlonrwydd ynni tai yn targedu'r rheini sy'n dioddef tlodi tanwydd yn benodol a disgwylir defnyddio data WIMD wrth ddylunio dulliau targedu priodol.

## Camau i ymdrin ag anghenion penodol ardaloedd daearyddol y mae tlodi yn effeithio arnynt fwyaf/grwpiau targed sy'n wynebu risg o wahaniaethu neu allgáu cymdeithasol

| Grŵp targed/ ardal ddaearyddol | Prif fathau o gamau wedi'u cynllunio sy'n rhan o'r dull gweithredu integredig | Echel Blaenoriaeth | Cronfa | Categori rhanbarth | Blaenoriaeth Fuddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardal ddaearyddol i'w phennu drwy ymgynghoriad | Gwelliannau i seilwaith ffisegol er mwyn hyrwyddo twf economaidd a swyddi lleol. | 4 | ERDF | Llai datblygedig | 8(b) |
| Cymunedau sy'n dioddef tlodi tanwydd | Mesurau effeithlonrwydd ynni a wnaiff dorri costau tanwydd y rhai ar incwm isel | 3 | ERDF | Llai datblygedig | 4(c) |

# 4. Echel Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

4.1 Rhoddir dadansoddiad a chrynodeb lefel uchel o anghenion a chyfleoedd allweddol sy'n arwain at ddethol yr Echel Blaenoriaeth hon yn Adrannau 1.1 ac 1.3 o'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU.

4.2 Mae *Gwyddoniaeth i Gymru*[6] ac *Arloesi Cymru*[7] (sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Strategaeth **Arbenigo Craff** Cymru) yn darparu ffocws polisi clir ar gyfer y flaenoriaeth hon. Pwysleisiant yr angen i hyrwyddo arloesedd ledled Cymru ac ym mhob sector o'r economi, meithrin gallu ac adnoddau a hyrwyddo rhagoriaeth ym meysydd ymchwil ac arloesedd, a cheisio cyfleoedd rhyngwladol a digidol newydd. Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu meysydd arbenigedd a all ddarparu ffocws ar gyfer buddsoddiadau a datblygu rhagoriaeth a chlystyrau. Trefnir y rhain yn fras o dan y penawdau meysydd 'Her Fawr', sy'n gyson â blaenoriaethau polisi'r DU a'r UE:

- **Gwyddorau Bywyd ac Iechyd** (er enghraifft cofnodion data Cleifion, Gwella clwyfau, e-iechyd neu ymchwil bôn-gelloedd)**;**
- **Uwch Beirianneg a Deunyddiau** (e.e. Ffotoneg neu Gynnal a Chadw Atgyweirio a Thrawsnewid yn y sector awyrofod)**;**
- **Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd** (e.e. Byw yn glyfar, arloesedd amgylcheddol, neu ynni carbon isel).
- Mae pwysigrwydd **TGCh a'r Economi Ddigidol** hefyd yn cael ei gydnabod fel maes galluogi allweddol (e.e. ymddiriedaeth a diogelwch a thrwy ddatblygu seilwaith galluogi o'r radd flaenaf).

4.3 Mae’r meysydd hyn hefyd yn cynnwys nodi nifer o feysydd o arbenigedd presennol ac sy’n dod i’r amlwg mewn Technolegau Galluogi Allweddol fel nanodechnoleg, lled-ddargludyddion, uwch ddeunyddiau a ffotoneg. Rhoddir rhagor o enghreifftiau o arbenigo craff yn y bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU. Er mwyn cefnogi rhagoriaeth ymchwil yn y meysydd hyn mae timau 'Sêr Cymru' a Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol newydd yn anelu at wella perfformiad ymchwil Cymru drwy dargedu buddsoddiad, cefnogi seilwaith a denu doniau ymchwil o'r radd flaenaf. Mae *Arloesi Cymru* hefyd yn anelu at ganolbwyntio cryn fuddsoddiad mewn meysydd Arbenigo Craff.

4.4 Mae'r Heriau Mawr yn cydnabod pwysigrwydd **ateb heriau cymdeithasol er mwyn cyflawni twf economaidd cytbwys, cynaliadwy a chynhwysol**. Hefyd, ceisir cyflawni cydlyniant tiriogaethol drwy gefnogi meysydd arbenigedd presennol a datblygol, fel clystyrau. Dangosir y cyfraniad y gall buddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd ei wneud i ddatblygu cynaliadwy gwirioneddol yn y cyfleoedd ar gyfer **twf gwyrdd** a'r newid i economi Carbon

[6] *Gwyddoniaeth i Gymru*: http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/csaw/publications/130319sfw/?lang=cy
[7] *Arloesi Cymru*: http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/innovation/innovation-strategy-wales/?lang=cy

isel. Nodwyd bod twf gwyrdd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i sicrhau twf a swyddi yn y dyfodol.

4.5 Mae **buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd** (GCa'rC) yn llawer is na'r DU gyfan (0.96% o GYC yn 2011 o gymharu ag 1.79%)[8], a hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi o gymharu â'r rhanbarthau sy'n perfformio orau yn yr UE. Mae'r lefelau is a geir ledled Cymru o gymharu â'r rhanbarthau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o sefydliadau o'r radd flaenaf a chlystyrau arbenigedd a llai o fusnesau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu, ond ceir hefyd y potensial i gyflawni mwy o ymchwil a datblygu ac arloesedd yng Nghymru gan y busnesau rhyngwladol hynny sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu ac sydd â phresenoldeb yng Nghymru.

4.6 Mae dangos arbenigedd ym maes ymchwil a chael gafael ar **arian ymchwil cystadleuol** yn denu busnesau, sydd yn ei dro yn gallu cefnogi'r gwaith o greu clystyrau arbenigol. Mae *Gwyddoniaeth i Gymru* yn amlygu'r angen i gynyddu ein cyfran o gyllid gan Gyngor Ymchwil y DU o 3.3 y cant yn 2009/10 i 5 y cant (gan adlewyrchu cyfran poblogaeth Cymru yn y DU). Yn 2011, dim ond ychydig dros 2% o gyllid Rhaglen Fframwaith 7 i'r DU a ddenodd Cymru[9], er y dylid nodi i gyfran sylweddol o hyn gael ei sicrhau gan sefydliadau yn Nwyrain Cymru, fel Prifysgol Caerdydd; cryfder y gellid manteisio arno'n fwy. Mae *Arloesi Cymru* hefyd yn cydnabod bod angen i Gymru chwarae mwy o ran yn system arloesi ehangach y DU ac Ewrop; nodir Cymru fel Dilynwr Arloesedd[10] sy'n gryfder yng nghyd-destun yr UE, ond yn her mewn perthynas â'r perfformwyr gorau yn y DU ac Ewrop.

4.7 Mae **rhwystrau i gael gafael ar arian cystadleuol** yn ymwneud â gallu ac adnoddau sefydliadau presennol yng Nghymru o ran cyfleusterau, cyfarpar, rhagoriaeth ymchwil ac ymchwilwyr a diffyg llwyddiant blaenorol. Ymhlith y rhwystrau eraill mae: diffyg cyllid ac arbenigedd technegol i baratoi cynigion, chwilio'r gorwel; a phartneriaid / rhwydweithiau rhyngwladol.

4.8 Wrth i arian cystadleuol gael ei sicrhau ac wrth i bartneriaethau ddatblygu dylai **creu clystyrau** fod yn nod allweddol, gan adeiladu ar gryfderau presennol, sy'n dwyn ynghyd sefydliadau ymchwil â busnesau bach a mawr[11]. Gall arddangos rhagoriaeth ymchwil ddenu buddsoddiadau gan fusnesau, sef y cyfrwng i drawsnewid yr ardal hon. Nid yw'r broses hon yn un gyflym, ond mae'n amlwg bod cynnydd yn cael ei wneud yng Nghymru gyda mwy o gydweithredu diwydiannol a mwy o fuddsoddiad preifat mewn ymchwil a datblygu ac arloesedd yng Nghymru.

[8] Gross domestic expenditure on research and development (GERD) SYG
[9] Cyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr Undeb Ewropeaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (Chwefror 2011)
[10] *Innovation Union Scoreboard 2013*, Hugo Hollanders a Nordine Es-Sadki, (UNU-MERIT),ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd
[11] Mae hyn yn elfen allweddol o arbenigo craff. Er enghraifft: *Policy Instruments for RIS3 Clusters, J*aime del Castillo, Belen Barroeta a Jonatan Paton, 2012. Ar gael yn: http://s3platform.jrc.ec.europa.eu/links

4.9 Mae **buddsoddiad y sector preifat mewn ymchwil** yng Nghymru yn amrywio yn amodol ar raglenni buddsoddi nifer fach o fusnesau. Ar y cyfan, mae buddsoddiad y sector preifat mewn ymchwil yng Nghymru wedi bod yn cynyddu (mewn gwerth arian parod ac fel canran o GYC Cymru). Nid oes gan Gymru lawer o gwmnïau sy'n canolbwyntio ar ymchwil sydd â chanolfannau ymchwil yng Nghymru ac yn aml mae gan glystyrau llwyddiannus ledled yr UE gwmnïau mawr sy'n canolbwyntio ar ymchwil, sy'n helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi amrywiol[12]. Ceir arwyddion bod hyn yn newid wrth i glystyrau mewn sectorau allweddol gael eu datblygu a chânt eu hatgyfnerthu drwy'r Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol.

4.10 Cafodd nifer fach o fuddsoddiadau sylweddol mewn **seilwaith ymchwil a datblygu** eu gwneud o dan raglen ERDF 2007-2013[13], gan gynyddu argaeledd cyfleusterau sy'n addas ar gyfer ymchwil hynod arbenigol yn ogystal â deori busnesau fesul 10,000 metr sgwâr. Bydd y Flaenoriaeth hon ond yn ceisio cynyddu'r seilwaith ymchwil arbenigol lle y gall ddangos yn glir y gwnaiff gynyddu gallu ac adnoddau i ymgymryd ag ymchwil o'r radd flaenaf, annog mewnfuddsoddi a datblygu gallu presennol a gallu sy'n dod i'r amlwg[14]. Cefnogir buddsoddiadau mewn seilwaith ymchwil a datblygu gan yr ERDF ar yr amod eu bod yn unol â'r strategaeth arbenigo craff a bod canlyniadau'r ymchwil yn helpu datblygiad economaidd y rhanbarth.

4.11 Dywed busnesau Cymreig eu bod yn gwneud cyfraniad cymharol uchel at **weithgareddau arloesol** o gymharu â rhannau eraill o'r DU[15], ond cydnabyddir bod angen meithrin gwell dealltwriaeth o'n cryfderau ym maes arloesedd er mwyn cyflawni Arbenigo Craff[16] gwirioneddol.

4.12 Yn ôl Arolwg Arloesedd y DU[17] dim ond 15% o **fusnesau sy'n ymwneud ag arloesedd sy'n cydweithredu â phrifysgolion** yn y DU er bod data HEBCIS[18] yn dynodi system trosglwyddo gwybodaeth effeithiol sydd wedi'i datblygu'n dda rhwng AU a busnesau. Awgryma hyn fod lle i wella cydweithredu ymhellach, yn enwedig gyda'r nod o fasnacheiddio. Mae hyn yn hynod wir o ystyried bod *Arloesi Cymru* yn cydnabod bod pocedi o arbenigedd o'r radd flaenaf yn bodoli mewn academia mewn meysydd â photensial masnachol, er nad ydynt yn fyd-eang a bod cyfle i adeiladu ar arfer gorau presennol wrth fasnacheiddio ymchwil a datblygu.

---

[12] Amlygir nifer o astudiaethau achos yn *An analysis of the effects of Structural Funds support for Research, Technological Development and Innovation 2000-2010* (2011)

[13] Er enghraifft Sefydliad Gwyddorau Bywyd 2, y Ganolfan Nano-iechyd, Canolfan y Celfyddydau ac Arloesedd

[14] Er enghraifft y rhai a nodwyd yn *Gwyddoniaeth i Gymru* ac *Arloesi Cymru* (gyda'i gilydd Strategaeth Arbenigo Craff Cymru) fel meysydd â chryfderau presennol a chryfderau sy'n dod i'r amlwg (e.e. ymchwil bôn-gelloedd yn ardal Caerdydd neu ymchwil amaethyddol yn Aberystwyth).

[11] *UK Innovation Survey 2011* (2012), Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau'r DU (BIS)

[12] *Arloesi Cymru* (2013, Llywodraeth Cymru)

[13] *UK Innovation Survey 2011 (2012)*, BIS

[14] *Higher education-business and community interaction survey 2011-12* (2013), HEFCE

4.13 Erys rhwystrau sylweddol i **fasnacheiddio ym maes ymchwil a datblygu.** Mae Gwyddoniaeth i Gymru yn cydnabod y wyddoniaeth o'r radd flaenaf a gyflawnir yng Nghymru, yn enwedig ym meysydd yr Her Fawr, ond nododd hefyd

> "*fod BBaChau (busnesau bach a chanolig) ac unigolion yn aml yn cael cryn drafferth wrth geisio dangos i gyllidwyr posibl y prawf o gysyniad ar gyfer syniad, techneg neu [gynnyrch] y maent am ei ddatblygu [ac] Yn aml mae angen dangos profiad a chymhwysedd drwy astudiaeth prawf o gysyniad ar gyfer...[g]alwadau cystadleuol.* "

4.14 Mae rheoliadau ERDF yn galw am ganolbwyntio ar y **newid i economi Carbon isel** ac, fel un o dri maes Her Fawr a nodir yn strategaeth Arbenigo Craff Cymru, mae'n cynnig cyfle penodol yng Nghymru, yn enwedig o ystyried yr arbenigedd datblygol mewn meysydd arbenigol allweddol. Amcangyfrifwyd bod y sector Nwyddau a Gwasanaethau Carbon Isel ac Amgylcheddol yng Nghymru gwerth dros £5.5bn mewn gwerthiannau yn 2010/11, gan gyflogi ymhell dros 40,000 o bobl. Disgwylir i'r sector barhau i dyfu[19] a cheir peth arbenigedd yn barod mewn amrywiaeth o feysydd cysylltiedig a amlygir o dan Arbenigo Craff Cymru[20]. Mae Cymru yn cael budd o gryn arbenigedd academaidd wrth ddatblygu ac integreiddio technolegau Carbon isel, er enghraifft yn y Ganolfan Amlen Adeiladu Gynaliadwy yn Sir y Fflint (Dwyrain Cymru).

4.15 Mae **technolegau ynni adnewyddadwy** (e.e. gwynt ar y tir ac ar y môr, ffotofoltäig, biomas ac ati) eisoes yn fwy aeddfed ac yn sectorau twf allweddol (er enghraifft ceir bellach nifer o araeau gwynt ar y môr ar hyd arfordir Cymru). Er mwyn gwireddu buddiannau'r rhain a buddsoddiadau mawr eraill yn ardal y rhaglen mae angen ystyried p'un a ellir gwneud buddsoddiad er mwyn helpu i achub ar gyfleoedd gweithgynhyrchu, gweithredu a chynnal a chadw newydd ym maes y rhaglen, er enghraifft drwy ymchwil ac arloesedd i leihau costau defnydd a chynnal a chadw a dangos technolegau mwy newydd ac arloesol.

4.16 Disgwylir i'r flaenoriaeth hon weithio'n agos gyda chyflawni *Gwyddoniaeth i Gymru* ac *Arloesi Cymru*, sy'n ceisio mynd i'r afael â **nifer o heriau ychwanegol yn economi Cymru**. Er enghraifft, ateb yr heriau sy'n gysylltiedig ag adnoddau ym maes ymchwil sylfaenol a denu timau ymchwil o'r radd flaenaf, ac mae rhaglen *Sêr Cymru* (rhan allweddol o *Gwyddoniaeth i Gymru*) yn datblygu'r rhagoriaeth ymchwil o'r radd flaenaf honno drwy ddod â thimau ymchwil o'r radd flaenaf i Gymru. Ymdrinnir ag arloesedd yn y sector cyhoeddus, ac yn arbennig arloesedd wrth ddefnyddio cyllidebau sector cyhoeddus sylweddol, drwy gyflawni *Arloesi Cymru* sydd â phwyslais penodol ar arloesedd drwy gaffael yn y sector cyhoeddus. Cynllunnir mentrau hefyd i ddefnyddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel man i brofi arloesedd, yn

[15] *Low carbon and environmental goods and services (LCEGS) report* (2011 to 2012), Adran Busnes Arloesedd a Sgiliau'r DU, 18 Gorffennaf 2013
[20] Er enghraifft byw craff, effeithlonrwydd ynni, adeiladau cynaliadwy, rheoli cnydau ac ati

enwedig arloesedd cymdeithasol. Gwneir mwy o ymdrechion hefyd i ddenu ffynonellau cyllid ychwanegol i Gymru er mwyn cefnogi nodau ymchwil ac arloesedd (e.e. Horizon 2020, Cynghorau Ymchwil y DU, Bwrdd Technoleg a Strategaeth), gan gynnwys drwy annog a helpu rhanddeiliaid yng Nghymru i gael gafael ar y ffynonellau cyllid hynny.

## Crynodeb o'r cyfiawnhad dros Amcanion Penodol

| Anghenion | Cyfleoedd Twf | Amcan Penodol (AP) |
|---|---|---|
| • Hyrwyddo arloesedd ym mhob sector<br>• Cynyddu capasiti (gan gynnwys cyfleusterau a seilwaith) a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes ymchwil ac arloesedd<br>• Ceisio cyfleoedd rhyngwladol a digidol newydd<br>• Mwy o fuddsoddiad gan fusnesau preifat mewn Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd<br>• Sicrhau mwy o arian cystadleuol<br>• Aros yn gystadleuol mewn marchnadoedd sy'n tyfu, yn enwedig mewn perthynas â newid i economi Carbon Isel | • Arbenigo yn un o'r meysydd Her Fawr, gan gynnwys ardaloedd carbon isel<br>• Rhywfaint o arbenigedd presennol ac sy’n dod i’r amlwg mewn Technolegau Galluogi Allweddol<br>• Rhai canolfannau rhagoriaeth a gwella capasiti<br>• Clystyrau arbenigedd presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg<br>• Twf gwyrdd fel cyfle sylweddol i sicrhau twf a swyddi yn y dyfodol<br>• Manteisio ar gryfderau gallu presennol (e.e. Prifysgol Caerdydd) a system arloesi'r DU yn ei chyfanrwydd yn well<br>• Cynyddu cydweithredu diwydiannol a buddsoddi preifat mewn Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd yng Nghymru | (1.1) Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat |
| • Datblygu diwylliant arloesi ac ehangu'r cwmpas er mwyn cynnwys amrywiaeth o sectorau arbenigo craff, nid dim ond rhai technolegol neu wyddonol<br>• Mwy o gynhyrchion llwyddiannus yn cael eu lansio yng Nghymru<br>• Mwy o fuddiannau i | • Hanes o arloesi a lefelau arloesi cymharol uchel gan BBaChau yng Nghymru<br>• Arloesedd fel ffactor sy'n sbarduno gwelliannau mewn cynhyrchiant<br>• Yn system trosglwyddo gwybodaeth effeithiol sydd wedi'i datblygu'n dda rhwng AU a busnesau<br>• Mae arbenigedd a chlystyrau yn rhoi cyfle i | (1.2) Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol, yn arbennig drwy well proses |

| | | |
|---|---|---|
| fusnesau yng Nghymru<br>• Cymorth i sicrhau bod syniadau / cynhyrchion yn barod am fuddsoddiad (prawf cysyniad)<br>• Angen i fwy o fusnesau sy'n ymwneud ag arloesedd gydweithredu â phrifysgolion<br>• Parhau'n gystadleuol mewn marchnad carbon isel sy'n tyfu | wireddu buddiannau yn ardal y rhaglen, gan gynnwys yn y sectorau ynni a'r amgylchedd a charbon isel<br>• Gallai adnoddau Uwch Weithgynhyrchu a deunyddiau helpu i gynnal prosesau masnachol<br>• Asedau fel Sefydliad Ymchwil Carbon Isel ac eraill<br>• Twf gwyrdd yn gyfle sylweddol i sicrhau twf a swyddi yn y dyfodol ac arbenigeddau yn dod i'r amlwg yn y sectorau Carbon Isel Ynni a'r Amgylchedd | trosglwyddo technoleg o SAUau. |

## Cwmpas

4.17 Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu ymchwil, technoleg ac arloesedd. Er y caiff yr holl weithgarwch ei ariannu o dan Amcan Thematig 1, bydd yr Echel Blaenoriaeth yn gwneud cyfraniad penodol i amcanion newid yn yr hinsawdd, gan gefnogi'r newid i economi carbon isel. Adlewyrchir hyn yn y Categorïau Ymyrryd ac ystyrir nodi allbynnau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch newid i garbon isel.

**Amcan Penodol 1.1:** Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat**.**

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

4.18 Cynigir monitro dwy agwedd ar y canlyniadau a ddymunir er mwyn adlewyrchu'r newid strwythurol hirdymor a geisir a'r effaith tymor byrrach i ganolig.

4.19 Fel y nodir yn y strategaeth a'r Cytundeb Partneriaeth y prif fater strwythurol yw diffyg Gwariant Busnes cymharol ar ymchwil a datblygu (BERD). Felly, fe'i nodir yn ddangosydd cyd-destunol er mwyn parhau i ganolbwyntio ar y nod hirdymor a darparu cyd-destun ar gyfer buddsoddiadau. Dylai hyn sicrhau bod pob prosiect yn gallu dangos ei fod yn ystyried sut y gall gweithgarwch ysgogi buddsoddiad preifat mewn ymchwil a datblygu o fewn ardal y rhaglen.

4.20 Yn 2012, roedd BERD yng Nghymru yn cyfateb i £272 miliwn, gan gynrychioli 1.6% o gyfanswm y DU. Mae ffigurau BERD yn amrywio yng Nghymru yn dibynnu ar raglenni buddsoddi nifer fach o fusnesau, ond mae tueddiadau tymor hwy yn gadarnhaol gyda chynnydd mewn termau arian parod a chyfrannol. Yn 2011, roedd BERD yn cynrychioli bron 46% o'r holl wariant ar ymchwil yng Nghymru, er nad yw'n bodloni targed Lisbon i gyflawni dwy ran o dair o waith ymchwil yn y sector preifat.

4.21 Er mwyn gallu pennu targed ar gyfer effaith tymor byrrach mae'r dangosydd dan sylw yn ceisio mesur yr arian ymchwil a ddaw i mewn i Gymru (er ei fod yn gyfyngedig i sefydliadau AU, o ystyried y data cyfyngedig sydd ar gael). Ffactor allweddol ar gyfer lleoliad busnesau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu arbenigo craff yw adnoddau ymchwil mewndarddol yn ardal y rhaglen. Dylai hyn helpu i ddangos gallu ac adnoddau sy'n gwella mewn meysydd blaenoriaeth ymchwil allweddol, ond ni ddylai gyfyngu cymorth i SAUau nac atal cymorth i feithrin gallu BBaChau i gael gafael ar arian ymchwil cystadleuol.

4.22 Dengys data fod incwm ymchwil yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn canolbwyntio ar Abertawe, Aberystwyth a Bangor; gyda'i gilydd maent yn cyfrif am 98% o incwm ymchwil yn ardal y rhaglen. Mae'r ffigur hwn hyd yn oed yn uwch ar gyfer yr arian mwy cystadleuol (e.e. cronfeydd UE, Llywodraeth Ganolog neu Gyngor Ymchwil). Mae'r ardal rhaglen gyfan yn cyfrif am 43% o gyfanswm yr incwm ar draws Cymru (ac mae Cymru yn cyfrif am 3.8% o gyfanswm incwm ymchwil y DU).

## Dangosyddion Canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm Ymchwil i SAUau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (data o HESA) | £ | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £82.4 miliwn | 2011/12 | Cynnydd o 10-15% | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

4.23 Mae cwmpas y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn darparu ar gyfer ateb heriau penodol busnesau arloesol a dwys eu hymchwil ynghyd â buddsoddiadau seilwaith ymchwil penodol y tu allan i flaenoriaethau Cystadleurwydd a Seilwaith BBaCh.

4.24 Bydd y rhaglen ERDF yn ceisio meithrin adnoddau ac ymdrin â rhwystrau eraill i sefydliadau ymchwil yng Nghymru (nid dim ond Sefydliadau Addysg Uwch) mewn perthynas â chael gafael ar arian ymchwil cystadleuol. Canlyniad allweddol fydd bod sefydliadau a gefnogir yn gallu cyflawni ymchwil gydweithredol a gydnabyddir yn rhyngwladol a bod yn cyflwyno cydgynigion am arian ymchwil cystadleuol gan y DU[21] a'r UE, fel Horizon 2020. Bydd hyn yn helpu i gefnogi datblygiad parhaus sylfaen ymchwil Cymru, a fydd yn ei dro yn helpu i annog mewnfuddsoddi, gwariant busnes ar ymchwil, a datblygu clystyrau arloesol sy'n canolbwyntio ar ymchwil. Dylid dangos cyfraniad at y nod hirdymor o gynyddu Gwariant Busnes ar Ymchwil a Datblygu ar gyfer pob buddsoddiad.

4.25 Mae gan seilwaith ymchwil y potensial i gataleiddio'r broses o greu gwybodaeth a hwyluso rhwydweithio ymchwilwyr ac ysgogi llifau gwybodaeth yn gyffredinol. Gall fod yn gatalydd i fewnfuddsoddi, cydleoli diwydiant sy'n canolbwyntio ar ymchwil, datblygu cadwyni cyflenwi a chyfnewid a throsglwyddo arloesedd a gwybodaeth[22]. Ceir clystyrau sy'n dod i'r amlwg a

[21] Yn cynnwys TSB a Chynghorau Ymchwil y mae fframweithiau cyllidebol ar gael ar eu cyfer. Er enghraifft mae cynllun cyflawni 2013/14 TSB bellach ar gael yn https://www.innovateuk.org/documents/1524978/2138994/Delivery+Plan+-+Financial+year+2013-14/c435471d-222c-4e63-8269-d0f4b2b61c2f

[22] Er enghraifft, cyfres o astudiaethau achos o ranbarthau enghreifftiol lle ceir arbenigedd craff, y mae pob un yn cynnwys datblygu clystyrau ar sail seilwaith ymchwil allweddol: *An analysis of the effects of Structural Funds support for Research, Technological Development and Innovation 2000-2010* (2011) ar gael yn: http://ec.europa.eu/invest-in-

seilwaith sy'n bodoli eisoes yng Nghymru (gan gynnwys buddsoddiadau mawr mewn ardaloedd Her Fawr) sy'n darparu sail i adeiladu arni.

4.26 Cafodd nifer fach o fuddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith ymchwil a datblygu eu gwneud o dan raglen ERDF 2007-2013[23], gan gynyddu argaeledd cyfleusterau sy'n addas ar gyfer ymchwil hynod arbenigol. Bydd y Flaenoriaeth hon yn ceisio cynyddu'r seilwaith ymchwil arbenigol lle y gall ddangos yn glir y gwnaiff gynyddu gallu ac adnoddau i gyflawni ymchwil o'r radd flaenaf, annog mewnfuddsoddi a datblygu gallu presennol a gallu sy'n dod i'r amlwg. Cefnogir buddsoddiadau mewn seilwaith Ymchwil a Datblygu gan yr ERDF ar yr amod eu bod yn unol â'r strategaeth arbenigo craff a bod canlyniadau'r ymchwil yn helpu datblygiad economaidd y rhanbarth.

4.27 Er mwyn cefnogi'r newid i economi carbon isel drwy Ymchwil ac Arloesedd, cyflwynwyd amrywiaeth o gronfeydd cystadleuol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu technolegau ac arloesedd ym maes ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Mae sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn wynebu'r un rhwystrau i gael gafael ar y ffynonellau hyn o arian cystadleuol ag ar gyfer arian Ymchwil ac Arloesedd arall felly bydd angen iddynt gael cymorth er mwyn ymdrin â'r rhwystrau hyn.

4.28 Mathau o gamau gweithredu i'w cefnogi er mwyn ymdrin â rhwystrau allweddol:

- Meithrin gallu ac adnoddau ymchwil. Er enghraifft drwy:
    - ganolfannau rhagoriaeth
    - cefnogi datblygiad clystyrau, drwy ddatblygu seilwaith a chadwyni cyflenwi
    - ymchwil gymhwysol, datblygu prototeipiau
    - cydweithredu a rhwydweithiau, yn enwedig cysylltiadau diwydiannol a rhyngwladol
    - buddsoddi mewn technoleg a throsglwyddo technoleg
    - meithrin partneriaethau
    - cynyddu rhyngweithio a dylanwad gyda chyrff allanol

- Meithrin adnoddau er mwyn ymdrin â rhwystrau i gael gafael ar arian ymchwil cystadleuol. Er enghraifft, datblygu cynigion mwy cystadleuol, meithrin rhwydweithiau, dod o hyd i bartneriaid rhyngwladol, ffyrdd newydd o weithio.

- Dylai pob buddsoddiad ganolbwyntio ar feysydd â photensial i ddatblygu neu atgyfnerthu rhagoriaeth o'r radd flaenaf (e.e. drwy Arbenigo Craff ac a nodwyd yn *Gwyddoniaeth i Gymru*) a dylai nodi cysylltiadau â Sêr Cymru a Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol.

---

research/pdf/download_en/rkf5th_brochure.pdf. Tystiolaeth arall o effeithiau clystyru seilwaith ymchwil ar gael o *My Precious! The Location and Diffusion of Scientific Research: Evidence from the Synchrotron Diamond Light Source* (2013), Canolfan Ymchwil Economeg Gofodol

[23] Sefydliad Gwyddorau Bywyd 2, y Ganolfan Nano-iechyd, Canolfan y Celfyddydau ac Arloesedd

## Egwyddorion arweiniol

4.29 Bydd y camau gweithredu a gefnogir o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn cefnogi thema allweddol *Arloesi Cymru*[24] sef blaenoriaethu a chreu mas critigol a chefnogi datblygiad parhaus sylfaen ymchwil Cymru, a fydd yn ei dro yn helpu i annog mewnfuddsoddi (o ran buddsoddiadau cyffredinol y sector preifat a Gwariant Busnes ychwanegol sylweddol ar Ymchwil a Datblygu) a datblygu clystyrau arloesol sy'n canolbwyntio ar ymchwil.

4.30 *Gwyddoniaeth i Gymru*[25] fydd y polisi arweiniol allweddol ar gyfer yr amcan hwn a bydd angen i fuddsoddiadau ddangos eu bod yn gyson gyda'r ffocws sy'n dod i'r amlwg ar ragoriaeth yn cael ei gefnogi ac yn ategu gweithgarwch sy'n digwydd yn y meysydd Her Fawr canlynol: Gwyddorau Bywyd ac Iechyd; Carbon isel, Ynni a'r Amgylchedd; Uwch Beirianneg a Deunyddiau; oll wedi'u hategu gan TGCh a'r Economi Ddigidol. Mae'r rhain yn gyson yn fras ag ymdrechion eraill i flaenoriaethu heriau cymdeithasol, fel y rhai a nodwyd fel blaenoriaethau ariannu ar gyfer Horizon 2020[26].

4.31 Disgwylir targedu ymhob maes her fawr gyda disgwyl i fuddsoddiadau yn y sector Carbon Isel Ynni a'r Amgylchedd yn arbennig gyfrannu at dargedau Newid yn yr Hinsawdd (gyda dyraniadau ariannol dangosol wedi'u nodi yn y tabl Categorïau Ymyrryd).

4.32 Profir prosiectau am eu cyfraniad i'r strategaeth Arbenigo Craff (sydd hefyd yn ymgorffori *Arloesi Cymru*) ac yn amodol ar asesiad technegol gan arbenigwyr mewn priod feysydd ymchwil. Disgwylir i brosiectau allu dangos llwybr clir i ragoriaeth lle y disgwylir iddynt fod yn gwneud cais am arian cystadleuol. Fel rhan o hyn, disgwylir i brosiectau gydweithredu â phartneriaid rhyngwladol, a thrwy hynny ymdrin ag un o'r rhwystrau allweddol sy'n atal sefydliadau rhag cael gafael ar arian ymchwil rhyngwladol. Mae cysondeb â'r strategaeth Arbenigo Craff yn hanfodol ar gyfer pob buddsoddiad ar draws yr Echel Blaenoriaeth hon.

4.33 Wrth ddangos cysondeb â strategaeth Arbenigo Craff Cymru, bydd angen i weithrediadau ddangos sut maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at y dangosyddion a'r amcanion a nodwyd yn y Cynlluniau Cyflenwi cysylltiedig diweddaraf[27], gan gynnwys unrhyw fesurau ychwanegol neu arloesol a gyflwynwyd yn ystod y broses barhaus o werthuso'r strategaeth Arbenigo Craff. Caiff y Strategaethau hyn eu cyflawni mewn cydweithrediad agos ac

---

[24] Ar gael yn: *http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/policy/innovationwales/?lang=en*

[25] Ar gael yn: *http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/130319sfw/?lang=en*

[26] Heriau Cymdeithasol Mawr wedi'u nodi fel a ganlyn: Iechyd, newid demograffig a lles; Sicrwydd bwyd, amaethyddiaeth gynaliadwy, ymchwil forol a'r bio-economi; Ynni sicr, glân ac effeithlon; Trafnidiaeth graff, gwyrdd ac integredig; Cymdeithasau cynhwysol, arloesol a sicr; Gweithredu ar yr hinsawdd, effeithlonrwydd adnoddau a deunyddiau crai

[27] Mae Cynllun Cyflenwi Gwyddoniaeth i Gymru ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/det/publications/130604sciencedeliverycy.pdf ac mae Cynllun Cyflenwi Arloesi Cymru ar gael yn http://wales.gov.uk/docs/det/publications/140313innovationstrategycy.pdf

mae mesurau eisoes ar waith i sicrhau cydweithredu a chydgysylltu wrth gyflawni (e.e. defnyddio Cynghorau Cynghori arbenigol sydd â thrawsaelodaeth rhyngddynt er mwyn datblygu blaenoriaethau, monitro cynlluniau cyflawni a dangosyddion, a chydgysylltu gweithgareddau lle ceir gorgyffwrdd).

4.34 Mae ymgysylltu diwydiannol yn hanfodol er mwyn datblygu clystyrau sy'n llwyddiannus yn rhyngwladol ac mae'n elfen hanfodol wrth gynyddu lefelau gwariant busnes ar ymchwil a datblygu. Mae ymgysylltu diwydiannol hefyd yn gynyddol bwysig er mwyn denu arian ymchwil cystadleuol. Dylai prosiectau ddangos ymgysylltu diwydiannol lle bo modd, a chaiff cynigion sy'n cynnwys partneriaid diwydiannol a buddsoddiad preifat eu hannog yn arbennig; yn enwedig lle gallant gynnwys BBaChau o Gymru neu ddenu BBaChau i Gymru. Dylai pob prosiect allu dangos sut y bydd yn cefnogi cynnydd tymor canolig i hirdymor mewn lefelau Gwariant Busnes ar Ymchwil a Datblygu.

4.35 Mae Ymchwil ac Arloesedd yn ddwy elfen o'r "triongl gwybodaeth", gydag addysg fel trydedd elfen. Bydd angen i'r tair elfen gydweithio er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. Gellid cymhwyso ymchwil yn fasnachol yn achos BBaChau er enghraifft, a gall fod angen ategu'r buddsoddiad â datblygu sgiliau'r ymchwilwyr a'r unigolion mewn BBaChau. Anogir prosiectau sy'n ystyried ac yn cyfuno'r tair elfen. Bydd yn ofynnol i brosiectau gydgysylltu â'i gilydd ar draws y Flaenoriaeth hon a gweddill rhaglenni ERDF ac ESF (yn arbennig elfennau sgiliau ESF). Dylid ystyried y posibilrwydd o gyd-fuddsoddi. Hefyd ceisir cysylltu â rhaglenni buddsoddi ehangach lle bo modd a lle bo'n briodol (gweler Adran 8).

4.36 Bydd y rhaglen yn cefnogi blaenoriaethau ymchwil yr Ardal Ymchwil Ewropeaidd[28] o ran cefnogi'r canlynol: systemau ymchwil cenedlaethol mwy effeithiol; cydweithredu a chystadleuaeth ryngwladol o'r radd flaenaf; marchnad lafur agored i ymchwilwyr; cydraddoldeb rhywiol a phrif ffrydio rhywiol ym maes ymchwil; a dosbarthu, darparu a throsglwyddo gwybodaeth wyddonol gan gynnwys drwy ERA digidol i'r graddau mwyaf posibl.

4.37 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cydweithio â | Nifer | 160 | Data monitro | Chwarterol |

[28] Fel y diffiniwyd yn Nogfen Gyfathrebu'r Comisiwn “A Reinforced European Research Area Partnership for Excellence and Growth” (COM(2012)392 terfynol) ac a gefnogwyd gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd yn ei gasgliadau dyddiedig mis Rhagfyr 2012 a nodwyd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| sefydliadau ymchwil a gefnogir* | | | | |
| Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell | Nifer | 6 | Data monitro | Chwarterol |
| Swm yr arian ymchwil a sicrhawyd | GBP | 165,000,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gefnogir* | CALl | 470 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell* | Nifer | 200 | Data monitro | Chwarterol |

**Amcan Penodol 1.2:** Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau.

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

4.38 Mae data HEBCIS[29] yn dynodi system trosglwyddo gwybodaeth effeithiol sydd wedi'i datblygu'n dda rhwng AU a busnesau yng Nghymru er i Arolwg Arloesedd y DU [30] nodi mai dim ond 15% o fusnesau arloesol a oedd yn cydweithio â phrifysgolion yn y DU. Awgryma hyn fod cryn gwmpas i ryngweithio'n fwy. Er bod y fath ryngweithio yn elfen allweddol o sawl cadwyn arloesi, y prif newid (canlyniad) a geisir yw mwy o fuddiannau masnacheiddio o fewn ardal y rhaglen. Yn amlwg mae rhyngweithio SAU-BBaCh yn rhan greiddiol o hyn ond y twf a gefnogir o fewn BBaChau sy'n arwain at dwf a swyddi; felly'r dyhead am ddangosydd sy'n ceisio nodi hyn yn fwy uniongyrchol.

4.39 Mae gan Arloeswyr Ehangach[31] sgorau uwch na'r cyfartaledd ar gyfer amrywiaeth o ffactorau arloesi, gan gynnwys cyflwyno nwyddau a gwasanaethau newydd a gwell, ymuno â marchnadoedd newydd a chynyddu cyfran o'r farchnad. Cymru sydd â'r gyfran fwyaf o Arloeswyr Ehangach yn y DU (43.3% ar gyfer 2008-2010); mantais allweddol o ran cynyddu buddiannau masnacheiddio. Fodd bynnag, mae busnesau yng Nghymru yn hunan-nodi mwy o rwystrau i arloesedd na rhanbarthau eraill, gydag argaeledd a chost cyllid yn rhwystr allweddol i arloesedd (yr ymdrinnir ag ef yn benodol yn Echel Blaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh).

4.40 Nid yw'r lefelau uchel hyn o arloesi ar draws busnesau Cymru yn arwain at yr un lefel o gynhyrchion newydd llwyddiannus na hyd yn oed gynhyrchion gwell a welir mewn rhanbarthau eraill. Yn ôl y busnesau yng Nghymru sy'n cyflwyno gwasanaethau a chynhyrchion newydd neu sylweddol gwell dim ond 22.4% o drosiant o arloesedd sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau hynny (o gymharu â 29.7% ar gyfartaledd yn y DU); yr isaf o blith holl ranbarthau'r DU. Bydd targedu meysydd Arbenigo Craff yn golygu bod llai o ffocws ar gyfaint a mwy ar sicrhau buddiannau yn ardal y rhaglen. Felly, mae'r targed yn ceisio adlewyrchu hyn gyda disgwyl i fuddsoddiad mwy dwys wedi'i dargedu esgor ar well canlyniadau i'r BBaChau hynny a gefnogir i gyfartaledd y DU o leiaf.

## Dangosyddion Canlyniadau

[29] *Higher Education – Business and Community Interaction Survey* (2013), HEFCE.
[30] *UK Innovation Survey 2011* (2012), BIS
[31] Mae Arolwg Arloesedd y DU yn gwahaniaethu rhyngddynt a busnesau Arloesol, hynny yw byddant wedi cyflawni gweithgareddau mewn meysydd fel ymchwil a datblygu mewnol, hyfforddiant, caffael gwybodaeth allanol neu beirianwaith a chyfarpar sy'n gysylltiedig â gweithgareddau arloesi.

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran gyfartalog o gyfanswm y trosiant o arloesedd cynnyrch, ac arloesedd newydd: newydd i'r farchnad, newydd i fusnesau ac yn llawer gwell | % | Cymru | 22.4 % | 2010 | 24-27% | Arolwg Arloesedd y DU (BIS) | Bob dwy flynedd |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

4.41 Bydd y Flaenoriaeth hon yn cynnwys y cymorth a nodir isod ac, wrth wneud hynny, yn cyfrannu'n bennaf at ddwy o bum thema allweddol *Arloesi Cymru* - darparu cymorth hyblyg ar gyfer arloesedd a gwella cydweithredu.

4.42 Mae *Arloesi Cymru* yn cydnabod bod pocedi o arbenigedd o'r radd flaenaf yn bodoli mewn academia mewn ardaloedd â photensial masnachol. Mae hefyd yn cydnabod clystyrau o Arbenigo Craff sy'n dod i'r amlwg (er efallai nad ydynt ar raddfa fyd-eang ar hyn o bryd) yn ogystal â chyfleoedd i adeiladu ar arfer gorau sy'n bodoli eisoes o ran masnacheiddio ymchwil a datblygu. Bydd Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol Cymru yn cwmpasu'r meysydd Her Fawr ac yn cynnig arweinyddiaeth o ran trosglwyddo gwybodaeth a masnacheiddio. Disgwylir i dargedu'r sector Carbon Isel Ynni a'r Amgylchedd gyfrannu at dargedau Newid yn yr Hinsawdd a chael eu categoreiddio ar wahân (mae dyraniadau dangosol wedi'u cynnwys yn y tabl Categorïau Gwariant).

4.43 Bydd y Flaenoriaeth yn helpu i ddarparu cymorth hyblyg ym maes arloesedd a all ymdrin â rhwystrau penodol sy'n atal BBaChau rhag cyflawni gweithgareddau arloesol neu sy'n canolbwyntio ar ymchwil, yn ogystal ag ar gyfer busnesau sy'n ceisio cynyddu arloesedd neu ddefnyddio ymchwil. Ategir y camau gweithredu gan y cymorth ariannol ad-daladwy ar gyfer arloesedd sydd ar gael o dan Flaenoriaeth 2 o'r Rhaglen hon: Cystadleurwydd BBaCh.

4.44 Cydnabyddwn y gall arloesedd gael ei gyflawni gan unrhyw sefydliad (e.e. y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector) ac nad yw ond yn gysylltiedig ag ymchwil wyddonol a thechnolegol gan academia a busnesau. Rydym am allu annog mwy o BBaChau i gyflawni arloesedd yng Nghymru, yn enwedig lle gellir helpu i fynd i'r afael â'r heriau mawr mewn cymdeithas (er enghraifft eco-arloesedd). Rhaid i bob buddsoddiad o’r fath o dan y

flaenoriaeth hon barhau i fod yn gyson â’r strategaeth arbenigo craff. Mae pob BBaCh arall yn gymwys am gymorth drwy Echel Blaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh.

4.45 Ni ellir gwarantu llwyddiant ac mae methiant yn rhan hanfodol o arloesedd; felly, bydd y Flaenoriaeth yn ceisio cefnogi portffolio cytbwys o fuddsoddiadau gan ddefnyddio Arbenigo Craff er mwyn annog gweithgareddau peilot, ymchwil gymhwysol ac arloesedd lle mae risg uchel o fethiant ochr yn ochr â photensial clir i fanteisio ar y farchnad.

4.46 Mae *Agenda Ddigidol Ewrop*[32] y Comisiwn yn nodi rôl bwysig TGCh ym maes ymchwil ac arloesedd. Mae TGCh fel sector yn cynrychioli 5% o gyfanswm CMC ac 20% o dwf cynhyrchiant cyffredinol yn Ewrop. *Mae Cymru Ddigidol*[33] a *Cyflwyno Cymru Ddigidol*[34] (yn ogystal ag *Arloesi Cymru*) yn disgrifio cryfderau a gwendidau presennol y sector yng Nghymru.

4.47 Bydd y Flaenoriaeth hefyd yn helpu busnesau i hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth, dosbarthu technolegau newydd, a masnacheiddio ymchwil yn seiliedig ar ddylanwad y farchnad - angen a gallu busnesau i fanteisio ar wybodaeth a diwylliant busnes sy'n annog datrys problemau yn y gweithle[35].

4.48 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd[36] yn diffinio Ymchwil ac Arloesedd fel cysyniadau rhyng-gysylltiedig ond annibynnol (yn ei hanfod ymchwil i wella ein sylfaen gwybodaeth ac arloesedd fel ffyrdd newydd o wneud pethau a all gynnwys y defnydd o ymchwil).

4.49 Bydd rhaglen ERDF yn ceisio cynyddu'r buddsoddiad mewn ymchwil gymhwysol neu ddatblygiad arbrofol gyda chysylltiad clir â chanlyniadau economaidd, lle y gall gyfrannu at dwf a chynhyrchiant yn ardal y rhaglen. Ni fydd ERDF yn syml yn cyfnewid cronfeydd domestig am gronfeydd cystadleuol. Dylid ystyried cyfleoedd i gydfuddsoddi â sefydliadau eraill, fel y Bwrdd Strategaeth Technoleg neu Nesta[37] , lle bo modd.

4.50 O ran bodloni targedau Newid yn yr Hinsawdd ceir nifer o feysydd Arbenigo Craff yng Nghymru eisoes (er enghraifft Byw yn glyfar, arddangos technoleg, uwch ymchwil pwerwaith a batri gymhwysol ar gyfer cerbydau trydan a

---

[32] http://ec.europa.eu/digital-agenda/
[33] http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/digitalwales/?skip=1&lang=cy
[34] http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/digitalwales/publications/framework/?lang=en
[35] Hefyd yn nodwedd allweddol o *Innovation Union* Flagship Initiative o dan *Ewrop 2020*
[36] *Innovation Union - A rationale for action* (2010), y Comisiwn Ewropeaidd. Ar gael yn: http://ec.europa.eu/research/innovation-union/pdf/rationale_en.pdf. Disgrifia ymchwil ac arloesedd fel a ganlyn:
Ymchwil: buddsoddi adnoddau mewn ymgais i ehangu'r sylfaen gwybodaeth wyddonol a thechnolegol, yn aml er mwyn datrys problemau penodol sy'n wynebu sectorau gwahanol o'r gymdeithas.
Arloesedd: creu gwerth drwy gyflwyno cynhyrchion, prosesau, gwasanaethau a ffyrdd newydd o wneud pethau; mae'n gofyn am fewnbwn gwybodaeth nid yn unig o ymchwil wyddonol a thechnolegol, ond hefyd o ffynonellau eraill fel arloesedd annhechnegol, a ysgogir gan y defnyddiwr ac aelosedd cymdeithasol.
[37] NESTA gynt (Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau)

hydrogen, neu grid / dosbarthu deallus). Hefyd, ceir peth arbenigedd yn barod o ran technolegau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni (e.e. ffotofoltäig, amlenni adeiladu cynhyrchu ynni, systemau ynni hydrogen) a thanwydd amgen (er mwyn achub ar gyfleoedd y sector Cerbydau Carbon Isel[38]). Mae Cymru hefyd yn cael budd o gryn arbenigedd academaidd wrth ddatblygu ac integreiddio technolegau carbon isel, er enghraifft drwy'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel sef partneriaeth rhwng nifer o Brifysgolion ledled Cymru, ac mae wedi sefydlu cryn economi yn y sectorau adnewyddadwy a charbon isel. Bydd angen i'r gefnogaeth a roddir sicrhau y manteisir ar y cryfderau hyn sydd eisoes yn bodoli yn llawn.

4.51 Mae'r enghreifftiau o'r math o gamau gweithredu a gefnogir fel a ganlyn:

- [39] Helpu busnesau i arloesi (e.e. ar sail galw neu eco-arloesi) a gwella cadwyni cyflenwi arloesedd rhwng busnesau ac ag academia
- Cymorth er mwyn ymdrin â'r rhwystrau i arloesedd sy'n wynebu busnesau
- Treialu mentrau i brofi camau gweithredu, prosesau neu wasanaethau arloesol mewn meysydd â photensial masnachol
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu prototeipiau, cynlluniau peilot, arddangosiadau a modelau gweithredol
- Datblygu canolfannau neu glystyrau cost isel ar gyfer busnesau a sectorau arloesol (e.e. canolfannau rhithwir ar gyfer y sector TGCh, y sector Creadigol neu'r sector Twristiaeth)
- Datblygu a lansio ffyrdd newydd ac arloesol o ddefnyddio ac addasu technoleg, prosesau neu wasanaethau presennol i farchnadoedd newydd
- Masnacheiddio, diogelu a manteisio i'r eithaf ar ymchwil (yn cynnwys ymchwil gymwysedig er mwyn gwneud y farchnad yn fwy parod)
- Gwell cydweithredu rhwng diwydiant a BBaCh a Phrifysgolion a sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar ymchwil. Lle bynnag y bo modd, dylai'r cydweithredu geisio meithrin hyder a gallu BBaChau i fwynhau buddiannau ymchwil er mwyn dod yn fwy cynhyrchiol neu dyfu eu busnes.
- Cefnogi datblygiad clystyrau Arbenigo Craff gan ganolbwyntio ar fasnacheiddio ymchwil ac arloesedd.
- Buddsoddiadau mewn galluoedd gweithgynhyrchu a chynhyrchu datblygedig (e.e. cynhyrchu Technolegau Galluogi Allweddol gyntaf)

---

[38] Rhagor o fanylion am uchelgeisiau'r farchnad a Llywodraeth Cymru mewn datganiad yn: http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/lowcarbonvehicles/?skip=1&lang=cy

[39] Y gadwyn gyflenwi arloesedd (yn wahanol i arloesedd yn y gadwyn gyflenwi) yw'r broses a ddilynir gan gwmnïau i gael a/neu ddatblygu cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau yn y dyfodol a gwella eu cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau presennol.

- Gellir ystyried defnyddio talebau arloesedd TGCh (fel y disgrifir ym Mhecyn Cymorth yr Agenda Ddigidol[40]), a ystyrir yn ffordd effeithlon o gyrraedd BBaChau.

## Egwyddorion arweiniol

4.52 Bydd cefnogaeth gan y Flaenoriaeth hon yn gyson â phrif egwyddor *Arloesi Cymru* hynny yw caiff arloesedd ei hyrwyddo ar draws yr economi gyfan ond dylai lefelau sylweddol o gymorth dynodedig i glystyrau, sefydliadau, busnesau neu ar gyfer technolegau neu arloesedd penodol fod ar sail meithrin cryfderau Cymru. Mae'r ffocws hwn ar weithgareddau sydd eisoes yn gryf neu'n dangos addewid yn dilyn cysyniad Arbenigo Craff[41] a meysydd Her Fawr Llywodraeth Cymru. Ceisir cyngor arbenigol er mwyn helpu i flaenoriaethu buddsoddiadau yn unol â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Strategaeth Arbenigo Craff. Mae cysondeb â'r strategaeth Arbenigo Craff yn rhagofyniad ar gyfer yr holl gymorth sydd ar gael o dan yr Echel Blaenoriaeth hon.

4.53 Blaenoriaethir buddsoddiadau gan ddefnyddio Arbenigo Craff lle dangosir arbenigedd ac arbenigo gwirioneddol. Disgwylir i hyn ddigwydd mewn perthynas â'r meysydd Her Fawr yn bennaf er y gall arbenigeddau eraill ddod i'r amlwg drwy waith darganfod entrepreneuraidd. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn defnyddio cyngor technegol ac arbenigol er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu'n briodol, bod syniadau'n gredadwy, yn realistig ac nad ydynt yn dyblygu ymchwil neu arloesedd sy'n bodoli eisoes.

4.54 Wrth ddangos cysondeb â strategaeth Arbenigo Craff Cymru, bydd angen i weithrediadau ddangos sut maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at y dangosyddion a'r amcanion a nodwyd yn y Cynlluniau Cyflenwi cysylltiedig diweddaraf[42], gan gynnwys unrhyw fesurau ychwanegol neu arloesol a gyflwynwyd yn ystod y broses barhaus o werthuso'r strategaeth Arbenigo Craff. Caiff y Strategaethau hyn eu cyflawni mewn cydweithrediad agos ac mae mesurau eisoes ar waith i sicrhau cydweithredu a chydgysylltu wrth gyflawni (e.e. defnyddio Cynghorau Cynghori arbenigol sydd â thrawsaelodaeth rhyngddynt er mwyn datblygu blaenoriaethau, monitro cynlluniau cyflawni a dangosyddion, a chydgysylltu gweithgareddau lle ceir gorgyffwrdd).

4.55 Bydd angen elfen o dargedu penodol sy'n canolbwyntio ar annog arloesedd yn y busnesau hynny nad ydynt naill ai'n arloesi ar hyn o bryd, neu'r rhai nad

---

40 http://s3platform.jrc.ec.europa.eu/documents/10157/130815/Digital%20Agenda%20Tool%20Box%20v.13_CONSULTATION.pdf

41 *Smart Specialisation – The Concept, Knowledge Economists Policy Brief n° 9* (2009), Dominique Foray, Paul A. David a Bronwyn Hall

42 Mae Cynllun Cyflenwi Gwyddoniaeth i Gymru ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/det/publications/130604sciencedeliverycy.pdf ac mae Cynllun Cyflenwi Arloesi Cymru ar gael yn http://wales.gov.uk/docs/det/publications/140313innovationstrategycy.pdf

ydynt yn ystyried eu hunain yn arloesol. Dylai hyn gynnwys prosesau targedu penodol ar gyfer sectorau y tu hwnt i sectorau gwyddoniaeth a thechnoleg, a dylai ategu gweithgarwch sy'n annog prosesau arloesedd dyfnach yn y busnesau hynny sy'n arloesi'n barod.

4.56 Bydd hefyd angen ymdrechu i nodi'r busnesau hynny yng Nghymru sydd â'r potensial i fasnacheiddio a defnyddio ymchwil ac arloesedd, lle mae'n gysylltiedig ag arbenigo craff. Bydd cymorth wedi'i dargedu a'i deilwra sy'n helpu'r busnesau hynny i fwynhau budd yn ardal y rhaglen yn allweddol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

4.57 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gefnogir* | Nifer | 1,212 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael grantiau* | Nifer | 520 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | Nifer | 3,750 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau newydd sy'n cael cymorth* | Nifer | 30 | Data monitro | Chwarterol |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu* | EUR | 42,840,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | CALl | 1,125 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad* | Nifer | 490 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni* | Nifer | 725 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y patentau a gofrestrir ar gyfer cynhyrchion | Nifer | 519 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y prosiectau peilot a | Nifer | | Data | Chwarterol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwblheir | | dd/g | monitro | |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | Nifer | 956 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | Nifer | 956 | Data monitro | Chwarterol |

## Cydgysylltu Rhwng Y Cronfeydd, EAFRD, EMFF Ac Offerynnau'r Undeb Ac Ariannu Cenedlaethol Eraill

4.58 Mae rhaglenni ESI Cymru wedi'u dylunio i fod yn ategol ac mae rhaglenni ERDF yn rhannu dadansoddiad a strwythur, gan adlewyrchu'r heriau cyffredin ar draws Cymru gyfan.

4.59 Bydd y meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu prosiectau yn profi sut mae pob prosiect wedi ystyried ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael a'r cysylltiadau a wnaed â hwy. Anogir prosiectau yn arbennig lle gallant gyfrannu at flaenoriaethau ERDF ac offerynnau ariannu UE ehangach (e.e. Horizon neu LIFE) ar yr un pryd.

4.60 Mae'r adran hon yn nodi'r cysylltiadau â chronfeydd ESI, UE eraill a'r DU yn ôl Echel Blaenoriaeth, heb ddyblygu dulliau cydgysylltu na chysylltiadau â strategaethau macro-ranbarthol a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth.

4.61 Mae Ymchwil ac Arloesedd yn ddwy elfen o'r "triongl gwybodaeth", ynghyd ag addysg. Gall buddsoddiadau ESF helpu i gynyddu cyflenwad unigolion â'r sgiliau arbenigol i gefnogi'r gwaith o feithrin gallu ac adnoddau mewn sefydliadau ymchwil, a chynyddu arloesedd o fewn busnesau Cymru. Ceisir cydgysylltu'r gweithgareddau hyn yn agos iawn, gyda'r potensial i ystyried cyllid ategol; yn arbennig, lle gellir cyfuno Ymchwil, Arloesedd a Sgiliau.

4.62 Mae lle i sicrhau yr ategir rhaglen EAFRD er mwyn hyrwyddo arloesedd a'r sylfaen wybodaeth mewn ardaloedd gwledig, ac yn enwedig drwy fuddsoddiadau o dan faes Her Fawr Carbon isel, ynni a'r amgylchedd. Gall buddsoddiadau ERDF sy'n cefnogi'r newid i economi carbon isel ategu gweithgarwch a ariennir o dan yr EMFF, yn dibynnu ar yr arbenigeddau a gefnogir.

4.63 Disgwylir cyswllt pwysig â rhaglen Horizon 2020 a chyllid ymchwil cystadleuol arall, fel cyllid Cynghorau Ymchwil y DU, Bwrdd Technoleg a Strategaeth y DU a NESTA'r DU. Er enghraifft, mae'r DU yn ymwneud â rhwydwaith Eureka drwy'r TSB, gan gynnig y llwybr i ddatblygu clystyrau a phartneriaethau rhyngwladol. Mae'r ERDF yn disgwyl buddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd am i fyny gyda nod penodol i feithrin gallu ac adnoddau er mwyn cynyddu mynediad i'r cronfeydd hyn. Bydd y dimensiwn rhyngwladol clir a geisir drwy feithrin gallu ac adnoddau yn gofyn am roi mwy o ystyriaeth i fentrau ledled yr UE fel yr Ardal Ymchwil Ewropeaidd a gwaith y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd. Hefyd, defnyddir ERDF am i lawr er mwyn sicrhau y manteisir ar ganlyniadau'r ymchwil honno a bod y buddiannau yn cael eu nodi yn ardal y rhaglen, gan gynnwys y potensial i fasnacheiddio ymchwil Ewropeaidd (e.e. o Horizon 2020) yng Nghymru.

4.64 Dylai synergeddau â Horizon 2020 hefyd ystyried cysylltiadau â phartneriaethau preifat-cyhoeddus (Mentrau Cydraglennu, ERA-NET, mentrau Erthygl 185), partneriaethau cyhoeddus-preifat (mentrau Erthygl 187) a chamau o dan Ran IV o Horizon 2020 sy'n ymwneud â Lledaenu Rhagoriaeth

ac Ehangu Cyfranogiad, lle gallai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ddarparu uwch bartneriaid posibl ym mhob cam Ehangu.

4.65 Ceir amrywiaeth o offerynnau ariannu yn yr UE a'r DU sy'n ceisio ymdrin â'r heriau sy'n ymwneud â'r newid i economi carbon isel. Bydd Horizon 2020 yn gyswllt allweddol, a dylai cyllid arddangos Cronfa Newydd-ddyfodiaid (NER) 300 gael ei ystyried hefyd. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno dulliau gweithredu a ddilyswyd o dan raglen LIFE, lle maent yn cyflawni amcanion rhaglen ERDF, er enghraifft wrth ddangos eco-arloesedd neu fabwysiadu technolegau arloesol. Gall ERDF gefnogi amrywiaeth o gamau sy’n ategu’r rhaglenni UE eraill hyn (e.e. LIFE) lle maent hefyd yn cyflawni amcanion y Rhaglen Weithredol hon.

4.66 Tra bod hyn yn awgrymu llinell derfyn rhwng y cronfeydd, ystyrir y posibilrwydd o gydariannu fesul achos (dylai prosiect gyflawni amcanion ERDF a gofynion y gronfa gystadleuol arall). Ni fydd prosiectau ERDF yn cymryd lle cronfeydd ymchwil cystadleuol eraill. Caiff prosiectau eu herio er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn cynigion cystadleuol eraill (e.e. Horizon 2020 neu gronfeydd ymchwil domestig) lle mai dyna'r ffynhonnell cyllid fwyaf priodol. Bydd cydleoli uned Horizon 2020 â'r Awdurdod Rheoli ar gyfer ERDF, ynghyd â defnyddio cyngor arbenigol (mewnol ac allanol) er mwyn llywio'r dewis o brosiectau, yn helpu i sicrhau bod cydgysylltu agos rhwng y cronfeydd hyn.

4.67 Ategir Camau Marie Curie hefyd ac ystyrir cynigion ERDF cysylltiedig fesul achos. Bydd llawer o'r cysylltiadau ag ERASMUS a mentrau eraill sy'n gysylltiedig â phobl yn fwy uniongyrchol gysylltiedig ag ymyriadau ESF; serch hynny cyd-gysylltir y rhain â buddsoddiadau ymchwil, datblygu ac arloesedd ERDF. Mae hyn yn cynnig y cyfle i gyfuno ERDF, ESF a chyllid UE (H2020, ERASMUS, Marie Curie) ar nodau cyffredin. Ni fwriedir i'r Awdurdod Rheoli gymryd unrhyw gamau penodol i ysgogi neu dargedu'r cysylltiadau hyn, ond lle nodir cysylltiadau ceisir cydgysylltu a chyngor arbenigol gan yr Adran sy'n cydgysylltu gwybodaeth am gamau Marie Curie ac ERASMUS yng Nghymru.

4.68 Disgwylir i'r holl raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) y mae Cymru yn cymryd rhan ynddynt gynnwys buddsoddiadau ymchwil, datblygu ac arloesi. Dylai prosiectau ERDF sy'n ceisio cymorth am i fyny gynnwys dimensiwn rhyngwladol clir, fel ffordd hanfodol o brif ffrydio gweithgarwch trawsgenedlaethol gwirioneddol ac ymdrin ag un o'r prif rwystrau sy'n atal sefydliadau ymchwil Cymru rhag cael gafael ar gyllid ymchwil cystadleuol (sef diffyg rhwydweithiau a phartneriaid rhyngwladol). Mae hwn yn gyfle i ystyried cysylltiadau posibl â rhaglenni ETC perthnasol; lle gobeithir y gall cysylltiadau rhwng sefydliadau ymchwil, ymchwilwyr, rhwydweithiau a chlystyrau llwyddiannus gael eu cefnogi.

4.69 Efallai y bydd cyllid EIB fel rhan o brosiectau a ariennir gan ERDF yn bosibl os daw cynigion buddsoddi sylweddol i'r amlwg ar gyfer seilwaith ymchwil. Mae darparu cyfalaf risg ar gyfer BBaChau arloesol yn debygol o fod yn rhan o Offeryn Ariannol lle gellir hefyd geisio cyllid EIB. Dylid hefyd ystyried defnyddio cronfeydd ESI ar gyfer seilweithiau ymchwil ESFRI lle bo'n briodol.

# 5. Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BbaCh

5.1 Rhoddir dadansoddiad a chrynodeb lefel uchel o anghenion a chyfleoedd allweddol sy'n arwain at ddethol yr Echel Blaenoriaeth hon yn Adrannau 1.1 ac 1.3 o'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU.

5.2 Bydd y Flaenoriaeth hon yn hyrwyddo entrepreneuriaeth a busnesau **newydd** ac yn helpu BBaChau i wella eu cystadleurwydd drwy **dyfu maint busnesau** a chefnogi **cynnydd mewn cynhyrchiant** drwy amrywiaeth o fesurau, gyda chamau penodol i gefnogi'r defnydd o Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru. Mae twf mewn cyflogaeth a thwf mewn cynhyrchiant yn ategu ei gilydd ond weithiau ceir elfennau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd o ran cystadleurwydd BBaCh. Mae'n rhaid sicrhau twf mewn cynhyrchiant er mwyn sicrhau cystadleurwydd, ond gall arwain at leihau nifer y cyflogeion sydd gan fusnes wrth i brosesau wella. Mae tyfu maint busnes yn cefnogi cyflogaeth hirdymor, ond dim ond lle mae'r busnes sy'n tyfu yn gwneud hynny mewn ffordd gynaliadwy a'i fod yn wirioneddol gystadleuol.

5.3 **Ymhlith y rhwystrau a'r pwyntiau tyngedfennol** i dwf busnes mae pryderon ynghylch rheoliadau a deddfwriaeth a negodi trafodion fel mynd y tu hwnt i drothwy treth, sydd eu hangen er mwyn dod yn fusnes corfforedig, cyflogi staff, a symud i farchnad newydd[43]. Mae hyn yn awgrymu bod angen cymorth wedi'i deilwra er mwyn ymdrin â'r rhwystrau hyn, er enghraifft cael gafael ar gyllid a chymorth busnes sydd wedi'i dargedu ar gamau allweddol o dwf busnes (e.e. creu, allforio ac ehangu), gyda phwyslais penodol ar rôl band eang a TGCh gysylltiedig wrth helpu i hyrwyddo twf ym maes cynhyrchiant.

5.4 Cyflwynodd y Cytundeb Partneriaeth y materion a oedd yn ymwneud â **chael gafael ar gyllid ar gyfer busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu**, ac mae data o Arolwg Busnesau Bach 2012[44] hefyd yn awgrymu bod BBaChau yng Nghymru yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd cael gafael ar gyllid na BBaChau ledled y DU gyfan[45]. At hynny, mae micro fusnesau yn fwy tebygol o nodi eu bod yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gyllid na rhai bach a chanolig.[46] Mae'r **Ex Ante Assessment for the use of Financial**

[43] *Business Growth Ambitions Amongst SMEs* (2012), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS)
[18] *2012 Small Business Survey* (2013), BMG Research ar ran Llywodraeth Cymru
[19] *2012 Small Business Survey* (2013), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS). Data ar gael o Dablau Data yn https://www.gov.uk/government/publications/small-business-survey-2012-sme-employers
[20] *2012 Small Business Survey: SME Employers in Wales* (2013), BMG Research ar ran Llywodraeth Cymru
[21] *Ex Ante Assessment for the use of Financial Instruments*, Regeneris Consulting, heb gael ei gyhoeddi eto.

**Instruments** wedi dod o hyd i dystiolaeth o fylchau yn y farchnad wrth ddarparu microfenthyciadau, cyllid dyledion BBaCh, cyllid ar gyfer mentrau cymdeithasol, a chyfalaf risg a chaiff Offeryn Ariannol ei ddatblygu i ymdrin â'r bylchau hyn[47]. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu'r cymorth ariannol sydd ar gael i BBaChau a bydd angen i'r asesiad ex-ante sy'n llywio cyllid ERDF ystyried unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r broses honno a chael ei gydgysylltu â hwy, gan gynnwys y potensial am gysylltiadau agosach rhwng cyllid a chymorth busnes ehangach[48].

5.5 *Mae Arloesi Cymru* yn cydnabod bod **gweithgarwch arloesol** yng Nghymru yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg cyllid datblygu preifat. Mae diwylliant o arloesi yn un o nodweddion cwmnïau twf uchel[49], sy'n dynodi y gallai targedu cwmnïau arloesol a chefnogi arloesedd drwy gyfalaf risg fod yn ffordd ddefnyddiol o gefnogi'r BBaChau hynny'n benodol.

5.6 Roedd y **gyfradd geni busnes** yng Nghymru 2.0 pwynt canran islaw'r DU gyfan[50] ac un o'r prif rwystrau i greu BBaChau newydd yw cael gafael ar gyngor ac arweiniad busnes[51]. Hefyd mae lefelau entrepreneuriaeth yng Nghymru islaw rhai'r DU ar gyfartaledd[52]. Er i weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru gynyddu yn ystod y dirwasgiad, gan olrhain cyfartaledd y DU, fel gyda'r gwledydd cartref eraill, yn 2013 gwelwyd dirywiad mewn lefelau gweithgarwch entrepreneuraidd a'r bwriad i sefydlu busnesau newydd yng Nghymru gyda dirywiad sylweddol mewn cyfraddau gweithgarwch ymhlith pobl ifanc 18-29 oed, o bosibl oherwydd gwell amodau economaidd yn cyfrannu at lai o ddibyniaeth ar hunangyflogaeth fel ffynhonnell waith[53]. Nid yw menywod wedi'u cynrychioli'n ddigonol o hyd o ran gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru nac ar draws y DU gyfan[54]. Mae cynlluniau cymorth i fusnesau newydd yng Nghymru wedi bod yn gymharol llwyddiannus o ran dileu'r rhwystrau i entrepreneuriaeth[55].

5.7 Mae ymchwil yn cydnabod bod cynhyrchiant yn ffactor allweddol sy'n sbarduno twf economaidd[56], ond mai nifer cymharol fach o fusnesau sy'n cyflawni twf cyflym a sylweddol[57]. Er enghraifft, mae data Global Entrepreneurship Monitor yn awgrymu bod 10% o entrepreneuriaid datblygol

---

22 http://wales.gov.uk/about/cabinet/decisions/dl2014/janmar/business/eh0608/?lang=en
49 *The vital 6 per cent,: How high-growth innovative businesses generate prosperity and jobs* (2009), NESTA
50 *StatsWales - Business Demography: Birth Rates by area 2012*, Llywodraeth Cymru
51 Er enghraifft: *Barriers encountered during micro and small business start-up in North-West England* (2000), S L Davidson Fielden, M J, P J Makin
52 *Bwletin ystadegol "Business Demography: enterprise births and deaths, 2010"* (19 Ion 2012), Llywodraeth Cymru
53 *Ibid.*
54 *Ibid.*
55 *Mid Programme Evaluation of the Start Up Service for the Welsh Assembly Government* (Dim dyddiad), ERS, Beaufort Research a Hywel Evans Associates.
56 Er enghraifft: *The ONS Productivity Handbook, Chapter 3: Productivity Theory and Drivers*
57 Er enghraifft, amcangyfrifir bod 2-4% o fusnesau twf uchel yn gyfrifol am y rhan fwyaf o dwf cyflogaeth yn sector preifat y DU. *BERR economic paper No. 3 "High growth firms in the UK: Lessons from an analysis of comparative UK performance"* (Tachwedd 2008), Adran Busnes Menter a Diwygio Rheoleiddio'r DU (BIS bellach)

yn disgwyl creu 70% o'r holl swyddi a ragamcenir gan eu carfan[58]. Mae'n anodd iawn nodi'r **busnesau twf** hynny, yn enwedig pan gânt eu sefydlu gyntaf; fodd bynnag ceir tystiolaeth[59] bod bwriadau busnesau o ran twf yn cael effaith fawr ar b'un a wnânt dyfu. Mae busnesau twf uchel, er eu bod yn fach mewn nifer ac yn hynod anodd eu nodi, yn dal i fod yn allweddol i lywio cynhyrchiant yn gyffredinol a chynyddu swyddi. Mae'r DU yn cymharu'n dda yn rhyngwladol o ran canran y busnesau twf uchel, 5.8% yn erbyn yr UD (tua 5%) a'r Eidal (3%) ac felly yn amlwg ceir buddiannau posibl sylweddol o **dargedu busnesau twf**. Mae Cymru wedi cael rhywfaint o lwyddiant blaenorol gyda chwmnïau twf uchel, gyda'r gyfran uchaf o gwmnïau twf uchel o blith unrhyw ranbarth yn y DU rhwng 2002 a 2005 (er nad yw'n gwneud cystal mwyach)[60].

5.8 Cadarnha ymchwil[61] fod gan BBaChau nifer o bryderon yn ymwneud â cheisio **cyngor a gwybodaeth** sy'n cyfeirio at rai o fethiannau'r farchnad yn y maes hwn. Mae a wnelo'r pryderon yn benodol â'r gost a'r amser sydd ynghlwm wrth gael cymorth busnes ffurfiol, methu ag ymddiried mewn cynghorwyr allanol, neu bryderon ynghylch p'un a fyddent yn deall y busnes, a hyder mewn gallu cael gafael ar gymorth priodol.

5.9 Mae **symud i farchnad newydd** yn un o'r prif bwyntiau a rhwystrau i dwf busnes[62] . Mae ffigurau allforio yng Nghymru islaw cyfartaledd y DU a chânt eu dominyddu gan nifer fach o gwmnïau mawr[63]. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod cyfleoedd sylweddol hefyd yn bodoli o fewn cadwyni cyflenwi, cyfleoedd caffael a chysylltiadau â chwmnïau angori[64]. Gall hyn yn ei dro helpu i gael mynediad i gadwyni cyflenwi cenedlaethol a rhyngwladol ac achub ar gyfleoedd caffael. Ers 1999 bu cynnydd o 105% mewn allforion o Gymru (cyfartaledd y DU 79%)[65]. Gwelir y rhan fwyaf o dwf mewn marchnadoedd y tu hwnt i'r UE sy'n adlewyrchu gwendid economi'r UE a'r potensial am dwf mewn marchnadoedd datblygol. Mae hyn yn awgrymu y gellir annog BBaChau yng Nghymru i weithredu'n rhyngwladol drwy ddatblygu cadwyni cyflenwi domestig a rhyngwladol, gan gynnwys ceisio marchnadoedd newydd.

5.10 Mae marchnadoedd domestig hefyd yn ffynonellau pwysig o gyfleoedd twf i BBaChau, yn enwedig drwy **gyfleoedd caffael**. Er enghraifft mae'r sector cyhoeddus ledled y DU yn gwario £150 biliwn y flwyddyn ac mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario £4.3 biliwn y flwyddyn. Dylai busnesau sy'n

---

[58] *Global Entrepreneurship Monitor 2007 Global Report on High-Growth Entrepreneurship* (2007), E. Autio, Cymdeithas Ymchwil Entrepreneuriaeth Fyd-eang.
[59] *ERC White paper: Growth and growth intentions* (2013), Levie ac Autio
[60] *The vital 6 per cent: How high-growth innovative businesses generate prosperity and jobs* (2009), NESTA
[61] *Research to understand the barriers to take up and use of business support* (2011), Canolfan Ymchwil Menter a Datblygu Economaidd BIS
[62] *A review of the literature addressing the role of external knowledge and expertise at key stages of business growth and development* (2005), Bessant, J., Phelps, B., ac Adams, R. Ysgol Reoli Cranfield
[63] *Regional Trade statistics* (5 Rhagfyr 2013), Llywodraeth Cymru
[64] *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* (Gorffennaf 2010), Llywodraeth Cymru.
[65] *Regional Trade statistics* (5 Rhagfyr 2013), Llywodraeth Cymru

llwyddiannus ym maes caffael domestig wynebu llai o rwystrau o ran capasiti i farchnadoedd allforio a chyfleoedd caffael rhyngwladol (e.e. drwy OJEU).

5.11 Mae angen i bwysigrwydd **TGCh a'r economi ddigidol** i dwf cynhyrchiant a nodwyd yn y Cytundeb Partneriaeth gael ei adlewyrchu yn y cymorth a gynigir i BBaChau. Mae angen sicrhau bod BBaChau yn manteisio ar fuddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith ac adnoddau TGCh[66]. Ceir tystiolaeth o effaith economaidd gadarnhaol band eang ond gyda'r buddiannau yn ddibynnol ar ddiwylliant a sgiliau rheoli[67]. At hynny, awgryma ymchwil na welir effaith band eang ar ei phen ei hun a bod technolegau, cynhyrchion, gwasanaethau a sgiliau ategol hefyd yn bwysig[68]. Er bod y DU yn perfformio'n dda yn erbyn sawl dangosydd ar gyfer y defnydd o TGCh, mae un astudiaeth wedi dynodi bod BBaChau yn y DU ar ei hôl hi o gymharu â chymheiriaid rhyngwladol wrth ddigideiddio rhai swyddogaethau cefn swyddfa, gan awgrymu y gall fod angen cymorth yn y maes hwn[69].

5.12 Mae Cymru yn perfformio'n debyg i weddill y DU o ran dangosyddion ar gyfer defnydd busnesau o TGCh, gyda ffigurau o Arolwg Busnesau Bach 2012 yn dangos bod gan 69% o Gyflogwyr BBaCh yng Nghymru (h.y. pob BBaCh heblaw am y rhai heb unrhyw gyflogeion) wefan busnes, o gymharu â 71% ledled y DU gyfan[70]. O blith y Cyflogwyr BBaCh hynny yng Nghymru â mynediad i'r rhyngrwyd, mae 43% yn gwerthu nwyddau a gwasanaethau drwy wefan (o gymharu â 41% yn y DU gyfan) ac mae 67% yn hyrwyddo eu nwyddau a'u gwasanaethau drwy wefan (o gymharu â 70% yn y DU gyfan). Fodd bynnag, mewn arolwg o BBaChau gan Ofcom, nododd 36% o BBaChau yng Nghymru nad oedd ganddynt hyder yn eu gallu i nodi pa gynhyrchion neu wasanaethau cyfathrebu newydd a fyddai'n werthfawr i'w sefydliad, gan awgrymu bod angen ymyrryd mewn ffordd sy'n targedu busnesau ac unigolion[71].

5.13 O ran effaith economaidd band eang *cyflymach*, mae ymchwil wedi nodi mai 'cyfrifiadura cwmwl' yw un o'r prif lwybrau y disgwylir i fand eang cyflymach gael effaith economaidd drwyddo[72]. Yn arolwg Ofcom o BBaCh, nododd 23%

---

[66] Er enghraifft: Band Eang y Genhedlaeth Nesaf (www.superfast-cymru.com) neu Ddinasoedd 'Super Connected' (http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2%2C2867%2C6556%2C6557)
[67] *UK Broadband Impact Study: Literature Review* (2012), SQW ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)
[68] *Ibid.*
[69] *"This is for Everyone": The Case for Universal Digitization* (2012), Booz & Co. Dadansoddodd Booz & Co lefelau digideiddio cefn swyddfa mwy na 500 o BBaChau yn y DU, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Brasil. Disgrifir y cysyniad o ddigideiddio (Booz & Co) mewn adroddiad Fforwm Economaidd y Byd fel "the mass adoption of connected digital technologies and applications by consumers, enterprises, and governments." Ystyrir y DU yn un o'r prif wledydd yn y Mynegai Digideiddio "Maximising the Impact of Digitization", Booz a Katz (2012). Yn *The Global Information Technology Report 2012: Living in a Hyperconnected World.* Fforwm Economaidd y Byd. mae ffigurau Eurostat, a ddyfynnwyd yn *E-Commerce and ICT Activity, 2012* (2013), y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), yn rhoi'r DU yn y pumed safle o blith 28 o wledydd yr UE o ran Cyfran cyfanswm y trosiant o e-fasnach.
[70] *Small Business Survey 2012* (2013) BIS
[71] *Communications Market Report: Wales* (2014), Ofcom
[72] *UK Broadband Impact Study: Literature Review* (2012), SQW ar ran DCMS

o BBaChau yng Nghymru eu bod yn defnyddio gwasanaethau cwmwl[73]. Mewn arolwg o fusnesau ledled yr UE nododd 81% o fusnesau a oedd eisoes yn defnyddio gwasanaethau cwmwl fod eu costau TG yn is yn sgil mabwysiadu cyfriadura cwmwl[74]. Fodd bynnag, ymhlith y rhwystrau i fabwysiadu cyfrifiadura cwmwl yn ehangach mae pryderon ynghylch materion awdurdodaeth gyfreithiol a lleoli data a rheoliadau sicrwydd a diogelwch data, ymddiriedaeth ansicr mewn cyflenwyr a diffyg mynediad sicr i ddata a symudedd rhwng systemau cwmwl[75]. Mae rhai o'r pryderon hyn yn gysylltiedig â phryderon ehangach ynghylch e-droseddu felly dylai ymyriadau i hyrwyddo'r defnydd o TGCh gan BBaCh fod yn sensitif i'r ffaith bod e-droseddu ac ofn e-droseddu yn rhwystr sylweddol i fabwysiadu TGCh gan fusnesau. Yn arolwg Ofcom o BBaCh, nododd 35% o BBaChau yng Nghymru fod ganddynt bryderon diogelwch mewn perthynas â gwasanaethau cyfathrebu[76]. Awgryma amcangyfrifon o gost e-droseddu y gallai gostio tua £27 biliwn bob blwyddyn i economi'r DU[77].

5.14 Ceir tua 3,000 o sefydliadau sy'n cyflawni gweithgarwch **mentrau cymdeithasol** yng Nghymru gyda throsiant cyfunol o £2.2 biliwn (amcangyfrif 07/08)[78]. Mae mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn gweithredu yn y rhan fwyaf o ddiwydiannau ledled Cymru, er bod y rhan fwyaf ynghlwm wrth hyfforddiant ac addysg, y celfyddydau a'r Gymraeg, cymorth busnes, iechyd a gofal cymdeithasol, a chwaraeon; nododd yr un ymchwil fod mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn ceisio cyngor a chymorth arbenigol er mwyn dod yn fusnesau gwell[79].

5.15 Mae'r **defnydd o ynni** yng Nghymru bron 30% yn uwch na'r cyfartaledd ledled Prydain Fawr[80], yn bennaf oherwydd diwydiant ac yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o fusnesau sy'n defnyddio mwy o ynni fel gweithgynhyrchu i'w cael yng Nghymru. Eto i gyd, mae'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â busnesau mwy ynni-effeithlon yn her i bob sector, o ystyried yr angen i fodloni targedau ar gyfer lleihau allyriadau a chostau cynyddol ynni. Yn ogystal â gallu cyfrannu at dargedau effeithlonrwydd ynni (gan ategu mentrau o dan Echel Blaenoriaeth 3) mae buddiannau sylweddol ynghlwm wrth well effeithlonrwydd ynni ar gyfer busnesau unigol. Mae costau cynyddol ynni yn y DU yn rhwystr i gystadleurwydd busnesau Cymreig ac, yn arbennig, y rhai sy'n defnyddio mwy o ynni. Er bod gan y busnesau hynny sy'n defnyddio llawer o ynni gymhellion cryf i gyflawni nodau effeithlonrwydd ynni, a ategir drwy

---

[73] *Communications Market Report: Wales* (2014), Ofcom
[74] *Quantitative Estimates of the Demand for Cloud Computing in Europe and the Likely Barriers to Uptake* (2012), IDC ar ran y Comisiwn Ewropeaidd
[75] *Ibid.*
[76] *Communications Market Report: Wales* (2014), Ofcom
[77] *The Cost of Cyber Crime* (14 Chwefror 2011), Detica a Swyddfa'r Cabinet
[78] Tailored research informing Social Enterprise Action Plan (2009), Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw ddata rheolaidd na dibynadwy ar lefel Cymru o ystyried y gwahanol strwythurau cyfreithiol, gwahanol ddiffiniadau a diffyg gweladwyedd.
[79] *Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru* (Hydref 2009), Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/regeneration/publications/110803socialmapping/?skip=1&lang=cy
[80] *Average final energy consumption per thousand population in Great Britain by region and consuming sector - Sub-national total final energy consumption statistics* (data 2011), DECC

fuddsoddiad cyfalaf, nid yw hyn yn wir am fusnesau sy'n defnyddio lefel ganolig ac is o ynni ac mae angen iddynt gael cymorth i wneud hynny.

5.16 Mae cryn gyfleoedd hefyd i wella cystadleurwydd BBaChau drwy well **effeithlonrwydd adnoddau** y tu hwnt i ddefnydd ynni yn unig, a all hefyd gael effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar Wastraff ac Ailgylchu yn amcangyfrif y gallai busnesau'r DU arbed £23 biliwn y flwyddyn drwy wella'r ffordd y maent yn defnyddio adnoddau, ac mae'n awgrymu y gallai gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau gwael gostio cymaint â 4% o drosiant[81] i fusnesau. Felly, gall gwell effeithlonrwydd adnoddau roi hwb i gynhyrchiant, sydd yn ei dro yn helpu i gefnogi twf a swyddi

5.17 Mae amrywiaeth o rwystrau yn effeithio ar y defnydd o fesurau **effeithlonrwydd ynni ac adnoddau** o fewn busnesau, yn enwedig BBaChau, gan gynnwys ei fod yn flaenoriaeth isel, heb arbenigedd, heb gyfalaf a dim achos cymhellol o ystyried y cyfnodau hir cyn y gwelir unrhyw fudd[82]. O ystyried bod tua 55% o'r defnydd o ynni a gyflenwir yn y sector cyhoeddus a'r sector masnachol o fewn BBaChau[83] mae cyfle sylweddol posibl yn cael ei golli am nad oes cymhelliant i fusnesau sy'n defnyddio llai o ynni, ac nid ymdrinnir ag ef drwy gynlluniau benthyg â chyfnodau ad-dalu hir.

## Crynodeb o'r cyfiawnhad dros Amcanion Penodol

| Anghenion | Cyfleoedd Twf | Amcan Penodol (AP) |
|---|---|---|
| • Diffyg argaeledd cyllid preifat / diffyg benthyciadau banc<br>• Rhwystrau ychwanegol i ficro-gyllid | • Hanes o feithrin BBaChau twf uchel yng Nghymru<br>• Clystyrau arbenigeddau a sectorau allweddol yn dod i'r amlwg | (2.1) Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu |
| • Cyfradd geni busnes islaw gweddill y DU<br>• Rhwystrau yn wynebu busnesau newydd o hyd<br>• Lefelau entrepreneuriaeth cyffredinol islaw'r DU<br>• Menywod heb gynrychiolaeth ddigonol | • Lefelau cynyddol o entrepreneuriaeth yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad<br>• Modd adeiladu ar lwyddiant buddsoddiadau blaenorol<br>• Cryn botensial drwy fusnesau newydd twf uchel | (2.2) Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth. |

[81] *Finding Cost Savings: Resource Efficiency for SMEs*, Cynllun Gweithredu ar Wastraff ac Ailgylchu
[82] *Exploring the design of policies to increase efficiency of electricity use within the industrial and commercial sectors* (Tachwedd 2012), yr Ymddiriedolaeth Garbon ac SPA Future Thinking ar ran DECC
[83] *Engaging SMEs to improve their Energy Efficiency, A Market Appraisal* (2009), DECC

| | | |
|---|---|---|
| • Nid oes gan rai BBaChau yng Nghymru hyder yn eu gallu i nodi pa gynhyrchion neu wasanaethau cyfathrebu newydd a fyddai'n werthfawr i'w busnes<br>• Peth tystiolaeth o fusnesau'r DU ar ei hôl hi o gymharu â'u cymheiriaid rhyngwladol wrth ddigideiddio rhai swyddogaethau cefn swyddfa<br>• Lefel isel o e-fasnach a defnydd o TGCh gan fusnesau yn effeithio ar gynhyrchiant a thwf | • Tystiolaeth o effaith economaidd gadarnhaol band eang a band eang cyflymach<br>• Defnydd BBaCh o TGCh yng Nghymru yn debyg i'r DU gyfan mewn perthynas â sawl dangosydd<br>• Buddsoddiadau mawr mewn seilwaith TGCh ar waith yn creu cyfleoedd newydd | (2.3) Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau |
| • Mae ffigurau allforio yng Nghymru islaw cyfartaledd y DU a chânt eu dominyddu gan nifer fach o gwmnïau mawr<br>• Angen cymorth er mwyn cynyddu allforion BBaCh a chael mynediad i farchnadoedd newydd<br>• Rhwystrau'n parhau ar bob cam o dwf busnes (neu bob pwynt tyngedfennol)<br>• Angen cyngor wedi'i deilwra ar rai materion sy'n benodol i fentrau cymdeithasol (e.e. llywodraethu) er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau rhyngddynt a BBaChau confensiynol<br>• Angen cyngor ar | • Llwyddiant blaenorol ledled y DU ac yng Nghymru gyda chwmnïau twf uchel<br>• Clystyrau ac arbenigeddau sy'n bodoli eisoes wedi'u cefnogi drwy system arloesi gynyddol gref<br>• Allforion o Gymru yn cynyddu'n fwy na chyfartaledd y DU ers 1999<br>• Marchnadoedd domestig a thramor yn cynnig cryn gyfleoedd i gefnogi twf, yn enwedig y tu allan i'r UE<br>• Cyfleoedd i fanteisio ar y farchnad sylweddol a gynigir gan gaffael<br>• Mae Mentrau Cymdeithasol yn sector twf yng Nghymru, sydd â thraddodiad cryf o fentrau cymdeithasol a | (2.4) Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol) |

| | | |
|---|---|---|
| BBaChau er mwyn gwella eu heffeithlonrwydd ynni ac adnoddau, cystadleurwydd a chynhyrchiant, tra hefyd yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol | darparwyr ariannol gweithredol<br>• Cyfleoedd am effeithlonrwydd ynni er mwyn cefnogi twf gwyrdd drwy gamau gweithredu integredig, gan gyflawni canlyniadau lluosog a gwella cystadleurwydd | |
| • Rhwystrau i gyllid hyd yn oed yn fwy amlwg ym maes arloesedd a BBaChau arloesol<br>• Tystiolaeth o fethiannau'r farchnad ym maes cyllid arloesedd | • Cynhyrchiant a thwf busnes yn fwy tebygol ymhlith cwmnïau arloesol a'r cynhyrchion a'r prosesau a ddatblygir ganddynt.<br>• Arbenigo craff yn tanlinellu cyfleoedd penodol i dyfu | (2.5) Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau o Gymru gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu |

## Cwmpas

5.18 Prif amcan yr Echel Blaenoriaeth hon yw gwella cystadleurwydd BBaChau ym maes y rhaglen sy'n gyson ag Amcan Thematig 3 drwy hyrwyddo entrepreneuriaeth a gwella gallu BBaChau. Mae Blaenoriaeth Fuddsoddi o Amcan Thematig arall wedi'i chynnwys o ystyried sut mae'n berthnasol i gynyddu cystadleurwydd BBaCh a chysoni'r asesiad ex-ante yn seiliedig ar fethiannau a nodwyd yn y farchnad â gweithgarwch o dan yr Echel Blaenoriaeth hon. (1b) yw hon hyrwyddo buddsoddiad busnesau mewn arloesedd ac ymchwil ac ati.

5.19 Cyflawnir cyfran o'r cyllid ar gyfer arloesedd drwy Offeryn Ariannol, ac felly caiff ei chefnogi drwy'r Echel Blaenoriaeth hon er mwyn galluogi un gweithrediad sy'n helpu i ymdrin â methiannau'r farchnad o ran cael gafael ar gyllid ar gyfer BBaChau.

5.20 Mae cysylltiadau agos iawn rhwng yr Echel Blaenoriaeth hon ac Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd, gyda'r ddwy yn hanfodol er mwyn gwella cynhyrchiant a chefnogi twf busnes (a arweiniwyd yn draddodiadol gan BBaChau arloesol). Cynhaliwyd yr asesiad sy'n llywio'r Offeryn Ariannol yn y maes hwn ar sail methiant y farchnad i ddarparu cyllid, yn hytrach nag effeithiau ysgogi posibl ar Wariant Busnes ar ymchwil a datblygu (BERD). Felly, caiff ei gynnwys yn yr Echel Blaenoriaeth hon er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwnnw, er y disgwylir iddo fod yn weithgarwch ategol i gefnogi mwy o BERD (ynghyd â gweithgarwch dynodedig o dan Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd).

**Amcan Penodol 2.1:** Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu.

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

5.21 Awgryma tystiolaeth o'r arolwg mai dim ond 66% o BBaChau yng Nghymru a lwyddodd i gael gafael ar beth o'r cyllid roedd ei angen arnynt[84] o gymharu â thua 74% ledled y DU[85]. Awgryma data o'r Arolwg o Fusnesau Bach Cymru[86] mai micro fusnesau yng Nghymru sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf i gael gafael ar gyllid. Mae Arolwg BIS o Fusnesau Bach yn dynodi bod BBaChau yng Nghymru yn ei chael hi'n anos ar y cyfan i gael gafael ar gyllid na'u cymheiriaid yn Lloegr (e.e. ar gyfer y dangosydd canlyniadau mae'n methu â chael gafael ar unrhyw gyllid yng Nghymru ar gyfradd o 26%, o gymharu â dim ond 21% ledled y DU ac 20% yn Lloegr). Mae'n annhebygol y gwnaiff banciau ddychwelyd i'w lefelau benthyg a welwyd cyn yr argyfwng ariannol a gwelwyd bwlch mewn cyllid ecwiti[87].

5.22 Mae'r asesiad ex-ante o gyfleoedd ar gyfer Offerynnau Ariannol[88] yn nodi achos cryf dros fuddsoddi gwerth cyfalaf rhwng £120-160 miliwn (gan gynnwys twf hadau a cham cynnar).

5.23 Mae asesiad o'r farchnad wedi nodi i gychwyn fod potensial i gefnogi micro-fenthyciadau, benthyciadau a chyfalaf risg (er mwyn ehangu busnes). Mae gwaith asesu pellach yn nodi bod cyfleoedd i gyfuno hyn â buddsoddiadau hadau, cam cynnar a dilynol ychwanegol ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymchwil a datblygu; ymdrinnir â'r elfen hon o dan Amcan Penodol 5, ond byddai disgwyl i weithgarwch gael ei gydgysylltu'n ofalus, os nad ei gyflawni gyda'i gilydd.

5.24 Y dangosydd canlyniadau a ddefnyddir yw'r Swm a fuddsoddwyd mewn Cyfalaf Menter a Chyfalaf Ehangu, fel y'i mesurwyd gan adroddiadau blynyddol Cymdeithas Cyfalaf Menter Prydain. Mae'r lefelau a nodwyd gan yr adroddiad hwn yn cefnogi'r ddadl o ran methiant y farchnad yng Nghymru ac mae'r lefelau isel o fuddsoddiad yn golygu y bydd ffigurau yn hynod sensitif i fuddsoddiad ERDF. Er gwaethaf hyn mae mesurau eraill yn rhy swnllyd (e.e. ni fyddai'r asesiad o'r bwlch yn y farchnad fel rhan o'r asesiad ex-ante o fudd fel dangosydd canlyniadau).

## Dangosyddion canlyniadau

[84] *2012 Small Business Survey* (2013), BMG Research ar ran Llywodraeth Cymru
[85] *BIS Economics Paper No. 16: SME Access to External Finance* (Ionawr 2012), BIS
[86] *2012 Small Business Survey* (2013), BMG Research ar ran Llywodraeth Cymru
[87] *Ex Ante Assessment for the use of Financial Instruments*, Regeneris Consulting, heb ei gyhoeddi eto
[88] *Ibid.*

| Dangosydd | Uned fesur | Categori Rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth sylfaenol | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swm a fuddsoddwyd mewn Cyfalaf Menter a Chyfalaf Ehangu | GBP | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £18 m | 2012 | £26m-£27m | Dadansoddiad Cam Buddsoddi yn ôl Rhanbarth - Swm a fuddsoddwyd (DU), (Adroddiad Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter BVCA ar Weithgarwch Buddsoddi 2012) | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

5.25 Dylid rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i roi cyngor ac arweiniad arbenigol i Fentrau Cymdeithasol er mwyn galluogi rhai newydd a hyrwyddo twf lle dangoswyd bod bylchau yn y cymorth prif ffrwd a roddir i BBaChau.

5.26 Mathau o gamau i'w cefnogi:

- Cael gafael ar gyllid dyledion, ecwiti a mesanîn
- Cyfrwng buddsoddi micro-gyllid
- Cynlluniau cyllid busnes wedi'u teilwra (e.e. ar gyfer sectorau allweddol, ardaloedd daearyddol penodol neu fusnesau twf)

## Egwyddorion arweiniol

5.27 Bydd y cymorth a roddir o dan y Flaenoriaeth yn ystyried dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â sectorau allweddol, sy'n targedu peth cymorth wedi'i deilwra ar gyfer sectorau economaidd bwysig a thwf posibl (gan gynnwys y rhai sydd wedi dangos cryn dwf yn y gorffennol) yn ogystal â chynnig cyngor a gwybodaeth i bob busnes lle na cheir darpariaeth gan y sector preifat.

5.28 Bydd cymorth ariannol yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cyllid dyledion, ecwiti a mesanîn. O ystyried yr angen i allu teilwra cymorth, bydd angen dal gafael mewn darpariaeth er mwyn cefnogi pecynnau ad-daladwy neu grant eraill mewn amgylchiadau eithriadol a lle bo amodau economaidd yn galw am hynny. Mae tystiolaeth o werthusiadau effaith trawsffeithiol o gymorth a roddir i gwmnïau ledled yr UE[89] yn dynodi bod benthyciadau yn aml mor effeithiol â grant. Bydd y cam datblygu busnes hefyd yn ystyriaeth bwysig wrth bennu effeithlonrwydd dyrannu grant neu fenthyciad.

5.29 Gellir cynnig cyngor a gwybodaeth yn gyffredinol am gost gymharol isel drwy wefannau a llinellau cymorth dynodedig. Bydd y cymorth a'r buddsoddiad mwy manwl wedi'u teilwra ac yn dibynnu ar y canlynol: potensial y busnes i dyfu; cylch oes y busnes gan gydnabod "digwyddiadau critigol" twf busnes[90]; a bylchau yn narpariaeth y sector preifat.

5.30 O ystyried y cyllid cyfyngedig sydd ar gael mae achos dros dargedu cymorth arbenigol ar gyfer busnesau newydd sydd â photensial i gyflawni twf uchel; er y dylai hyn ystyried y ffaith bod y rhan fwyaf o'r swyddi a gaiff eu creu o fewn economi'r DU drwy ehangu busnes yn hytrach na chreu busnes felly bydd angen elfen o realaeth ynghylch potensial busnesau newydd i dyfu yn y byrdymor[91]. Awgryma hyn mai prif gyfraniad y rhaglen fuddsoddi hon fydd creu busnesau newydd, ond caiff twf swyddi yn y dyfodol ei fonitro hefyd drwy'r Arolwg o Fusnesau a gwerthusiadau.

5.31 Disgwylir mai dull gweithredu wedi'i dargedu a wnaiff sicrhau'r adenillion mwyaf ar fuddsoddiad. Bydd y dull gweithredu hefyd yn ategu Arbenigo Craff[92] sydd o blaid crynodi adnoddau ar ambell flaenoriaeth allweddol lle mae gan ranbarth gryfder penodol sy'n bodoli eisoes neu sy'n dod i'r amlwg, yn hytrach na lledaenu buddsoddiad yn rhy denau ar draws ystod eang o feysydd neu geisio meithrin adnoddau heb fod unrhyw allu mewndarddol.

5.32 Cydnabyddir[93] bod cyfle i annog y sector preifat i chwarae mwy o ran wrth ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, ond gellir dadlau bod gan y sector cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae yn y cyfamser. Cydnabyddir hefyd y gall mentrau cymdeithasol ei chael hi'n anodd cael gafael ar 'gymorth prif ffrwd' a bod angen iddynt gael cymorth mewn ffyrdd gwahanol neu wedi'u teilwra.

5.33 Ceisir cyflawni ategolrwydd, yn enwedig ar gamau cynnar entrepreneuriaeth, gyda buddsoddiadau yn debygol o dan yr ESF. Er enghraifft, dylai cymorth ESF helpu i ddileu rhwystrau i entrepreneuriaeth, fel sgiliau, tra defnyddir ERDF i ddarparu cyllid a chymorth er mwyn troi syniadau'n fusnesau.

---

89 *What are counterfactual impact evaluations teaching us about enterprise and innovation support?* (2012), Daniel Mouqué, DG Regio, y Comisiwn Ewropeaidd

90 *A review of the literature addressing the role of external knowledge and expertise at key stages of business growth and development* (2005), J. Bessant, B. Phelps ac R. Adams, Ysgol Reoli Cranfield.

91 *Job creation and destruction in the UK: 1998 to 2010* (2011), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

92 http://s3platform.jrc.ec.europa.eu/home

93 *Mid term evaluation of the Customer Engagement WG/EU project* (2012), Old Bell 3 a Phrifysgol Caerdydd

5.34 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Defnydd arfaethedig offerynnau ariannol

5.35 Hyd yn hyn, cynhaliwyd asesiad lefel uchel cychwynnol o addasrwydd Offerynnau Ariannol ar gyfer gwahanol elfennau'r rhaglen, ac ar gyfer y rhannau hynny a ystyriwyd yn addas ac yn flaenoriaeth uchel (h.y. cyllid BBaCh), cynhaliwyd asesiad o'r farchnad. Yn seiliedig ar hyn, mae cynigion manwl ar gyfer yr Offerynnau Ariannol yn cael eu paratoi a chânt eu hadolygu fel rhan o gamau olaf yr asesiad ex ante.

5.36 Hyd yn hyn, mae'r asesiad wedi nodi bod achos cryf dros weld y rhaglen ERDF yn darparu cyllid i BBaChau mewn ffordd integredig a chydgysylltiedig. Dylai hyn gwmpasu micro-fenthyciadau, benthyciadau a chyfalaf risg. Rhagwelir y caiff y mwyafrif o AP2.1 ei gyflawni drwy Offeryn Ariannol o'r fath.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cael grantiau* | Nifer | 160 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau* | Nifer | 235 | Data monitro | Chwarterol |
| Buddsoddiad mewn busnesau | GBP | 91,556,196 | Data monitro | Chwarterol |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer BBaChau - Dim grantiau* | EUR | 132,000,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | CALl | 2,300 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | Nifer | 190 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | Nifer | 190 | Data monitro | Chwarterol |

**Amcan Penodol 2.2:** Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth.

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

5.37 Mae'r sefyllfa fuddsoddi a'r rhesymeg dros fuddsoddi o ran entrepreneuriaeth, cyfraddau geni a chreu busnes wedi'u nodi yn strategaeth y rhaglen hon. Ledled Cymru cafodd 8,720 o fusnesau newydd eu cyfrif yn 2012 (data dros dro); mae hyn o gymharu â thua 8,225 o fusnesau newydd yn 2011. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd roedd y ffigur hwn yn 4,675 yn 2012 (dros dro), o gymharu â 4,850 yn 2011.

5.38 Ers 2009, mae mwy o fusnesau wedi cael eu dirwyn i ben nag sydd wedi cael eu sefydlu, gan arwain at leihad net o 3,140 yn nifer y busnesau gweithredol yng Nghymru. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd cafwyd lleihad net o 2,290 yn nifer y busnesau gweithredol dros yr un cyfnod, gan gynrychioli 73% o leihad net Cymru.

5.39 Dylai camau gweithredu a gefnogir nid yn unig gynyddu nifer y busnesau newydd yng Nghymru ond hefyd geisio gwella cyfraddau goroesi a chyflawni mwy o dwf ymhlith y busnesau hynny a gefnogir o gymharu â chyfraddau goroesi a thwf cyfartalog. Dylai hyn fod yn bosibl o ystyried y dylai'r cymorth sydd ar gael gynnwys cyngor sydd wedi'i deilwra a'i dargedu'n fwy ac felly sy'n berthnasol. Ystyrir yr effaith ar gyfraddau goroesi a thwf wrth werthuso'r elfen hon o'r rhaglenni, yn enwedig drwy'r arolwg busnes rheolaidd o BBaChau a gefnogir.

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned fesur | Categori Rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth sylfaenol | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrif genedigaethau busnesau newydd | Nifer | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 4,675 | 2012 | Cynnydd o 8% yn y gyfradd geni flynyddol | SYG (Demograffeg Busnesau) | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

5.40 Dylid rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i roi cyngor ac arweiniad arbenigol i Fentrau Cymdeithasol er mwyn galluogi rhai newydd a hyrwyddo twf lle dangoswyd bod bylchau yn y cymorth prif ffrwd a roddir i BBaChau.

5.41 Mathau o gamau i'w cefnogi:

- Cyngor a mentora i fusnesau newydd, gan ganolbwyntio ar fusnesau newydd â photensial i gyflawni twf uchel.
- Gweithgarwch entrepreneuraidd cyn dechrau (e.e. y gallu i brofi syniadau busnes neu gefnogi graddedigion a busnesau potensial mawr).
- Darparu cymorth penodol er mwyn creu mentrau cymdeithasol (gan gynnwys hyrwyddo modelau busnes arloesol) lle ceir tystiolaeth o fylchau mewn darpariaeth prif ffrwd

## Egwyddorion arweiniol

5.42 Bydd y cymorth a roddir o dan y Flaenoriaeth yn ystyried dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â sectorau allweddol, sy'n targedu peth cymorth wedi'i deilwra ar gyfer sectorau economaidd bwysig a thwf posibl (gan gynnwys y rhai sydd wedi dangos cryn dwf yn y gorffennol) yn ogystal â chynnig cyngor a gwybodaeth i bob busnes lle na cheir darpariaeth gan y sector preifat.

5.43 Gellir cynnig cyngor a gwybodaeth yn gyffredinol am gost gymharol isel drwy wefannau a llinellau cymorth dynodedig. Bydd y cymorth a'r buddsoddiad mwy manwl wedi'u teilwra ac yn dibynnu ar y canlynol: potensial y busnes i dyfu; cylch oes y busnes gan gydnabod "digwyddiadau critigol" twf busnes[94]; a bylchau yn narpariaeth y sector preifat.

5.44 O ystyried y cyllid cyfyngedig sydd ar gael mae achos dros dargedu cymorth arbenigol ar gyfer busnesau newydd sydd â photensial i gyflawni twf uchel; er y dylai hyn ystyried y ffaith bod y rhan fwyaf o'r swyddi a gaiff eu creu o fewn economi'r DU drwy ehangu busnes yn hytrach na chreu busnes felly bydd angen elfen o realaeth ynghylch potensial busnesau newydd i dyfu yn y byrdymor[95]. Awgryma hyn mai prif gyfraniad y rhaglen fuddsoddi hon fydd creu busnesau newydd, ond caiff twf swyddi yn y dyfodol ei fonitro hefyd drwy'r Arolwg o Fusnesau a gwerthusiadau.

5.45 Disgwylir mai dull gweithredu wedi'i dargedu a wnaiff sicrhau'r adenillion mwyaf ar fuddsoddiad. Bydd y dull gweithredu hefyd yn ategu Arbenigo Craff[96] sydd o blaid crynodi adnoddau ar ambell flaenoriaeth allweddol lle mae gan ranbarth gryfder penodol sy'n bodoli eisoes neu sy'n dod i'r amlwg, yn

[94] *A review of the literature addressing the role of external knowledge and expertise at key stages of business growth and development* (2005), J. Bessant, B. Phelps ac R. Adams, Ysgol Reoli Cranfield.
[95] *Job creation and destruction in the UK: 1998 to 2010* (2011), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
[96] http://s3platform.jrc.ec.europa.eu/home

hytrach na lledaenu buddsoddiad yn rhy denau ar draws ystod eang o feysydd neu geisio meithrin adnoddau heb fod unrhyw allu mewndarddol.

5.46 Cydnabyddir[97] bod cyfle i annog y sector preifat i chwarae mwy o ran wrth ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, ond gellir dadlau bod gan y sector cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae yn y cyfamser. Cydnabyddir hefyd y gall mentrau cymdeithasol ei chael hi'n anodd cael gafael ar 'gymorth prif ffrwd' a bod angen iddynt gael cymorth mewn ffyrdd gwahanol neu wedi'u teilwra.

5.47 Ceisir cyflawni ategolrwydd, yn enwedig ar gamau cynnar entrepreneuriaeth, gyda buddsoddiadau yn debygol o dan yr ESF. Er enghraifft, dylai cymorth ESF helpu i ddileu rhwystrau i entrepreneuriaeth, fel sgiliau, tra defnyddir ERDF i ddarparu cyllid a chymorth er mwyn troi syniadau'n fusnesau.

5.48 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | Nifer | 275 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau newydd sy'n cael cymorth* | Nifer | 5,150 | Data monitro | Chwarterol |
| Unigolion sy'n cael cymorth | Nifer | 14,350 | Data monitro | Chwarterol |
| Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd | Nifer | 7,300 | Data monitro | Chwarterol |
| Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | Nifer | 375 | Data monitro | Chwarterol |
| Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl | Nifer | 3,650 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | CALl | 8,800 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | Nifer | 2,710 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau | Nifer | 2,710 | Data monitro | Chwarterol |

97 *Mid term evaluation of the Customer Engagement WG/EU project* (2012), Old Bell 3 a Phrifysgol Caerdydd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | | | | |

## **Amcan Penodol 2.3:** Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau

### Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

5.49 Gan fod yr amcan penodol hwn yn canolbwyntio ar ddefnydd BBaCh o TGCh ac i ba raddau y maent yn manteisio arni, mewn theori byddai'n ddymunol llunio dangosydd canlyniadau sy'n disgrifio'r defnydd effeithiol o TGCh gan BBaChau. Fodd bynnag, er bod Arolwg y BIS o Fusnesau Bach yn darparu ffynhonnell reolaidd o ddata ar ddefnydd BBaChau o TGCh at amryw ddibenion, o ystyried natur anragweladwy datblygiadau TGCh, ni fyddai'n synhwyrol pennu targed ar gyfer defnyddiau penodol o TGCh pan y gall defnyddiau eraill ddod yn bwysicach wrth i'r dechnoleg ddatblygu ymhellach.

5.50 Gan fod *defnydd* hefyd yn rhan annatod o'r Amcan Penodol hwn, dewis amgen i bennu targed ar *sut* mae BBaChau yn defnyddio TGCh yw pennu targed ar ddefnydd BBaChau o fand eang cyflymach, yn enwedig y band eang cyflymach a ddarperir drwy'r buddsoddiad mewn seilwaith yn Echel Blaenoriaeth 4. Yn ddelfrydol, byddai'r dangosydd canlyniadau yn cyfeirio at ddefnydd BBaCh o fand eang ar gyflymder penodol, er enghraifft, 30 Mbps, a fydd ar gael i'r rhan fwyaf o eiddo busnes a phreswyl ar ôl cwblhau rhaglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf Cyflymu Cymru, neu 100Mbps, a fydd ar gael i fusnesau sydd am uwchraddio ymhellach.

5.51 Fodd bynnag, o ystyried y diffyg data ar ddefnydd BBaCh o fand eang ar gyflymderau penodol, datblygwyd dangosydd canlyniadau ar ddefnydd BBaCh o fand eang ffibr a chebl, y mathau o fand eang cyflymaf. Mewn arolwg o BBaChau a gynhaliwyd gan Ofcom yn 2014, nododd 8% o BBaChau eu bod yn defnyddio band eang ffibr a nododd 14% eu bod yn defnyddio band eang cebl. Er nad oes data ar dueddiadau ar gael mae'n rhesymol tybio y byddai defnydd yn cynyddu hyd yn oed heb unrhyw weithgarwch ysgogi galw wedi'i ariannu o dan yr Amcan Penodol hwn. Y targed ar gyfer yr Amcan Penodol hwn yw cynyddu lefelau defnydd i fwy na hanner BBaChau erbyn 2022.

5.52 Mae'r cynnydd disgwyliedig sy'n deillio o gymorth ERDF yn unig yn bum pwynt canran ychwanegol. Dylid nodi y disgwylid twf heb unrhyw ymyrraeth (a bydd rhywfaint o ganlyniad anuniongyrchol i weithgarwch ysgogi) felly byddai cyfanswm y cwmpas erbyn 2023 yn agosach i 55% pan gyfunir ERDF a thwf arferol disgwyliedig.

### Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned fesur | Categori Rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth sylfaenol | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnydd BBaCh o fand eang ffibr a chebl | % BBaChau | Cymru | 22% | 2014 | 27% | Communications Market Report: Wales (Ofcom) | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

5.53 Mae'r dangosydd canlyniadau ar gyfer AP2.3. yn darparu ffocws clir ar helpu BBaChau i achub ar gyfleoedd band eang cyflymach. Fodd bynnag, er mwyn annog BBaChau i wneud y buddsoddiad hwn, bydd angen i weithgarwch fod yn glir iawn ynghylch manteision busnes band eang cyflymach. Fel y nodwyd yn yr adran ar Strategaeth, nid oes gan rai BBaChau yng Nghymru yr hyder i nodi pa gynhyrchion neu wasanaethau cyfathrebu a fyddai'n werthfawr i'w sefydliad, sy'n tanlinellu'r ffaith bod angen cyngor ac arweiniad sydd wedi'i deilwra'n dda.[98] At hynny, mae tystiolaeth o Raglenni 2007-2013 yn awgrymu y gall mesurau codi ymwybyddiaeth fod yn ffordd effeithiol o annog busnesau i gyflwyno TGCh newydd.[99] Rhydd hyn beth llwyddiant y gellir adeiladu arno ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

5.54 Mae ymchwil wedi nodi llwybrau lle gall manteisio ar TGCh gael effaith economaidd. Mae hyn yn cynnwys twf mewn cynhyrchiant drwy fwy o arloesedd busnes, mwy o fasnach ryngwladol a thrwy delathrebu gan olygu y gellir defnyddio amser rhai gweithwyr mewn ffordd fwy cynhyrchiol[100]. At hynny, nodwyd bod 'cyfrifadura cwmwl' yn ffynhonnell bosibl benodol o effaith gadarnhaol band eang cyflymach[101]. Mae ymchwil hefyd wedi awgrymu y gall BBaChau y DU fod ar ei hôl hi o gymharu â'u cymheiriaid rhyngwladol wrth ddigideiddio rhai swyddogaethau cefn swyddfa[102]. Mae'r holl dystiolaeth hyn yn helpu i lywio gweithgarwch er mwyn annog BBaChau i fanteisio ar TGCh.

[98] *Communications Market Report: Wales* (2014), Ofcom
[99] *ERDF Business Survey* (2012), Old Bell 3 ar ran WEFO: Nododd 49% o'r busnesau a arolygwyd a ddywedodd fod ERDF wedi eu helpu i fabwysiadu TGCh fod hyn drwy gymorth ERDF yn eu gwneud yn ymwybodol o'r hyn a oedd ar gael.
[100] *UK Broadband Impact Study: Literature Review* (2012), SQW ar ran DCMS
[101] *Ibid.*
[102] *"This is for Everyone": The Case for Universal Digitization* (2012), Booz & Co. Dadansoddodd Booz & Co lefelau digideiddio cefn swyddfa mwy na 500 o BBaChau yn y DU, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Brasil. Cafwyd bod BBaChau o'r DU ar ei hôl hi o gymharu â'u cymheiriaid wrth ddigideiddio tair swyddogaeth busnes allweddol: *prosesau masnachol*, fel rheoli gwerthiannau a rheoli cydberthnasau â chwsmeriaid, *prosesau ariannol*, gan gynnwys cyllidebu, cynllunio, cyfrifyddu ac adrodd, a *phrosesau pobl*, gan gynnwys y gyflogres, rheoli buddiannau a threfniadau gweithio hyblyg.

Fodd bynnag, yn fwyaf pwysig efallai, bydd angen i weithgarwch ystyried amgylchiadau penodol BBaChau, yn ogystal â thechnolegau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Yn ogystal â chanolbwyntio ar fuddiannau band eang cyflymach, bydd hefyd angen i ymyriadau ymdrin ag unrhyw rwystrau i ddefnydd, gan gynnwys, er enghraifft, unrhyw ofnau diogelwch.

5.55 Gallai'r mathau o gamau gweithredu i'w cefnogi felly gynnwys cyfuniad o'r meysydd cymorth canlynol:

- Darparu gweithdai, clinigau a diagnosteg busnes un i un sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio band eang NGA a manteisio arno, gan bwysleisio'r buddiannau i BBaChau ond hefyd ymdrin ag unrhyw rwystrau i ddefnydd a manteisio effeithiol.

- Gellir ystyried y defnydd o dalebau arloesedd TGCh (fel y disgrifir ym Mhecyn Cymorth yr Agenda Ddigidol[103]), sy'n ddull effeithlon o gyrraedd microfusnesau a BBaChau.

## Egwyddorion arweiniol

5.56 Awgryma ymchwil[104] ei bod yn anodd nodi a thargedu cwmnïau "twf uchel" er bod bwriadau busnesau o ran twf yn cael effaith fawr ar b'un a wnânt dyfu[105]. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen hyblygrwydd o ran nodi'r potensial am dwf a bydd angen i'r cymorth dwys i fusnesau a nodwyd fel rhai â photensial i dyfu fod yr un mor hyblyg ac wedi'i deilwra i anghenion cwmnïau unigol. Gan gydnabod yr anawsterau sydd ynghlwm wrth nodi busnesau twf uchel mae peth ymchwil wedi awgrymu bod angen darparu negeseuon 'marchnata' ac astudiaethau achos cyffredinol ond gyda chynnwys sydd wedi'i gynllunio i ddylanwadu ar BBaChau 'parod'[106].

5.57 Awgrymodd Arolwg Busnes yr ERDF ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-2013, o ystyried effeithiau dadleoli posibl cymorth i fusnesau sy'n gweithredu'n bennaf mewn marchnadoedd lleol a thystiolaeth o'r arolwg nad oes cysylltiad cryf rhwng creu swyddi a'r busnesau lleiaf, gall fod achos dros sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar fusnesau sy'n cyflogi pum aelod o staff neu fwy.[107] Nid yw hyn i ddweud na fydd busnesau sy'n cyflogi llai na phum aelod o staff yn gymwys am gymorth twf ond bydd angen gwneud achos darbwyllol mewn amgylchiadau o'r fath.

[103] http://s3platform.jrc.ec.europa.eu/documents/10157/130815/Digital%20Agenda%20Tool%20Box%20v.13_CONSULTATION.pdf

[104] *Final Evaluation of Business Growth Programme* (2012), BMG, Wavehill Ltd a Hywel Evans & Associates ar ran Llywodraeth Cymru

[105] *ERC White paper: Growth and growth intentions* (2013), Levie ac Autio

[106] *Business Growth Ambitions Amongst SMEs* (2012), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Ymhlith yr enghreifftiau o fusnesau o'r fath a roddir yn yr adroddiad mae BBaChau sydd wedi lleihau mewn maint oherwydd y dirwasgiad ond sydd wedi goroesi, BBaChau sy'n pryderu am anawsterau i dorri drwy drothwy, yr "uchelgeisiol ond sydd heb baratoi", perchenogion / rheolwyr iau, perchenogion / rheolwyr sy'n barod i gymryd risgiau a BBaChau sy'n allforio, yn cynllunio i allforio.

[107] *ERDF Business Survey* (2012), Old Bell 3 ar ran WEFO

5.58 Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn fwy tebygol o geisio cymorth busnes arbenigol sydd wedi'i deilwra[108], er bod anghenion cymorth mentrau cymdeithasol yn eithaf tebyg i BBaChau eraill. Dylai gweithrediadau sy'n cynorthwyo BBaChau ystyried yn llawn yr amrywiaeth o heriau a rhwystrau gwahanol sy'n wynebu busnesau gwahanol ag amcanion a chyfansoddiadau cyfreithlon gwahanol ac ystyried teilwra dulliau cyflenwi a chymorth. Er gwaethaf hyn, gall mentrau cymdeithasol ei chael hi'n anodd cael gafael ar 'gymorth prif ffrwd' a bod angen iddynt gael cymorth mewn ffyrdd gwahanol neu wedi'u teilwra.

5.59 Dylai gwybodaeth a chyngor fod ar gael yn gyffredinol i bob BBaCh (er y bydd angen i ddyluniad yr ymyrraeth ystyried gofynion penodol sectorau allweddol neu fathau o BBaChau, fel mentrau cymdeithasol).

5.60 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus. Dylid rhoi sylw agos i natur sensitif mesurau cymorth sy'n anelu at hyrwyddo allforio a rhyngwladoli, yn enwedig gan fod cymorthdaliadau allforio yn gymorthdaliadau a waherddir o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd a'u bod wedi'u heithrio o gwmpas y Rheoliad *de minimis*.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2022) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | Nifer | 3,450 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni* | Nifer | 1,480 | Data monitro | Chwarterol |

[108] *Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru* (Hydref 2009), Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/regeneration/publications/110803socialmapping/?skip=1&lang=cy

## **Amcan Penodol 2.4:** Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol)

### Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

5.61 Mae'r adran ar Strategaeth yn nodi pwyntiau tyngedfennol y mae BBaChau yn eu cyrraedd lle mae angen mas critigol o wybodaeth a chymorth er mwyn camu ymlaen i'r cam twf nesaf. Y canlyniad a geisir ar gyfer ardal y rhaglen yw twf yn nifer y cyflogeion wrth i BBaChau dyfu. Mae cyflogaeth fel dangosydd ar gyfer busnesau a leolir o fewn ardal y rhaglen yn adlewyrchu'r budd o fewn ardal y rhaglen yn well na mesurau eraill o dwf fel nifer y busnesau neu drosiant. Nid oes data arall ar gael sy'n cynnig y lefel hon o fanylder.

5.62 Ceir nifer fawr o ficrofusnesau yn ardal y rhaglen ond unig fasnachwyr yw'r rhain yn aml, nad ydynt o reidrwydd am dyfu. Roedd micro fentrau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cyfrif am 95% o BBaChau yn ôl nifer yn 2013, ond dim ond 55% o gyflogaeth o fewn BBaChau a 40% o drosiant a gafwyd[109]. Hefyd, er i gyflogaeth mewn microfusnesau gynyddu 57,600 rhwng 2003 a 2013, cynyddodd y nifer wirioneddol o ficrofusnesau 48,500, gan awgrymu i'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn cyflogaeth ddeillio o greu microfusnesau yn hytrach na thwf. Mae hyn yn awgrymu, er bod rhan hanfodol o economi Cymru, gan gynnwys cyflogaeth o fewn microfusnesau yn y dangosydd canlyniadau, yn debygol o effeithio ar ganlyniadau, fod y cynnydd mewn cyflogaeth yn gysylltiedig â busnesau newydd, nid â thwf busnesau. Nodir yr elfen busnesau newydd yn y dangosydd canlyniadau ar gyfer AP2.2.

5.63 Fodd bynnag, mae busnesau bach a chanolig wedi gweld cynnydd mewn cyflogaeth o 34,700 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ers 2003 ynghyd â chynnydd net o 10,300 o fusnesau bach a chanolig. Dyma'r BBaChau lle mae'r cwmnïau twf naill ai'n bodoli eisoes neu lle bydd microfusnes arloesol yn ystyried newid iddo. Felly, cymerir yr is-set hon o'r data er mwyn ffurfio'r dangosydd canlyniadau, gan olygu y gellir amcangyfrif targed. Ni fydd hyn yn nodi unrhyw BBaChau sy'n tyfu i fod yn fusnesau mawr (dros 250 o gyflogeion), ond, os bydd y fath newidiadau yn digwydd, fe'u nodir gan waith gwerthuso. Dylai gwaith targedu sy'n seiliedig ar y potensial i dyfu a theilwra cymorth gefnogi mwy o dwf mewn cyflogaeth na dulliau gweithredu eraill.

### Dangosyddion canlyniadau

[109] *Size analysis of Welsh businesses 2013* (2013), Llywodraeth Cymru

| Dangosydd | Uned fesur | Categori Rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth sylfaenol | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth o fewn BBaChau bach (10-49 o gyflogeion) a chanolig (50-249) | Nifer mewn cyflogaeth | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 169,100 | 2013 | Cynnydd o 10% mewn niferoedd cyflogaeth | Dadansoddiad Maint o Fusnesau Cymru (Llywodraeth Cymru) | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

5.64 Er y dylai cymorth o dan AP2.3 fod ar gael yn gyffredinol o ystyried y potensial i fand eang sicrhau effeithiau cadarnhaol i bob busnes, ar gyfer AP2.4, mae gwaith targedu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y BBaChau hynny â photensial gwirioneddol i dyfu yn cael eu nodi fel bod twf cyflogaeth yn gynaliadwy, ac nid dim ond yn cyfrannu at gynhyrchiant is. Yn hyn o beth, dylai ymyriadau a ariennir o dan y ddau Amcan Penodol ategu ei gilydd.  Lle y nodir bod gan fusnesau botensial gwirioneddol i dyfu ond bod rhai rhwystrau TGCh i hynny, rhagwelir yr ymdrinnir â'r rhwystrau hyn fel rhan o'r cymorth a ariennir o dan AP2.4.  Os na all y cymorth hwn ymdrin yn llawn â'r problemau a wynebir gan rai busnesau yna dylent gael eu cyfeirio at gymorth a ariennir o dan AP2.3. Erys busnesau twf uchel[110], er yn fach mewn nifer, yn allweddol i lywio cynhyrchiant a chynyddu swyddi - mae'r DU yn cymharu'n dda yn rhyngwladol gyda 5.8% o fusnesau "twf uchel" o gymharu â'r UD (tua 5%) a'r Eidal (3%). Mae'n anodd iawn nodi'r busnesau hynny, yn enwedig pan gânt eu ffurfio gyntaf, ac mae angen bod yn hyblyg er mwyn nodi, targedu a chynorthwyo busnesau o'r fath.

5.65 Tynnodd y Gwerthusiad Canol Tymor o brosiect Cysylltu â Chwsmeriaid Llywodraeth Cymru sylw at gyfleoedd i ysgogi ymhellach gyfranogiad y sector preifat mewn cyngor ac arweiniad busnes ond cydnabu hefyd arwyddion methiant parhaus y farchnad wrth roi cyngor ac arweiniad i fusnesau yng Nghymru.

5.66 Awgryma ymchwil y gall rhaglenni sy'n defnyddio dull ymarferol 'broceru a reolir' berfformio'n well na'r rhai sy'n cymryd camau 'cyffyrddiad ysgafn', er y bydd y math hwn o raglenni yn anochel yn ddrutach a hyd yn hyn ni fu unrhyw

[110] Nifer o ddiffiniadau gwahanol, gan gynnwys yr OECD fel y rhai ag o leiaf 10 cyflogai ac sydd wedi profi twf ar gyfartaledd blynyddol o 20% dros gyfnod o dair blynedd

gymhariaeth o gost-effeithiolrwydd camau ymarferol o gymharu â chyffyrddiad ysgafn[111]. Lle bo ymyriadau yn cynnwys cymorth dwys, mae tystiolaeth yn awgrymu'n gryf y dylai gael ei deilwra, gan gymysgu elfennau ariannol ac anariannol priodol[112]. Mae tystiolaeth hefyd yn nodi pwysigrwydd cynllunio busnes fel ffactor sy'n gysylltiedig â thwf felly, lle bo'n gymwys, dylai gael ei ymgorffori mewn unrhyw gymorth[113]. Mae gan BBaChau nifer o bryderon yn ymwneud â cheisio cyngor a gwybodaeth sy'n cyfeirio at rai o fethiannau'r farchnad yn y maes hwn[114]. Mae a wnelo'r pryderon yn benodol â'r gost a'r amser sydd ynghlwm wrth gael cymorth busnes ffurfiol, methu ag ymddiried mewn cynghorwyr allanol, neu bryderon ynghylch p'un a fyddent yn deall y busnes, a hyder mewn gallu cael gafael ar gymorth priodol.

5.67 Gallai'r mathau o gamau gweithredu i'w cefnogi felly gynnwys cyfuniad o'r meysydd cymorth canlynol:

- Gwybodaeth a chyngor i fusnesau, fel cymorth sydd ar gael yn gyffredinol i bob BBaCh e.e. drwy wefannau a llinellau cymorth.
- Cymorth wedi'i deilwra ar gyfer busnesau sy'n bwysig i'r economi a busnesau twf, gan gynnwys Mentrau Cymdeithasol, er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i wella cynhyrchiant, er enghraifft: gwerthiannau, marchnata, datblygu cynnyrch, prisio a rheoli risg
- Cyngor a chymorth busnes wedi'u teilwra er mwyn mynd i'r afael rhwystrau i dwf, er enghraifft: materion adnoddau dynol, strategaeth, marchnata, modelau busnes, systemau, rheoli risg, effeithlonrwydd adnoddau, gwelliannau gweithredol, datblygu cynnyrch, cadwyni cyflenwi a dosbarthu.
- Darparu cymorth penodol er mwyn sicrhau datblygiad a thwf mentrau cymdeithasol (gan gynnwys hyrwyddo modelau busnes arloesol) lle ceir tystiolaeth o fylchau mewn darpariaeth prif ffrwd
- Meithrin capasiti, cyngor, arweiniad a chymorth er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu busnesau yng Nghymru i achub ar gyfleoedd caffael (yn cynnwys rhai rhyngwladol)
- Cymorth i ryngwladoli busnesau a chynyddu allforion, fel digwyddiadau broceriaeth a phartner, ffeiriau masnach, hyfforddiant, cwnsela/cyngor/mentora, costau sy'n ymwneud â chenhadaeth neu

[111] *Evidence Review: Business Advice* (2014) What Works Centre for local Economic Growth
[112] *Ibid. What are counterfactual impact evaluations teaching us about enterprise and innovation support?* (Rhagfyr 2012), Daniel Mouque, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Uned Gwerthuso Polisi Rhanbarthol a Threfol a Semester Ewropeaidd, y Comisiwn Ewropeaidd. *Mid Programme Evaluation of the Start Up Service*, ERS, Beaufort Research a Hywel Evans ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[113] *2012 Small Business Survey: Growth Special Report* (2013), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
[114] *Research to understand the barriers to take up and use of business support* (2011), Canolfan Ymchwil Menter a Datblygu Economaidd BIS

gymorth ariannol arall, ymchwil i'r farchnad neu wasanaethau gwybodaeth eraill.

- Cymorth ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a mesurau effeithlonrwydd ynni o fewn BBaChau, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i fuddsoddiad cysylltiedig, cefnogi newid mewn ymddygiad, cefnogi ymlediad technoleg ac arloesedd ac annog BBaChau i gynnal archwiliadau ynni

## Egwyddorion arweiniol

5.68 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod mai busnesau sydd yn y sefyllfa orau i gynghori busnesau eraill ac y dylai cymorth gael ei gaffael yn hytrach na'i ddarparu'n uniongyrchol gan y llywodraeth[115].

5.69 Awgryma ymchwil[116] ei bod yn anodd nodi a thargedu cwmnïau "twf uchel" er bod bwriadau busnesau o ran twf yn cael effaith fawr ar b'un a wnânt dyfu[117]. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen hyblygrwydd o ran nodi'r potensial am dwf a bydd angen i'r cymorth dwys i fusnesau a nodwyd fel rhai â photensial i dyfu fod yr un mor hyblyg ac wedi'i deilwra i anghenion cwmnïau unigol. Gan gydnabod yr anawsterau sydd ynghlwm wrth nodi busnesau twf uchel mae peth ymchwil wedi awgrymu bod angen darparu negeseuon 'marchnata' ac astudiaethau achos cyffredinol ond gyda chynnwys sydd wedi'i gynllunio i ddylanwadu ar BBaChau 'parod'[118].

5.70 Awgrymodd Arolwg Busnes yr ERDF ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-2013, o ystyried effeithiau dadleoli posibl cymorth i fusnesau sy'n gweithredu'n bennaf mewn marchnadoedd lleol a thystiolaeth o'r arolwg nad oes cysylltiad cryf rhwng creu swyddi a'r busnesau lleiaf, gall fod achos dros sicrhau bod cymorth yn canolbwyntio ar fusnesau sy'n cyflogi pum aelod o staff neu fwy.[119] Nid yw hyn i ddweud na fydd busnesau sy'n cyflogi llai na phum aelod o staff yn gymwys am gymorth twf ond bydd angen gwneud achos darbwyllol mewn amgylchiadau o'r fath.

5.71 Mae mentrau cymdeithasol hefyd yn fwy tebygol o geisio cymorth busnes arbenigol sydd wedi'i deilwra[120], er bod anghenion cymorth mentrau cymdeithasol yn eithaf tebyg i BBaChau eraill. Dylai gweithrediadau sy'n

[115] *Rhaglen Lywodraethu*, Llywodraeth Cymru
[116] *Final Evaluation of Business Growth Programme* (2012), BMG, Wavehill Ltd a Hywel Evans & Associates ar ran Llywodraeth Cymru
[117] *ERC White paper: Growth and growth intentions* (2013), Levie ac Autio
[118] *Business Growth Ambitions Amongst SMEs* (2012), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Ymhlith yr enghreifftiau o fusnesau o'r fath a roddir yn yr adroddiad mae BBaChau sydd wedi lleihau mewn maint oherwydd y dirwasgiad ond sydd wedi goroesi, BBaChau sy'n pryderu am anawsterau i dorri drwy drothwy, yr "uchelgeisiol ond sydd heb baratoi", perchenogion / rheolwyr iau, perchenogion / rheolwyr sy'n barod i gymryd risgiau a BBaChau sy'n allforio, yn cynllunio i allforio.
[119] *ERDF Business Survey* (2012), Old Bell 3 ar ran WEFO
[120] *Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru* (Hydref 2009), Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/regeneration/publications/110803socialmapping/?skip=1&lang=cy

cynorthwyo BBaChau ystyried yn llawn yr amrywiaeth o heriau a rhwystrau gwahanol sy'n wynebu busnesau gwahanol ag amcanion a chyfansoddiadau cyfreithlon gwahanol ac ystyried teilwra dulliau cyflenwi a chymorth. Er gwaethaf hyn, gall mentrau cymdeithasol ei chael hi'n anodd cael gafael ar 'gymorth prif ffrwd' a bod angen iddynt gael cymorth mewn ffyrdd gwahanol neu wedi'u teilwra.

5.72 Dylai gwybodaeth a chyngor fod ar gael yn gyffredinol i bob BBaCh (er y bydd angen i ddyluniad yr ymyrraeth ystyried gofynion penodol sectorau allweddol neu fathau o BBaChau, fel mentrau cymdeithasol).

5.73 Mae amrywiaeth o rwystrau yn effeithio ar y defnydd o fesurau effeithlonrwydd ynni ac adnoddau o fewn busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, gan gynnwys ei fod yn flaenoriaeth isel, diffyg arbenigedd, diffyg cyfalaf a dim achos cymhellol o ystyried y cyfnodau hir cyn y gwelir unrhyw fudd[121]. Bydd angen i gymorth ddangos methiant y farchnad ac ystyried y mentrau eraill yn y farchnad fel Bargen Werdd Llywodraeth y DU[122] neu unrhyw gynlluniau effeithlonrwydd ynni eraill. Nid yw gofynion ar gyfer archwiliadau ynni cwmnïau a nodir yn y Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni yn gymwys i BBaChau, ond gallai proses o'r fath fod o fudd iddynt. Gall hyrwyddo a chefnogi'r broses hon hefyd annog y newid mewn ymddygiad a geisir.

5.74 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus. Dylid rhoi sylw agos i natur sensitif mesurau cymorth sy'n anelu at hyrwyddo allforio a rhyngwladoli, yn enwedig gan fod cymorthdaliadau allforio yn gymorthdaliadau a waherddir o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd a'u bod wedi'u heithrio o gwmpas y Rheoliad *de minimis*.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2022) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cael grantiau* | Nifer | 40 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau* | Nifer | 330 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | Nifer | 13,650 | Data monitro | Chwarterol |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer | EUR | 4,320,000 | Data monitro | Chwarterol |

[121] *Exploring the design of policies to increase efficiency of electricity use within the industrial and commercial sectors (*Tachwedd 2012), yr Ymddiriedolaeth Garbon ac SPA Future Thinking ar ran DECC
[122] https://www.gov.uk/green-deal-energy-saving-measures

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| BBaChau - Grantiau* | | | | |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer BBaChau - Dim grantiau* | EUR | 6,600,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | CALI | 6,450 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynnydd mewn lefelau allforio | GBP | 167,100,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | Nifer | 8,700 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | Nifer | 8,700 | Data monitro | Chwarterol |

**Amcan Penodol 2.5:** Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu.

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

5.75 Nododd arolwg arloesedd y DU 2011 a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ym mis Mehefin 2013 fod 44.3% o gwmnïau arloesol sy'n ceisio cael cyllid yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny, o gymharu â 32.6% o gwmnïau eraill, ac nid oedd 37.8% o gwmnïau arloesol a geisiodd cael cyllid yn gallu cael unrhyw gyllid o gwbl (dwywaith yn fwy na'r 14% a nodwyd yn 2007/8)[123]. Mae diwylliant arloesi yn un o nodweddion cwmnïau twf uchel[124] sy'n dynodi y gallai targedu cwmnïau arloesol a chefnogi arloesedd drwy gyfalaf risg fod yn ddefnyddiol.

5.76 Y dangosydd canlyniadau a ddefnyddir yw'r buddsoddiad ecwiti cam cynnar, fel y'i mesurwyd gan adroddiadau blynyddol Cymdeithas Cyfalaf Menter Prydain. Mae'r lefelau a nodwyd gan yr adroddiad hwn yn cefnogi'r ddadl o ran methiant y farchnad yng Nghymru ac mae'r lefelau isel o fuddsoddiad yn golygu y bydd ffigurau yn hynod sensitif i fuddsoddiad ERDF. Er gwaethaf hyn mae mesurau eraill yn rhy swnllyd (e.e. ni fyddai maint y bwlch yn y farchnad a nodwyd fel rhan o'r asesiad ex-ante o fudd fel dangosydd canlyniadau). Yn yr un modd, nid oedd Arolwg Arloesedd y DU yn ddigon penodol.

5.77 Dylai gwerthusiadau gofynnol o Offerynnau Ariannol geisio nodi effaith fwy uniongyrchol cynlluniau mawr a ariennir gan yr UE yn erbyn y dadansoddiad o'r farchnad o fewn yr asesiad ex-ante.

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned fesur | Categori Rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth sylfaenol | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad ecwiti cam cynnar | GBP | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | £9m | 2012 | £12.5m-£16m | Dadansoddiad Cam Buddsoddi yn ôl Rhanbarth - Swm a fuddsoddwyd (DU), (Adroddiad | Blynyddol |

[123] *Credit and the crisis: Access to finance for innovative small firms since the recession* (Mehefin 2013), Neil Lee, Hiba Sameen a Lloyd Martin, Big Innovation Centre
[124] *Policies in support of high-growth innovative SMEs* (2011), y Comisiwn Ewropeaidd

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter BVCA ar Weithgarwch Buddsoddi 2012) | |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

5.78 Nododd yr asesiad ex-ante o gyfleoedd ar gyfer Offerynnau Ariannol[125] rôl bwysig ar gyfer cyllid o ran cefnogi'r gwaith o sefydlu cwmnïau uwch-dechnoleg, sicrhau eu twf cynnar a'u hehangu:

> *"There is clearly a strong case for publicly backed finance in Wales to support the commercialisation of R&D. The actions of Welsh Government and Finance Wales have played an important role in addressing the issue of market failure in the provision of finance, but also helping to stimulate R&D activity and the demand for finance to commercialise this.*
>
> *Given the experience of JEREMIE, we would expect there to be capacity for in the order of a total fund of £20-£40 million over a five year period (of which ERDF would be roughly 50%)."*

5.79 Arweiniodd yr asesiad o'r farchnad at argymhellion cychwynnol i gyllid prawf cysyniad barhau i gael arian grant ond ar gyfer buddsoddiadau had cam cynnar (rhwng £20,000 a £50,000) a dilynol (hyd at £100,000) fel offerynnau ariannol. Dylai buddsoddiadau cam cynnar gyrraedd rhwng £50,000 a £1 filiwn yn gyffredinol (gan gynnwys rhai dilynol).

5.80 Disgwylir i'r camau gweithredu a gefnogir gynnwys darpariaethau ar gyfer cael mynediad i gyllid risg-gyfalaf a chymorth i sefydlu a datblygu busnesau arloesol sy'n canolbwyntio ar ymchwil, megis cwmnïau deillio. Dylai hyn ategu unrhyw fuddsoddiadau o dan Amcan Penodol 1. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Cael gafael ar gyllid dyledion, ecwiti a mesanîn
- Cynlluniau cyllid busnes wedi'u teilwra (e.e. ar gyfer sectorau allweddol neu ardaloedd daearyddol penodol)

## Egwyddorion arweiniol

5.81 Bydd y cymorth a roddir o dan y flaenoriaeth yn ystyried dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â sectorau allweddol, sy'n targedu peth cymorth wedi'i

[125] *Ex Ante Assessment for the use of Financial Instruments*, Regeneris Consulting, heb ei gyhoeddi eto

deilwra ar gyfer sectorau economaidd bwysig a thwf posibl (gan gynnwys y rhai sydd wedi dangos cryn dwf yn y gorffennol).

5.82 Bydd cymorth ariannol yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cyllid dyledion, ecwiti a mesanîn. O ystyried yr angen i allu teilwra cymorth, bydd angen dal gafael mewn darpariaeth er mwyn cefnogi pecynnau ad-daladwy neu grant eraill lle bo amodau economaidd yn galw am hynny. Bydd y cam datblygu busnes hefyd yn ystyriaeth bwysig wrth bennu effeithlonrwydd dyrannu grant neu fenthyciad.

5.83 Bydd y cymorth a'r buddsoddiad wedi'u teilwra ac yn dibynnu ar y canlynol: potensial y busnes i dyfu; cylch oes y busnes gan gydnabod "digwyddiadau critigol" twf busnes[126]; a bylchau yn narpariaeth sector preifat.

5.84 Dylai gwaith targedu hefyd sicrhau bod pob buddsoddiad o dan Amcan Penodol 2.5 yn gyson â Strategaeth Arbenigo Craff Cymru fel y'i disgrifir o dan Echel Blaenoriaeth 1 (Ymchwil ac Arloesedd). Mae'r dull Arbenigo Craff[127] o blaid crynodi adnoddau ar ambell flaenoriaeth allweddol lle mae gan ranbarth gryfder penodol sy'n bodoli eisoes neu sy'n dod i'r amlwg, yn hytrach na lledaenu buddsoddiad yn rhy denau ar draws ystod eang o feysydd neu geisio meithrin adnoddau heb fod unrhyw allu mewndarddol.

5.85 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Defnydd arfaethedig offerynnau ariannol

5.86 Hyd yn hyn, cynhaliwyd asesiad lefel uchel cychwynnol o addasrwydd Offerynnau Ariannol ar gyfer gwahanol elfennau'r rhaglen, ac ar gyfer y rhannau hynny a ystyriwyd yn addas ac yn flaenoriaeth uchel (h.y. cyllid BBaCh), cynhaliwyd asesiad o'r farchnad. Yn seiliedig ar hyn, mae cynigion manwl ar gyfer yr Offerynnau Ariannol yn cael eu paratoi a chânt eu hadolygu fel rhan o gamau olaf yr asesiad ex ante.

5.87 Hyd yn hyn, mae'r asesiad ex-ante wedi dynodi bod achos cryf dros weld y rhaglen ERDF yn darparu cyllid i BBaChau mewn ffordd integredig a chydgysylltiedig. Yr argymhellion cychwynnol yw i gyllid prawf cysyniad barhau i gael arian grant ond i fuddsoddiadau had cam cynnar (rhwng £20,000 a £50,000**)** a dilynol (hyd at £100,000) gael eu cyflwyno drwy Offeryn Ariannol. Dylai buddsoddiadau cam cynnar gyrraedd rhwng £50,000 a £1 filiwn yn gyffredinol (gan gynnwys rhai dilynol).

[126] *A review of the literature addressing the role of external knowledge and expertise at key stages of business growth and development* (2005), J. Bessant, B. Phelps ac R. Adams, Ysgol Reoli Cranfield
[127] http://s3platform.jrc.ec.europa.eu/home

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth ariannol heblaw am grantiau* | Nifer | 90 | Data monitro | Chwarterol |
| Buddsoddiad mewn busnesau | GBP | 26,536,773 | Data monitro | Chwarterol |
| Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus ar gyfer BBaChau - Dim grantiau* | GBP | 23,760,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau sy'n cael cymorth* | CALl | 490 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni* | Nifer | 20 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | Nifer | 45 | Data monitro | Chwarterol |
| Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | Nifer | 45 | Data monitro | Chwarterol |

## Cydgysylltu Rhwng Y Cronfeydd, EAFRD, EMFF Ac Offerynnau’r Undeb Ac Ariannu Cenedlaethol Eraill

5.88 Mae rhaglenni ESI Cymru wedi'u dylunio i fod yn ategol ac mae rhaglenni ERDF yn rhannu dadansoddiad a strwythur, gan adlewyrchu’r heriau cyffredin ar draws Cymru gyfan.

5.89 Bydd y meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu prosiectau yn profi sut mae pob prosiect wedi ystyried ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael a'r cysylltiadau a wnaed â hwy. Anogir prosiectau yn arbennig lle gallant gyfrannu at flaenoriaethau ERDF ac offerynnau ariannu UE ehangach (e.e. Horizon neu LIFE) ar yr un pryd.

5.90 Mae'r adran hon yn nodi'r cysylltiadau â chronfeydd ESI, UE eraill a'r DU yn ôl Echel Blaenoriaeth, heb ddyblygu dulliau cydgysylltu na chysylltiadau â strategaethau macro-ranbarthol a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth.

5.91 Bydd buddsoddiadau ESF i uwchsgilio'r gweithlu, ymdrin â bylchau mewn sgiliau, a helpu unigolion i ddod yn barod am waith (gan gynnwys ymdrin â rhwystrau i waith) yn cefnogi cystadleurwydd a chynhyrchiant BBaChau. Bydd cefnogi sgiliau entrepreneuriaeth hefyd yn helpu i gyflawni'r amcan ERDF o gynyddu nifer y busnesau newydd. Ceisir ategu gwasanaethau cynghori busnesau a gweithgareddau dechrau busnes o dan raglenni EAFRD ac EMFF er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithlon a bod busnesau yn y sector ffermio a'r sector pysgodfeydd yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau cymorth a ariennir drwy ERDF.

5.92 Dylai cymorth busnesau newydd lle targedir sectorau twf allweddol hefyd ystyried y potensial i gysoni â Dechrau Busnesau Ewrop ar gyfer BBaChau TGCh, a gyflwynir fel rhan o Agenda Ddigidol Ewrop, Ewrop 2020.

5.93 Bydd y prif gysylltiad â ffynonellau ariannu eraill ynghlwm wrth ddarparu mynediad i gyllid, lle mae nifer o gynlluniau sy'n ceisio lleddfu pwysau ar BBaChau yn dod i'r amlwg; er enghraifft COSME ar lefel yr UE neu nifer o gronfeydd benthyciadau a chyfalaf menter penodol a ategir gan yr EIF.

5.94 Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio annog sefydliadau ariannol i fuddsoddi mewn BBaChau, er enghraifft drwy'r cynllun Cyllid ar gyfer Benthyca a'r Gwarant Cyllid Busnes. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn buddsoddi mewn cronfeydd masnachol, ochr yn ochr â'r sector preifat, ac mae hefyd yn datblygu cynigion ar gyfer Banc Busnes, er mwyn ariannu BBaChau. Mae cyfalafwyr menter ac angylion busnes hefyd yn brif ffynonellau cyllid o hyd, ond maent yn dueddol o ganolbwyntio ar ardal De-ddwyrain Lloegr.

5.95 Ceisir cydgysylltu mynediad at gyllid drwy drefniadau presennol ar gyfer cymorth BBaCh (e.e. y Siop Un Stop ar gyfer Cyngor Busnes). Bydd darpariaeth drwy'r ERDF yn destun asesiad o fethiant y farchnad, gan gynnwys ystyried ffynonellau ariannu eraill.

5.96 Mae cysylltiadau hefyd â Rhaglen Cyflogaeth ac Arloesedd Cymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd gyda mesurau sy'n targedu entrepreneuriaeth, creu busnes a darpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer mentrau cymdeithasol; er enghraifft gallai'r ERDF, ynghyd ag ESF, helpu i ddatblygu mentrau arloesol llwyddiannus sy'n gyson ag amcanion ERDF neu ESF.

5.97 Mae'r rhaglenni ETC y mae Cymru yn cymryd rhan ynddynt hefyd yn debygol o gynnwys elfennau sy'n ymroddedig i Gystadleurwydd BBaCh. Anogir cysylltiadau rhwng y rhaglenni, yn enwedig lle gallai ERDF helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno neu dreialu cymorth arloesol a nodir drwy ETC. Disgwylir i weithgareddau trawsgenedlaethol prif ffrwd fod yn is yn yr Echel Blaenoriaeth hon, er bod cyfleoedd i hyrwyddo cyfleoedd twf (er enghraifft wrth geisio mynediad i farchnadoedd newydd).

# 6. Echel Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

6.1 Rhoddir dadansoddiad a chrynodeb lefel uchel o anghenion a chyfleoedd allweddol sy'n arwain at ddethol yr Echel Blaenoriaeth hon yn Adrannau 1.1 ac 1.3 o'r Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU.

6.2 Mae Twf Gwyrdd a'r newid i economi carbon isel yn gyfle allweddol i gefnogi swyddi a busnesau ledled Cymru; yn enwedig o ystyried y swm sylweddol o asedau ac adnoddau naturiol, sylfaen ymchwil dda, arbenigedd technegol mewndarddol cryf a seilwaith ynni allweddol (gan gynnwys capasiti trawsyrru sylweddol y Grid Cenedlaethol[128]) sydd ar gael. Mae *Ynni Cymru* yn nodi strategaeth Cymru ar gyfer cydgysylltu camau gweithredu a chaiff adnoddau presennol eu hatgyfnerthu drwy glystyrau o fewn tair Ardal Fenter. Mae'r Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd yn nodi sut y bydd cymorth cysylltiedig ar gael ar gyfer ymchwil ac arloesedd ym maes carbon isel.

6.3 Mae asedau ac adnoddau naturiol[129] Cymru yn dynodi bod **twf mawr yn bosibl ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy** yn yr hirdymor. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i'r sectorau mwy datblygedig yn ymwneud yn bennaf ag Ymchwil ac Arloesedd er mwyn datblygu technolegau (e.e. gwynt a solar) ymhellach, efallai gan geisio denu cyllid gan rai o arweinwyr sefydledig y farchnad y tu hwnt i ardal y rhaglen.

6.4 Mae gan Gymru asedau allweddol sy'n bwysig i'r **sector ynni morol** datblygol lle ceir cyfle o hyd i sicrhau cyfran fwy o'r farchnad a gwireddu mwy o fuddiannau o fewn ardal y rhaglen, gan ddenu buddsoddiad i ardal y rhaglen. Hefyd, mae gan Gymru asedau seilwaith allweddol sy'n cynnig manteision dros diriogaethau eraill sy'n buddsoddi yn yr ardal hon fel: porthladdoedd dwfn; gridiau trawsyrru a dosbarthu sydd wedi'u cysylltu'n dda; arbenigedd busnes mewn busnesau a phrifysgolion; a chyflogwyr â gweithluoedd medrus a all fanteisio ar gyfleoedd cadwyni cyflenwi.

6.5 Nododd Pwyllgor Dethol Ynni a Newid Hinsawdd y DU[130] y gallai'r **diwydiant ynni adnewyddadwy morol** (llanw a thonnau) fod yn werth £3.7 biliwn i'r DU erbyn 2020 ac mae RenewableUK yn awgrymu bod disgwyl i'r diwydiant ynni morol (llanw a thonnau) fod yn werth £6.1 biliwn i economi'r DU erbyn 2035,

[128] *Marine Energy Infrastructure Study : Stage A - Industry Consultation and Concept Design* (Gorffennaf 2012), Halcrow
[129] Cryn dipyn o adnoddau gwynt (ar y tir ac ar y môr); cryn botensial o ran ynni tonnau a llanw (*Marine Renewable Energy Strategic Framework*, 2011); un o'r adnoddau solar gorau yn y DU; a lle am fwy o fiomas a hydro
[130] *The Future of Marine Renewables*. Ar gael yn: http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/energy-and-climate-change-committee/inquiries/the-future-of-marine-renewables-in-the-uk/

gan greu bron 20,000 o swyddi (heb gynnwys cyfleoedd allforio)[131]. O ystyried manteision cymaradwy Cymru mae potensial iddi ddod yn ffigwr bwysig yn y farchnad yn y maes hwn[132], er mewn egin-farchnad. Mae peth buddsoddiad preifat mewn **ynni morol** yng Nghymru yn dod i'r amlwg[133], ond mae angen gwneud llawer mwy o fuddsoddiad er mwyn dangos dichonoldeb masnachol atebion technoleg datblygol, yn enwedig drwy brofion mwy o faint er mwyn inni weld buddiannau yn cael eu gwireddu yn ardal y rhaglen (e.e. ymchwil a datblygu, gweithgynhyrchu, gweithredu a chynnal a chadw).

6.6 Yn Strategaeth **Blue Growth** y Comisiwn Ewropeaidd, tynnwyd sylw at y ffaith bod y sector ynni morol yn un o bum maes datblygol yn yr 'economi las' a allai helpu i greu swyddi mewn ardaloedd arfordirol. Mae mentrau eraill y Comisiwn, fel y ddogfen gyfathrebu ar Dechnolegau ac Arloesedd Ynni a Chynllun Gweithredu'r Iwerydd[134], wedi cydnabod pwysigrwydd ynni cefnfor ac yn anelu at annog cydymchwil a datblygu a chydweithredu trawsffiniol er mwyn hybu ei ddatblygiad. At hynny, mae dogfen gyfathrebu'r Comisiwn ar Ynni Glas yn ystyried y potensial i'r sector ynni cefnfor gyfrannu at amcanion Strategaeth Ewrop 2020.

6.7 Dim ond cyrraedd y camau profi y mae technoleg **llanw a thonnau**, ond mae'n agosáu at fasnacheiddio, gan ddynodi bod mwy o angen buddsoddi o bosibl (e.e. seilwaith, ymchwil, datblygu ac arloesedd, dangos modelau gwaith er mwyn gwneud cynlluniau'n fwy atyniadol i ddarpar fuddsoddwyr[135]). Mae clystyrau datblygol yn y gogledd a'r de-orllewin yn cynnig cyfleoedd penodol i ddatblygu'r sector ynni morol mewn ffordd sydd wedi'i thargedu. Er mwyn cadw a datblygu busnesau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â denu rhai newydd, mae angen inni sicrhau nad yw'r clystyrau hyn yn cael eu rhwystro gan ddiffyg safleoedd profi ymarferol â chaniatâd, cysylltedd a'r gallu i ddangos technoleg.

6.8 Ar 31 Rhagfyr 2011 roedd gan safleoedd a oedd yn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru gapasiti gosodedig o 929.4 MW[136]. Gall **cynlluniau ynni ar raddfa fechan** helpu i leihau allyriadau carbon ac ysgogi twf economaidd lleol (er enghraifft bydd model cymunedol cydweithredol yn fodd i ailfuddsoddi arian mewn cynlluniau cymunedol eraill[137]). Mae mynediad at gyllid yn dda (er yn ddarniog) yn achos cynlluniau bach ymarferol, ond mae angen dileu'r risg sy'n gysylltiedig â datblygu

[131] *Wave and Tidal Energy in the UK 2013: Conquering Challenges, Generating Growth* (27 Chwefror 2013), RenewableUK

[132] Mae clystyrau bach yn datblygu yn y de-orllewin a'r gogledd, ond bydd angen creu busnesau newydd a denu busnesau eraill i Gymru er mwyn sicrhau cyfran y farchnad.

[133] Er enghraifft Marine Current Turbines oddi ar arfordir Ynys Môn a Tidal Energy Ltd oddi ar arfordir Sir Benfro.

[134] COM(2013)279Final 13 Mai 2013: "Action plan for a Maritime Strategy in the Atlantic Area"

[135] Asesiad Anghenion Arloesedd Technoleg Ynni Morol Grŵp Cydgysylltu Arloesedd Carbon Isel (LCICG). Ar gael yn: http://www.lowcarboninnovation.co.uk/working_together/technology_focus_areas/marine/

[136] *Renewable electricity in Scotland, Wales, Northern Ireland and the regions of England in 2012* (Medi 2013), DECC)

[137] Er enghraifft ceir rhai astudiaethau achos yn: *Co-operative renewable energy in the UK: a guide to this growing sector* (2012), Rebecca Willis a Jenny Willis, The Cooperative Group

cynigion ar gam cynnar cyn y gallant ddenu cyllid. Mae'r asesiad ex-ante i lywio darpar Offerynnau Ariannol yng Nghymru ar gyfer 2014-2020[138]a'r canfyddiadau hyd yn hyn o Ynni'r Fro (cynllun ynni cymunedol wedi'i ariannu drwy ERDF) yn awgrymu nad cyllid cyfalaf mawr yw'r prif rwystr i gynlluniau lleol a chymunedol; yn wir mae marchnad gymharol orlawn ar gyfer cyllid o ran y gweithgarwch hwn. Eto i gyd, mae dal angen cyngor ac arweiniad ar grwpiau er mwyn ymdrin â'r rhwystrau hynny cyn cael caniatâd (ac felly fod ganddynt gynnig sy'n ariannol ymarferol).

6.9 Mae nifer o dechnolegau aeddfed ar gael i gefnogi mentrau carbon isel cymunedol a bach (e.e. gwynt, solar ffotofoltaig, hydro) ond mae'n ddrud mabwysiadu'r fath dechnoleg ac nid yw mor eang ag y gallai fod oherwydd ansicrwydd a achosir gan weithgarwch cam cynnar a chynllunio sy'n codi cwestiynau am ymarferoldeb masnachol a buddiannau. Mae angen dangos ymarferoldeb ar raddfa fach / cymunedol a chefnogi mesurau i gyflymu'r broses er mwyn helpu i sicrhau adnoddau preifat ychwanegol o fewn y modelau hyn.

6.10 Mae angen mynd i'r afael ag **effeithlonrwydd ynni gwael y rhan fwyaf o'r stoc dai** yng Nghymru. O gymharu â gweddill Ewrop mae stoc dai Cymru yn wael o ran ei heffeithlonrwydd ynni[139], mae cartrefi yn cyfrif am 29% o ddefnydd ynni terfynol y DU[140], ac mae llawer o gartrefi yng Nghymru yn wynebu problemau tlodi tanwydd[141]. Gwresogi cartrefi yw'r ffynhonnell fwyaf o ddefnydd ynni yn y sector tai[142]. Mae graddau'r her yn llawer mwy na'r arian sydd ar gael a bydd angen targedu adnoddau tra'n osgoi methu ag achub ar gyfleoedd i gyflawni arbedion maint neu gael cymorth hyblyg. Mae angen ymyrryd yn achos y cartrefi hynny ag incwm llai neu sy'n wynebu problemau amddifadedd, yn enwedig lle mae'r cymhelliant i fuddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni (er enghraifft drwy'r Fargen Werdd) yn llai clir gan nad ydynt yn elwa o filiau ynni is yn uniongyrchol, bod ganddynt hanes credyd gwael, neu nad oes ganddynt yr arian i dalu costau cysylltiedig ymlaen llaw. Bydd buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni nid yn unig yn arwain at leihad cost-effeithiol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond bydd yn creu cyfleoedd busnes a gwaith i lafur lleol.

6.11 Ceisir arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd â thargedu sy'n seiliedig ar y rhai â'r angen mwyaf ac yn gyson â phrif egwyddor drefniadol datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru (dull integredig sy'n ceisio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol). Dylai hyrwyddo a chefnogi newid ymddygiad fod yn rhan annatod o bob buddsoddiad, o ystyried y rôl allweddol y mae ymddygiad yn ei chwarae yn y defnydd cynaliadwy o ynni. Mae'r ardaloedd sy'n wynebu tlodi tanwydd fwyaf yng Nghymru yn dueddol o fod yn ardaloedd

[138] *Ex Ante Assessment for the use of Financial Instruments*, Regeneris Consulting, heb ei gyhoeddi eto

[139] Sgôr Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP) gyfartalog effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi yng Nghymru yw 50 (2008 i'w diweddaru ym mis Awst 2013).

[140] DECC Energy Consumption in the UK (2013)

[141] Nod Llywodraeth Cymru yw dileu tlodi tanwydd erbyn 2018, ond yn 2010 mae dros 23% (332,000) o gartrefi yng Nghymru yn wynebu problemau tlodi tanwydd: *Fuel Poverty Evidence Plan* (Mawrth 2012), Llywodraeth Cymru

[142] Energy Efficiency Policies and Measures in UK (2012), ODYSSEE MURE Prosiect Ynni Deallus Ewrop

a nodir fel rhai sy'n dioddef o sawl math o amddifadedd, yn ogystal â'r ardaloedd mwy gwledig ac ymylol (lle ceir mwy o ddibyniaeth ar ffynonellau eraill o danwydd fel olew)[143]. Felly, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnig dull posibl o helpu i dargedu effeithlonrwydd ynni mewn mesurau tai i gymunedau penodol lle gellir cael yr effaith fwyaf.

6.12 Bydd angen talu sylw agos i unrhyw gymorth ERDF ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn tai sy'n anelu at fynd i'r afael â phroblemau tlodi tanwydd er mwyn osgoi dyblygu â chynlluniau a mentrau presennol, yn arbennig unrhyw newidiadau deddfwriaethol a gyflwynir yn ystod cyfnod y rhaglen. Dylai targedu sy'n seiliedig ar dlodi tanwydd ac ardaloedd o amddifadedd helpu i liniaru hyn gan eu bod yn cynnwys cartrefi na allant gymryd rhan yn y cynlluniau benthyg sydd ar gael neu nad ydynt yn barod i wneud hynny.

6.13 Mae Cymru wedi datblygu **cadwyn gyflenwi effeithlonrwydd ynni** gynhwysfawr er mwyn achub ar y cyfleoedd a gynigir yn sgil hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn tai (er enghraifft roedd dros 80% o'r busnesau a gyflawnodd gam 1 o Arbed naill ai ond yn gweithredu yng Nghymru neu'n gweithredu'n bennaf yng Nghymru). Dylai'r busnesau hyn fod mewn sefyllfa i helpu i gyflawni cynlluniau ehangach, fel y Fargen Werdd ar draws y DU a chyfleoedd sylweddol i gael gafael ar gyllid Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO). Felly, ceir cyfleoedd sylweddol i'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru a allai gynyddu drwy fuddsoddiad cydategol (er enghraifft drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad i farchnadoedd newydd - fel achredu neu gydweithredu er mwyn creu consortia i achub ar gyfleoedd caffael - drwy flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh) yn y gadwyn gyflenwi er mwyn achub ar gyfleoedd mewn perthynas â dylunio, gweithgynhyrchu, dosbarthu, gosod a chynnal mesurau effeithlonrwydd ynni domestig a thechnolegau ynni adnewyddadwy.

## Crynodeb o'r cyfiawnhad dros Amcanion Penodol

| Anghenion | Cyfleoedd Twf | Amcan Penodol (AP) |
|---|---|---|
| • Ymchwil, technoleg, datblygu ac arloesedd yn angenrheidiol ar gyfer ymarferoldeb masnachol y sector ynni morol<br>• Diffyg buddsoddiad preifat fel egin-sector<br>• Angen safleoedd profi hygyrch, yn enwedig diffygion mewn seilwaith o amgylch porthladdoedd | • Mae Twf Gwyrdd a'r newid i economi carbon isel yn gyfle allweddol i gefnogi swyddi a busnesau ledled Cymru<br>• Digonedd o asedau ac adnoddau naturiol<br>• Sylfaen ymchwil dda<br>• Arbenigedd technegol mewndarddol cryf<br>• seilwaith ynni allweddol (gan gynnwys capasiti trawsyrru sylweddol y | (3.1) Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni adnewyddadwy a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol |

[143] *A Small Area Fuel Poverty Indicator for Wales* (Medi 2008), David Gordon ac Eldin Fahmy, Prifysgol Bryste. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/desh/policy/090129fuelpovertyreporten.pdf

| | | |
|---|---|---|
| | Grid Cenedlaethol)<br>• Lleoliad da porthladdoedd presennol<br>• Ardaloedd Menter ar Ynys Môn ac yn Nyfrfforddd y Ddau Gleddau | |
| • Angen dileu'r risg sy'n gysylltiedig â gwaith datblygu cam cynnar er mwyn dangos ymarferoldeb<br>• Diffyg gallu ac adnoddau grwpiau cymunedol<br>• Diffyg cyllid ar gyfer datblygiad cam cynnar cynigion prosiect ynni adnewyddadwy bach neu gymunedol cyn y gallant ddenu cyllid. | • Mae cynlluniau ynni bach yn helpu i leihau allyriadau carbon a gallant ysgogi twf economaidd lleol.<br>• Amrywiaeth o gymorth ariannol ar gael unwaith y datblygir cynlluniau (er yn ddarniog)<br>• Amrywiaeth o dechnolegau aeddfed ar gael | (3.2) Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir |
| • Effeithlonrwydd ynni gwael stoc dai Cymru<br>• Angen ymyrryd yn achos cartrefi â llai o incwm neu sy'n wynebu problemau amddifadedd<br>• Problemau tlodi tanwydd | • Cadwyn gyflenwi sy'n tyfu<br>• Potensial i ddefnyddio technoleg newydd<br>• Sector twf yng Nghymru a'r DU.<br>• Cyfleoedd ECO a'r Fargen Werdd ledled y DU<br>• Cyfleoedd i gynnwys sawl budd, gan gynnwys cynnwys y gymuned a newid ymddygiad | (3.3) Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd |

## Cwmpas

6.14 Mae'r Rhaglen Weithredol hon yn cynnwys tiriogaeth Extraregio (UKZZ) at ddibenion cynnwys gweithgarwch â dyfroedd tiriogaethol y DU yn gymwys am gymorth drwy'r Rhaglen Weithredol hon. Gwneir hyn er mwyn cefnogi uchelgeisiau ar gyfer datblygu sector ynni morol yng Nghymru, y bydd rhywfaint ohono yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith ac astudio amgylchedd y môr. Disgwylir i fudd economaidd y buddsoddiad hwnnw gael ei weld yn ardal y rhaglen a dylai'r cysylltiadau a gefnogir drwy'r rhaglen hon fod i ardal rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

6.15 Cefnogir Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd sy'n ymwneud â newid i economi carbon isel - gan gynnwys yr hyn sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni - o dan Echel Blaenoriaeth 1. Ffocws ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth hon yw cefnogi cyfres o fuddsoddiadau penodol y tu hwnt i Arbenigo Craff (sy'n ffocws i Echel Blaenoriaeth 1) mewn meysydd penodol o ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.

6.16 Mae'n bwysig cydnabod y gall ymchwil, datblygu technolegol ac arloesedd sy'n cefnogi ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni gael eu cefnogi drwy Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd o hyd, ar yr amod y gall ddangos arbenigo craff.

**Amcan Penodol 3.1:** Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

6.17 O ystyried mai ynni tonnau a llanw yw'r ffocws a fwriedir ar gyfer yr Amcan Penodol hwn, mae'n anodd dod o hyd i ddangosydd mor benodol (hyd ar oed ar lefel y DU). O'r data a gesglir yn rheolaidd yn y Digest of UK Energy Statistics (DUKES), mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion cysylltiedig hefyd yn cynnwys ynni adnewyddadwy o wynt (sydd eisoes yn farchnad sefydledig).

6.18 O'r dangosyddion hynny sydd wedi'u dadansoddi, mae data ond ar gael ar lefel y DU ac yn ymwneud naill ai â chapasiti gosodedig tonnau a llanw neu drydan a gynhyrchir o donnau a llanw. O ystyried nad yw pwyslais y flaenoriaeth fuddsoddi hon ar gynhyrchu trydan yn uniongyrchol, ond ar baratoi ar gyfer buddsoddiad preifat hirdymor sylweddol yn y sector, dewiswyd capasiti gosodedig gan ei fod yn ceisio canolbwyntio ar sicrhau'r capasiti (a'r gofynion cysylltiedig i wneud hynny).

6.19 Pennwyd targed yn erbyn y dangosydd hwn gan ei fod yn adlewyrchu canlyniad croniad disgwyliedig buddsoddiadau er mwyn gwneud buddsoddi mewn ynni morol a llanw Cymru yn fwy deniadol. Bydd ERDF yn gwneud maes yn fwy deniadol i fuddsoddwyr preifat, ond ni fydd yn gosod capasiti yn uniongyrchol (felly mae'n ddangosydd canlyniadau perthnasol). Mae'n ddigon posibl na welir y rhan fwyaf o'r effaith ddisgwyliedig ar y dangosydd hwn tan ar ôl y buddsoddiad yn y rhaglen; bydd angen i hynny ffurfio rhan o'r asesiad o effaith fel rhan o'r cynllun gwerthuso. Felly, mae'r fframwaith perfformiad yn ceisio nodi'r dull gweithredu hwn o ran camau gweithredu allweddol yn hytrach na chysylltu targedau meintiol ag amrywiaeth o weithgareddau gwahanol.

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Capasiti gosodedig mewn tonnau a llanw. | MW | Ledled y DU | 7 | 2012 | 20MW ychwanegol | Digest of UK Energy Statistics (tabl 6.4) | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

6.20 Mae'r Flaenoriaeth hon wedi'i chyfyngu i gefnogi ynni adnewyddadwy a thra bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ynni niwclear fel ffynhonnell ynni carbon isel, mae rheoliadau'r cronfeydd strwythurol yn gosod gwaharddiad penodol ar fuddsoddiad uniongyrchol mewn ynni niwclear.

6.21 Gall buddsoddiadau ymchwil a datblygu ac arloesedd sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni a meysydd eraill Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd a Her Fawr Llywodraeth Cymru gael eu hariannu drwy Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd, er y bydd disgwyl iddynt ystyried eu cysylltiadau ag Arbenigo Craff. Bydd Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd yn galluogi cymorth i ddatblygu a gwella ystod eang o dechnolegau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni lle ceir arbenigedd neu gyfle i ddwyn ynghyd fuddiannau o fewn maes y rhaglen (e.e. ffotofoltäig, gwynt ar y môr, celloedd tanwydd, adeiladau cynaliadwy ac ati). Gallai cymorth cyfyngedig ar gyfer seilwaith gwynt ar y môr gael ei gefnogi'n achlysurol drwy'r Flaenoriaeth hon lle mae'n rhannu gofynion â'r sector ynni morol (e.e. cyfleusterau ar y tir, mynediad, gweithrediad a chynnal a chadw).

6.22 Bydd BBaChau yn y sector Ynni a'r Amgylchedd yn gymwys i gael yr holl gymorth a chyllid busnes o dan flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh. Dim ond buddsoddiadau penodol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phrosiectau effeithlonrwydd ynni a ragwelir o ran datblygu'r sector a'r gadwyn gyflenwi drwy'r flaenoriaeth hon.

6.23 Bydd buddsoddiadau o dan y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sector ynni morol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ac ar alluogi datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy bach neu gymunedol. Dylai'r holl fuddsoddiadau hyn anelu at ddenu buddsoddiad ychwanegol i faes y rhaglen: buddsoddiad preifat mawr yn achos ynni morol; a chyllid o ddarparwyr prif ffrwd / preifat ar gyfer cynlluniau bach.

6.24 Gall y cymorth sy'n cyfrannu at yr Amcan Penodol hwn gael ei anelu at nifer o grwpiau targed yn y gadwyn gyflenwi arloesedd ynni morol, o sefydliadau ymchwil i BBaChau i Lywodraeth Leol neu unrhyw sefydliad arall. Yn diriogaethol, disgwylid buddsoddiadau ar hyd arfordir Cymru mewn ardaloedd a nodwyd â chysylltiadau â'r adnoddau a'r cyfleoedd penodol a nodwyd yn Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

6.25 O ystyried manteision cymaradwy Cymru mae potensial iddi ddod yn ffigwr bwysig yn y farchnad yn y maes hwn[144], er mewn egin-farchnad; cyfle nad yw ar gael mewn sectorau ynni adnewyddadwy eraill yng Nghymru, o ystyried aeddfedrwydd y sectorau hynny a'r gyfran o'r farchnad a sefydlwyd eisoes ar

[144] Mae clystyrau bach yn datblygu yn y de-orllewin a'r gogledd, ond bydd angen creu busnesau newydd a denu busnesau eraill i Gymru er mwyn sicrhau cyfran y farchnad.

gyfer gweithgynhyrchu, gweithredu a chynnal a chadw y tu hwnt i faes y rhaglen.

6.26 Mae peth buddsoddiad preifat mewn ynni morol yng Nghymru yn dod i'r amlwg[145], ond mae angen gwneud llawer mwy o fuddsoddiad er mwyn dangos dichonoldeb masnachol atebion technoleg datblygol, yn enwedig drwy brofion mwy o faint. Bydd dangos y rhain yn llwyddiannus ym maes y rhaglen yn helpu i sicrhau bod buddiannau economaidd yn cael eu gwireddu ym maes y rhaglen (er enghraifft ymchwil a datblygu, gweithgynhyrchu, gweithredu a chynnal a chadw).

6.27 Dim ond cyrraedd masnacheiddio y mae technoleg llanw a thonnau, gan ddynodi bod mwy o angen buddsoddi o bosibl (e.e. seilwaith, ymchwil, datblygu ac arloesedd, dangos modelau gwaith er mwyn gwneud cynlluniau'n fwy atyniadol i ddarpar fuddsoddwyr[146]).

6.28 Mae clystyrau newydd yn y gogledd a'r de-orllewin yn cynnig cyfleoedd penodol i ddatblygu'r sector ynni morol mewn ffordd sydd wedi'i thargedu. Er mwyn cadw a datblygu busnesau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â denu rhai newydd, bydd angen i'r clystyrau hyn gael mynediad i safleoedd profi ymarferol, gwell cysylltedd a gallu dangos technoleg yn llwyddiannus

6.29 Mathau o gamau i gefnogi'r gwaith o ddefnyddio technoleg ynni morol (llanw, tonnau a gwynt) fel rhan o ddatblygu'r sector yng Nghymru (AP1):

- Arloesedd a gwaith ymchwil a datblygu ym maes ynni morol sydd â photensial masnachol gan gynnwys prototeipiau, arddangoswyr a dyfeisiau ac araeau cyn fasnachol. Gall gynnwys amrywiaeth o weithgarwch yn arwain at hyn, gan gynnwys:
  - ymchwil gymhwysol,
  - dylunio,
  - gweithgynhyrchu,

- Cynyddu'r gallu i brofi dyfeisiau ynni morol oddi ar arfordir Cymru drwy fuddsoddiadau seilwaith wedi'u targedu a gwaith paratoi i ddileu rhwystrau, lleihau risgiau a chynyddu hyder buddsoddwyr. Dylai'r buddsoddiadau hyn anelu at annog y defnydd o ddyfeisiau morol rhagfasnachol ar gyfer gwaith profi ac arddangos. Er enghraifft:
  - paratoi safle
  - cyfleusterau ar y tir[147]

[145] Er enghraifft Marine Current Turbines oddi ar arfordir Ynys Môn a Tidal Energy Ltd oddi ar arfordir Sir Benfro.
[146] *Marine Energy Technology Innovation Needs Assessment (TINA)* (Awst 2012), Grŵp Cydgysylltu Arloesedd Carbon Isel (LCICG (LCICG). Ar gael yn: http://www.lowcarboninnovation.co.uk/working_together/technology_focus_areas/marine/
[147] Er enghraifft yr Astudiaeth o Seilwaith Ynni Morol Cymru (http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/renewable/marine/infrastructure-study/?skip=1&lang=cy). Dynododd anghenion gwahanol yn dibynnu ar yr ardal, ond angen cyffredinol i ddileu'r risg sy'n gysylltiedig â buddsoddiad preifat drwy seilwaith gan gynnwys: peirianwaith arbenigol; ardaloedd gosod i lawr a storio mawr ar gyfer gwaith gosod a

- cysylltiadau
- mynediad
- arolygon

- Cymorth i ddileu rhwystrau a helpu i ariannu dyfeisiau ac araeau profi ac arddangos yn rhannol.

## Egwyddorion arweiniol

6.30 Disgwylir i gynlluniau ategu gweithgarwch Rhaglen Ynni Cymru.

6.31 Bydd angen i achosion busnes ddangos methiant y farchnad yn glir a bod cyfleoedd cydfuddsoddi a synergeddau â rhaglenni cyllido eraill wedi'u hystyried yn llawn (er enghraifft cynlluniau'r DU, Cymru a Llywodraeth Leol neu fenthycwyr arbenigol, fel Triodos).

6.32 Dylai cynigion i fuddsoddi mewn ynni tonnau a llanw ddangos yn glir sut maent yn gweddu i ddatblygiadau a thwf technolegol ac yn rhoi cyfrif amdanynt yn y maes mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop, a dylai'r gweithrediadau ychwanegu gwerth at y rhain yn gyffredinol. Dylai'r cynigion hefyd nodi sut y gall Cymru wneud y gorau o fuddiannau economaidd yn yr hirdymor o fuddsoddiadau, gan gynnwys gweithgynhyrchu, gweithredu a chynnal a chadw, ac ymchwil ac arloesedd parhaus.

6.33 Dylai cynigion ynni morol hefyd ystyried y Datganiad Polisi Morol[148] a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a sicrhau cysondeb â hwy[149]. Dylid hefyd ystyried cysylltiadau ar draws cronfeydd ESI, gan gynnwys buddsoddi yn yr amgylchedd morol drwy raglenni EMFF ac ETC (yn enwedig rhaglen Iwerddon / Cymru), a chysylltiadau â'r sector Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd (e.e. cymorth ym meysydd Ymchwil ac Arloesedd, Cystadleurwydd BBaCh neu Sgiliau).

6.34 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

---

dosbarthu cyflym; comisiynu rhannau trydanol sych a gwlyb; hyd cei digonol / llithrfa lydan; mynediad i drafnidiaeth; ac ati.

[148] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69322/pb3654-marine-policy-statement-110316.pdf

[149] http://ec.europa.eu/environment/marine/eu-coast-and-marine-policy/marine-strategy-framework-directive/index_en.htm

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Capasiti ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy* | MW | 20 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynlluniau paratoi safle cymorth ynni | Nifer | 2 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | Nifer | 8 | Data monitro | Chwarterol |

**Amcan Penodol 3.2:** Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir.

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

6.35 Ar 31 Rhagfyr 2012 roedd gan safleoedd a oedd yn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru gapasiti gosodedig o 929.4 MW[150]. Daw'r rhan fwyaf o'r capasiti hwn o dechnoleg sy'n gysylltiedig â chymysgedd rhwng cynlluniau bach a mawr (e.e. mae gwynt a thonnau, solar a hydro yn cyfrif am dros 90% o gapasiti). Er nad oes data ar lefel graddfa fesul cynllun ar gael yn hawdd, dengys dadansoddiad o'r capasiti a'r cynhyrchiant rhanbarthol a nodwyd uchod fod gan Gymru 6% o'r capasiti cynhyrchu, ei bod yn cynhyrchu 5.5% o drydan y DU o ffynonellau adnewyddadwy, ac eto mae ganddi 6.8% o gyfanswm nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu trydan. Er bod cynhyrchiant yn seiliedig ar y gyfran o'r boblogaeth mae'n dynodi bod diffyg cynlluniau mawr o bosibl; fodd bynnag, mae nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn awgrymu bod galw am gynlluniau adnewyddadwy llai.

6.36 Mae diffyg data rheolaidd a dibynadwy sy'n berthynol i faint cynlluniau ynni adnewyddadwy wedi arwain at ddewis dangosydd canlyniadau ehangach, y bydd cynlluniau bach yn dylanwadu arno. Y dangosydd allweddol a ddewiswyd yw nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu trydan (heb gynnwys Ffotofoltäig) gan fod hyn yn fwyaf tebygol o gael ei ddylanwadu gan gynlluniau bach oherwydd caiff capasiti a'r swm o ynni eu llywio'n bennaf gan ychydig o gynlluniau mawr. Mae angen hepgor Ffotofoltäig oherwydd y nifer fawr o safleoedd unigol sydd wedi'u gosod â phaneli micro-gynhyrchu, gan effeithio ar y ffigurau (e.e. roedd 27,173 o safleoedd yn cynhyrchu o Ffotofoltäig yn 2012). Ystyrir bod hyn yn ddangosydd canlyniadau rhesymol gan mai dim ond ymdrin â methiant y farchnad ar gamau cynnar datblygu cynlluniau ynni bach neu gymunedol y bwriedir i gymorth ERDF ei wneud, nid sefydlu cynlluniau cyfan. Bydd ERDF yn ariannu'r gwaith o feithrin capasiti a gwaith datblygu cynnar er mwyn llunio cynlluniau ymarferol masnachol y gwnaiff y farchnad fuddsoddi ynddynt.

6.37 Bydd angen i'r broses o ddewis, monitro a gwerthuso prosiect sicrhau bod ERDF safleoedd sy'n cyfrannu at ddatblygu o faint rhesymol (e.e. mwy na ficro-gynhyrchu ac o fudd i o leiaf gymuned, ardal fwy o bosibl, cymuned fusnes neu ardal drefol).

---

150 *Renewable electricity in Scotland, Wales, Northern Ireland and the regions of England in 2012* (Medi 2013), DECC

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy (heb gynnwys PV) | Nifer | Cymru | 493 | 2012 | 530 | DUKES (DECC) :<br><br>Adroddiad Renewable electricity in Scotland, Wales, NI and regions of England | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

6.38 Mae'r Flaenoriaeth hon wedi'i chyfyngu i gefnogi ynni adnewyddadwy a thra bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ynni niwclear fel ffynhonnell ynni carbon isel, mae rheoliadau'r cronfeydd strwythurol yn gosod gwaharddiad penodol ar fuddsoddiad uniongyrchol mewn ynni niwclear.

6.39 Gall buddsoddiadau ymchwil a datblygu ac arloesedd sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni a meysydd eraill Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd a Her Fawr Llywodraeth Cymru gael eu hariannu drwy Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd, er y bydd disgwyl iddynt ystyried eu cysylltiadau ag Arbenigo Craff. Bydd Echel Blaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd yn galluogi cymorth i ddatblygu a gwella ystod eang o dechnolegau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni lle ceir arbenigedd neu gyfle i ddwyn ynghyd fuddiannau o fewn maes y rhaglen (e.e. ffotofoltäig, gwynt ar y môr, celloedd tanwydd, adeiladau cynaliadwy ac ati).

6.40 Bydd buddsoddiadau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sector ynni morol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ac ar alluogi datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy bach neu gymunedol. Dylai'r holl fuddsoddiadau hyn anelu at ddenu buddsoddiad ychwanegol i faes y rhaglen: buddsoddiad preifat mawr yn achos ynni morol; a chyllid o ddarparwyr prif ffrwd / preifat ar gyfer cynlluniau bach.

6.41 Mae'r asesiad ex-ante i lywio darpar Offerynnau Ariannol yng Nghymru ar gyfer 2014-2020[151] a chanfyddiadau cyfredol o Ynni'r Fro (cynllun ynni cymunedol wedi'i ariannu drwy ERDF) yn awgrymu bod eisoes gyflenwad da o gyllid cyfalaf, ond mae dal angen cyngor ac arweiniad ar grwpiau er mwyn ymdrin â'r rhwystrau hynny cyn cael caniatâd (ac felly fod ganddynt gynnig sy'n ariannol ymarferol).

6.42 Mae nifer o dechnolegau aeddfed ar gael i gefnogi mentrau carbon isel cymunedol a bach (e.e. gwynt, solar ffotofoltaig) ond mae'n ddrud mabwysiadu'r fath dechnoleg ac nid yw mor eang ag y gallai fod oherwydd ansicrwydd a achosir gan weithgarwch datblygu a chynllunio cam cynnar yn codi cwestiynau am ymarferoldeb masnachol a buddiannau. Mae angen dangos ymarferoldeb ar raddfa fach / cymunedol a chefnogi mesurau i gyflymu'r broses er mwyn helpu i sicrhau adnoddau preifat ychwanegol o fewn y modelau hyn.

6.43 Bydd cymorth yn canolbwyntio'n benodol ar fentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol lle byddai angen cymorth ychwanegol ar gamau cynnar datblygu prosiect er mwyn cyrraedd man lle mae buddsoddwyr eraill yn barod i fuddsoddi. Anogir yn arbennig gynlluniau lle maent yn ffurfio rhan o strategaethau Carbon isel ar gyfer ardal benodol, a bydd angen cymorth ychwanegol er mwyn cyflawni hyn o ystyried bod hyn yn gymharol newydd ac fel ymarfer ychwanegol.

6.44 Ymhlith y mathau o gamau a ragwelir mae'r canlynol:

- Meithrin capasiti ar gyfer grwpiau lleol
- Cyngor ac arweiniad ar sefydlu cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy bach
- Cefnogi cydweithio â datblygwyr ar gynlluniau a gefnogir gan y gymuned
- Buddsoddiadau sydd wedi'u teilwra i ymdrin â'r rhwystrau i gael cyllid ar gyfer cynlluniau bach a chymunedol gan gefnogi'r newid i garbon isel.
- Datblygu a gweithredu strategaethau carbon isel sy'n cefnogi dangos buddiannau ar gyfer ardal ddaearyddol benodol

## Egwyddorion arweiniol

6.45 Disgwylir i gynlluniau ategu gweithgarwch Rhaglen Ynni Cymru.

6.46 Bydd angen i achosion busnes ddangos methiant y farchnad yn glir a bod cyfleoedd cydfuddsoddi a synergeddau â rhaglenni cyllido eraill wedi'u hystyried yn llawn (er enghraifft cynlluniau'r DU, Cymru a Llywodraeth Leol neu fenthycwyr arbenigol, fel Triodos).

[151] *Ex Ante Assessment for the use of Financial Instruments*, Regeneris Consulting, heb ei gyhoeddi eto

6.47 Disgwylir i gynlluniau allu dangos graddfa (e.e. yn fwy na micro-gynhyrchu ac o fudd i gymunedau cyfan, rhanbarthau neu ardaloedd trefol). Dylai cynlluniau ynni bach a chymunedol sicrhau cysondeb a chydgysylltiad ag unrhyw gynigion yn Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru, yn arbennig pa gronfa a wnaiff gefnogi pa elfennau (o ran llinellau terfyn).

6.48 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol* | Nifer | 150 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni* | Nifer | 75 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y prosiectau peilot a gwblheir | Nifer | 4 | Data monitro | Chwarterol |
| Cynlluniau ynni cymunedol | Nifer | 37 | Data monitro | Chwarterol |

**Amcan Penodol 3.3:** Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

6.49 Mae'r dewis o ddangosyddion canlyniadau yn anodd gan fod anawsterau ynghlwm wrth gasglu a dadansoddi data perthnasol. Er enghraifft, gellir defnyddio defnydd ynni cartrefi i olrhain newidiadau byd-eang, ond mae nifer y cartrefi yn rhy fawr i allu cael effaith sylweddol. Hefyd, dim ond y defnydd o nwy a thrydan a nodir gan ddefnydd ynni, lle mae sawl rhan o Gymru wledig yn dibynnu ar ffynonellau eraill o danwydd.

6.50 Defnyddir dangosyddion tanwydd tlodi Llywodraeth Cymru i bennu grŵp targed mwy cyfyngedig a phenodol lle ceir yr angen mwyaf ac sy'n llai tebygol o gael mathau eraill o gymorth. Mae hyn hefyd yn cynnwys y defnydd o danwyddau eraill. Er mwyn pennu llinell sylfaen resymol, dewiswyd is-set benodol o dlodi tanwydd difrifol. Mae hyn yn cyfateb i gartrefi sy'n gwario 20% neu fwy o'u hincwm ar danwydd.

6.51 Gan fod tlodi tanwydd ei hun yn gallu dod o dan ddylanwad gormod o ffactorau eraill (e.e. prisiau ynni, chwyddiant, cyflogau, lefelau cyflogaeth ac ati), y targed cysylltiedig yw cynyddu graddau effeithlonrwydd ynni cyfran sylweddol o'r cartrefi hyn, gan gydnabod tystiolaeth bod y cartrefi hyn wedi'u cydnabod fel rhai â'r lefelau isaf o effeithlonrwydd ynni.

6.52 Dylai'r targed gael ei ystyried ochr yn ochr â'r cam ategol o dan raglen Dwyrain Cymru, o ystyried mai dim ond ar lefel Cymru gyfan y mae'r dangosydd ar gael. Dylai cyfran sylweddol o'r cartrefi hynny a gefnogir fod yn rhai sy'n wynebu tlodi tanwydd difrifol, ond ni ddylid colli cyfleoedd arbedion maint lle gallai strydoedd neu gymunedau gael budd o gamau gweithredu integredig. Cydnabyddir hefyd y gall fod yn anodd targedu tlodi tanwydd difrifol ond dylid defnyddio procsïaid rhesymol (e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr effeithlonrwydd ynni aelwydydd sy’n wynebu tlodi tanwydd difrifol | Nifer (%) | Cymru | 61,000 (4.81% o stoc dai Cymru) | 2010 | Cynydd du Perfformiad Ynni 2 radd ar gyfer 10% o'r llinell sylfaen | WEFO ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Dlodi Tanwydd | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

6.53 Mae Blaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh yn annog cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sector a'r gadwyn gyflenwi a dylai'r gefnogaeth a roddir i'r gadwyn gyflenwi effeithlonrwydd ynni gael ei hariannu drwy'r Flaenoriaeth honno lle ceir cyfleoedd twf realistig.

6.54 Ni wnaiff cynlluniau presennol (fel y Fargen Werdd) ymdrin ag achosion tlodi tanwydd yn y byrdymor oherwydd defnyddir arbedion i ad-dalu'r benthyciad (a llog) dros gyfnodau ad-dalu hir ac felly prin yw'r cymhelliant i'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd gymryd rhan. Mae graddau'r her yn llawer mwy na'r arian sydd ar gael ac mae angen i'r canlyniadau a geisir ar gyfer y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon gydbwyso'r angen am dargedu â dyhead i beidio â methu cyfleoedd i gyflawni arbedion maint neu gael cymorth hyblyg.

6.55 Bydd buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni nid yn unig yn arwain at leihad cost-effeithiol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond bydd yn creu cyfleoedd busnes a gwaith i lafur lleol. Mae Cymru wedi datblygu cadwyn gyflenwi effeithlonrwydd ynni gynhwysfawr er mwyn achub ar y cyfleoedd a gynigir hyd yma yn sgil hyrwyddo effeithlonrwydd ynni (er enghraifft roedd dros 80% o'r busnesau a gyflawnodd gam 1 o Arbed yn gweithredu yng Nghymru yn bennaf neu'n unig). Disgwylir adeiladu ar y cynnydd hwn a, lle bo angen, caiff camau ategol eu targedu o dan Flaenoriaeth 2 (Cystadleurwydd BBaCh).

6.56 Anogir cyfranogiad cymunedol fel elfen bwysig yn y gwaith o gyflawni mesurau i wella effeithlonrwydd ynni tai yn effeithiol.

6.57 Mathau o gamau i'w cefnogi:

- Mesurau arbed ynni ac effeithlonrwydd ynni mewn tai presennol. Dylid ystyried cyflawni buddiannau lluosog, gan wneud gwaith targedu priodol er mwyn cyflawni hynny, ac achub ar gyfleoedd i ddefnyddio cyllid ad-daladwy
- Cyngor a mesurau effeithlonrwydd ynni i annog newid ymddygiad
- Darparu seilwaith gwyrdd fel adeiladu toeon "gwyrdd" a waliau "gwyrdd" a chamau priodol eraill er mwyn lleihau'r defnydd o ynni a rheoli ynni yn fwy craff
- Cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio atebion TGCh er mwyn ateb heriau effeithlonrwydd ynni tai

## Egwyddorion arweiniol

6.58 Bydd angen i'r gwaith o gefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni ystyried mentrau eraill yn y farchnad fel Bargen Werdd Llywodraeth y DU[152], Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni[153], yn ogystal â'r lle i ddefnyddio cyllid ad-daladwy fel y bo'n briodol.

6.59 Mae graddau'r broblem yn awgrymu bod angen canolbwyntio ar y meysydd hynny lle ceir y methiant mwyaf yn y farchnad (er enghraifft y rhai y mae tlodi tanwydd yn effeithio arnynt fwyaf ac sydd leiaf tebygol o gymryd rhan mewn cynlluniau benthyg fel y Fargen Werdd) ac, ar yr un pryd, ystyried arbedion maint (e.e. lle gellir cwmpasu strydoedd neu gymunedau cyfan).

6.60 Dylai buddsoddiadau cronfeydd strwythurol fod yn ceisio cyflawni buddiannau lluosog ar yr un pryd ag ymdrin â methiant a nodwyd yn y farchnad. Bydd buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni nid yn unig yn arwain at leihad cost-effeithiol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond bydd yn creu cyfleoedd busnes a gwaith i lafur lleol. Dylai'r busnesau hyn gael eu hannog i ddatblygu ymhellach er mwyn bod mewn sefyllfa i helpu i gyflawni cynlluniau ehangach, fel y Fargen Werdd ar draws y DU.

6.61 Dylai mesurau arbed ynni ystyried y cwmpas i ddefnyddio arferion ecolegol gadarn a'r lle i ddefnyddio seilwaith gwyrdd.

6.62 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

[152] https://www.gov.uk/green-deal-energy-saving-measures
[153] https://www.gov.uk/energy-company-obligation

## Defnydd arfaethedig offerynnau ariannol

6.63 Ni fwriedir defnyddio Offerynnau Ariannol ar gyfer y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon o ystyried y ffaith bod cynlluniau benthyg fel y Fargen Werdd yn bodoli ar hyn o bryd. Ystyrir yr opsiwn i gyfrannu adnoddau at offeryn ariannol os bydd yr asesiad ex-ante o offerynnau ariannol yn nodi cyfle i ddefnyddio cyllid ad-daladwy (e.e. Cronfa Datblygu Trefol sy’n cefnogi effeithlonrwydd ynni fel elfen).

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni* | Nifer | 5,500 | Data monitro | Chwarterol |
| Gostyngiad amcangyfrifedig nwyon tŷ gwydr* | cyfwerth â thunelli CO2 | 10 | Data monitro | Chwarterol |

## Cydgysylltu Rhwng y Cronfeydd, EAFRD, EMFF Ac Offerynnau'r Undeb Ac Ariannu Cenedlaethol Eraill

6.64 Mae rhaglenni ESI Cymru wedi'u dylunio i fod yn ategol ac mae rhaglenni ERDF yn rhannu dadansoddiad a strwythur, gan adlewyrchu'r heriau cyffredin ar draws Cymru gyfan.

6.65 Bydd y meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu prosiectau yn profi sut mae pob prosiect wedi ystyried ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael a'r cysylltiadau a wnaed â hwy. Anogir prosiectau yn arbennig lle gallant gyfrannu at flaenoriaethau ERDF ac offerynnau ariannu UE ehangach (e.e. Horizon neu LIFE) ar yr un pryd.

6.66 Mae'r adran hon yn nodi'r cysylltiadau â chronfeydd ESI, UE eraill a'r DU yn ôl Echel Blaenoriaeth, heb ddyblygu dulliau cydgysylltu na chysylltiadau â strategaethau macro-ranbarthol a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth.

6.67 Ceisir cyfleoedd i gysylltu â'r EAFRD ac EFF o dan yr Echel Blaenoriaeth hon; er enghraifft drwy nodi cyfleoedd i gefnogi ynni adnewyddadwy ar raddfa fach ar y cyd rhwng yr EAFRD ac ERDF (e.e. EAFRD ar gyfer ymgysylltu cymunedol, micro-gynhyrchu a threialu; yna ERDF i fwyhau cynlluniau i lefel gymunedol). Disgwylir i'r cysylltiadau ag EMFF fod ynghlwm wrth botensial ynni morol, gyda mesurau EMFF ar gyfer gwaith rheoli a chynllunio gofodol morol yn ategu dyheadau ERDF i gefnogi'r gwaith o brofi ac arddangos technoleg ynni morol o fewn yr amgylchedd morol.

6.68 Bydd cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau a nodi unrhyw fylchau a allai gael eu hariannu gan brosiectau ESF hefyd yn gyswllt pwysig; naill ai drwy sicrhau hyblygrwydd mewn darpariaeth ESF brif ffrwd er mwyn cefnogi'r sector ynni, neu drwy gymorth sgiliau penodedig a arweinir gan alw.

6.69 Ar lefel y DU mae'r cronfeydd sydd ar gael yn cynnwys y Banc Buddsoddi Gwyrdd, amrywiaeth o gronfeydd o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, a chronfeydd dynodedig drwy'r Bwrdd Technoleg a Strategaeth. Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth a chymhellion yn ychwanegu rhagor o gymhlethdod at y dirwedd ariannu, gan gynnwys y Fargen Werdd a Thariffau Bwydo i Mewn.

6.70 Bydd asesiad o'r ffordd y mae unrhyw gynnig prosiect yn cydweddu i gyd-destun ffynonellau eraill o gyllid yn hanfodol er mwyn dangos gwerth ychwanegol a bydd yn rhan o'r broses o ddethol a blaenoriaethu prosiectau. Ceisir cyngor arbenigol lle nad yw methiant y farchnad neu gyfle penodol yn glir. Gall hyn fod ar ffurf cyngor mewnol (pan gysonir â pholisi ac offerynnau'r Llywodraeth) a chyngor allanol (asesiad technegol).

6.71 O ran cydweithredu rhyngwladol ceir cryn gyfle i ddatblygu sector ynni morol yn y gorllewin, gan geisio ychwanegu gwerth at weithgarwch tebyg sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill fel yr Alban a Chernyw. Hefyd, disgwylir i'r amgylchedd morol ac ynni morol chwarae rhan yn y rhaglenni ETC amrywiol y mae Cymru yn cymryd rhan ynddynt, a cheisir ategu'r rhaglenni hyn (gan

gydnabod y bydd yr ERDF yn llywio'r gweithgarwch hwn ar y cyfan). Dylai'r camau a gymerir geisio ategu amcanion rhaglen LIFE, yn benodol elfen CLIMA LIFE (neu brosiectau LIFE ENV). Anogir prosiectau a all ddangos eu bod yn cyfrannu at flaenoriaethau LIFE ac ERDF ar yr un pryd ac yn osgoi effeithiau negyddol ar brosiectau LIFE.

6.72 Efallai y ceisir cyllid EIB os yw'r asesiad ex-ante o Offerynnau Ariannol yn nodi cyfle i ddefnyddio cyllid ad-daladwy (e.e. Cronfa Datblygu Trefol sy'n cefnogi effeithlonrwydd ynni fel elfen).

# 7. Echel Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

7.1 Mae Cytundeb Partneriaeth y DU yn amlinellu pwysigrwydd buddsoddi mewn cysylltedd a datblygu trefol, yn enwedig ar gyfer y rhannau o'r DU sydd ar ei hôl hi ac yn fwy ymylol. Mae'r bennod ar Gymru yn tanlinellu sut mae effeithiau ymyloldeb a diffyg crynhoad o ganolfannau trefol mawr yn elfen allweddol o'r bwlch mewn cynhyrchiant yng Nghymru. Mae'r bennod ar y DU hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd y math hwn o fuddsoddiad ledled y byd a sut mae'r DU ar ei hôl hi mewn nifer o feysydd. Mae Cytundeb Partneriaeth y DU hefyd yn tynnu sylw at yr **Argymhellion sy'n Benodol i Wledydd y DU**, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anawsterau seilwaith allweddol sef un o'r prif argymhellion ar gyfer gweithredu, a chydnabyddir yn rheoliadau cronfa ESI fod cronfeydd ESI yn ffyrdd pwysig o helpu i gyflawni yn erbyn yr argymhellion hyn. Er bod y DU yn gweithredu, mae'r buddsoddiadau hynny â blaenoriaeth yn yr ardaloedd mwy canolog gyda'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar Lundain a'r ardal gyfagos, lle y gellir gwneud yr enillion economaidd mwyaf.

7.2 Mewn adroddiad diweddar mae'r OECD wedi cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith[154], ac mae Fforwm Economaidd y Byd hefyd wedi nodi pwysigrwydd a buddiannau buddsoddi mewn seilwaith[155]. Mae'r dystiolaeth o blaid buddsoddi yn sylweddol a cheir arwyddion clir bod rhanbarthau fel Cymru, sydd â heriau strwythurol a daearyddol ond llawer o'r rhag-amodau ar gyfer twf, yn rhanbarth a all gael budd gwirioneddol o'r fath fuddsoddi mewn seilwaith.

7.3 Yn ei Rhaglen Lywodraethu mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai dim ond yn y tymor hwy y gall ei hymyriadau gael effaith sylweddol ar economi Cymru. Dengys tystiolaeth mai **buddsoddi mewn cysylltedd a seilwaith galluogi** yw un o'r ddau 'ffactor sbarduno' pwysicaf (yn ogystal â buddsoddi mewn datblygu sgiliau) lle gall Llywodraeth Cymru helpu i drawsnewid yr

[154] Strategic Transport Infrastructure Needs to 2030, OECD International Futures Programme (2011). Er enghraifft mae'n disgrifio prif heriau ariannu cynlluniau o'r fath a'r buddiannau economaidd hirdymor. Mae'r adroddiad yn galw am fesurau cynhwysfawr er mwyn cefnogi'r datblygiad mewn seilwaith sydd ei angen, gan nodi "*Quality infrastructure is a key pillar of international competitiveness. It is trade-enhancing – especially for exports – and has positive impacts on economic growth*".

[155] Global Agenda Council on Infrastructure 2012-2014. Er enghraifft noda "*The costs of building infrastructure are vast, but the costs of failing to make such investments are incalculable. Improved infrastructure produces abundant benefits for the economy, environment and social progress. However, many countries, developing and developed, are facing significant infrastructure deficits, owing to growing populations, urbanization, changing demands and ageing assets*."

economi[156]. Felly lluniwyd '*Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*' er mwyn blaenoriaethu, cwmpasu a chydgysylltu'r gwaith o gyflawni buddsoddiadau mawr mewn seilwaith dros gyfnod o 10 mlynedd a bydd yn helpu i nodi meysydd lle ceir cyfleoedd i fuddsoddi.

7.4 Mae buddsoddi er mwyn gwella cysylltedd yn **rhagofyniad hanfodol ar gyfer llwyddiant hirdymor yr holl gronfeydd ESI eraill a'r holl Echelau Blaenoriaeth ERDF eraill**. Mae system drafnidiaeth dda yn helpu pobl i gael gwaith, yn cynyddu grymoedd cystadlu, yn hyrwyddo gwell effeithlonrwydd, ac yn cynyddu'r siawns o gydleoli a chlystyru[157]. Heb wella cysylltedd, efallai y bydd yr holl fuddsoddiadau ESI eraill sy'n helpu busnesau i dyfu neu'n gwella sgiliau a chyflogadwyedd y gweithlu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ond yn arwain at weld y gwerth ychwanegol hwnnw yn gadael ardal y rhaglen ac yn symud yn agosach i ganolfannau trefol allweddol Caerdydd neu Loegr. Er enghraifft bydd buddsoddiadau mewn ynni morol mewn ardaloedd ymylol; os na chaiff cysylltedd i'r ardaloedd hynny ei wella, efallai y collir cyfleoedd i gydleoli ymchwil a datblygu, prototeipio, adeiladu a gweithgynhyrchu i ardaloedd mwy hygyrch. Rydym am weld buddiannau buddsoddiadau ESI mewn pobl a busnesau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn aros yno - ond i gyflawni hyn mae angen gwella cysylltedd y rhanbarth ar frys. Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r buddsoddiad hwn, ond mae angen darparu cymaint o gyllid â phosibl ar gyfer yr amcanion hyn a gall yr ERDF barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr.

7.5 Gall gwella **seilwaith trafnidiaeth arwain at fwy o gystadleuaeth** i fusnesau lleol ac er y gall hyn gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol nad ydynt yn gystadleuol yn y byrdymor, yn yr hirdymor bydd yn gwella cystadleurwydd, cynhyrchiant a chyflogau BBaChau yn y rhanbarth. Ni ddylai diogelu busnesau nad ydynt yn gystadleuol fod yn rheswm i osgoi gwella cysylltedd os ydym o ddifrif am gefnogi datblygiad economi gystadleuol a blaengar sy'n masnachu'n rhyngwladol. Dylai buddsoddiad effeithiol mewn cysylltedd helpu i gadw busnesau cystadleuol a sgiliau arbenigol presennol a denu busnesau a gweithwyr medrus newydd i'r rhanbarth. Mae angen i fesurau sy'n trechu tlodi drwy wella cyflogadwyedd o dan yr ESF gael eu cefnogi drwy dwf cynaliadwy cyflogaeth yn yr ardaloedd hynny, a dim ond os ceir yr amgylchedd ffisegol cywir i gynnal busnesau a chyflenwi llafur y gellir gwneud hynny.

7.6 Un o fanteision allweddol gwell cysylltedd yw galluogi mwy o bobl i gael mynediad i ystod ehangach o swyddi a chynnig marchnad lafur ehangach i fusnesau. Mae **ardaloedd teithio i'r gwaith yng Nghymru** wedi bod yn tyfu o ran maint (ac yn lleihau o ran niferoedd) wrth i bobl deithio ymhellach ac ymhellach i'r gwaith gyda llai o deithiau byr a mwy o rai hwy[158]. Mae

[156] *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* (2010), Llywodraeth Cymru. Ymhlith y ffactorau sbarduno eraill mae cymorth busnes wedi'i dargedu, annog arloesedd a gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes

[157] *Going for Growth*, OECD, ac *Understanding productivity variations between Wales and the rest of the UK*, Llywodraeth Cynulliad Cymru

[158] Data o Gyfrifiad 2011 nad yw ar gael tan 2015, ond nodwyd y duedd ers 1981. Gweler http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/geography/beginner-s-guide/other/travel-to-work-areas/index.html

**patrymau cymudo** yng Nghymru yn dynodi bod llifau sylweddol ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol a cheir sawl canolfan gyflogaeth ledled Cymru[159]. Er gwaethaf natur ymylol y gorllewin, yr Awdurdodau Lleol mwyaf gorllewinol hynny (e.e. Gwynedd, Ceredigion a Sir Benfro) yw'r unig diriogaethau heblaw am Abertawe a Chaerdydd i ddangos mewnlif net o gymudwyr[160]. Mae hyn yn awgrymu bod ffocws posibl ar gyfer buddsoddiad o fewn y ddau Ddinas-ranbarth ac yn rhannau gorllewinol rhwydweithiau TEN-T Cymru.

7.7 Er gwaethaf y lluosganolrwydd a nodir yn y ddau Ddinas-ranbarth yng Nghymru, gyda chymudo ar draws y rhanbarth gyfan, gwelir defnydd llawer uwch o drafnidiaeth carbon isel yn yr ardaloedd hynny (e.e. mae 22% o gymudwyr yn Ninas-ranbarth Caerdydd yn defnyddio'r trên, y bws, yn cerdded, yn seiclo neu'n defnyddio math arall o drafnidiaeth) na rhannau eraill o Gymru. O gymharu â Dinas-ranbarthau eraill sydd â thrafnidiaeth gyhoeddus dda, mae potensial i gynyddu hyn ar gyfer y Dinas-ranbarthau hynny (o ystyried y twf disgwyliedig a'r capasiti cyfyngedig)[161].

7.8 Mae llifau cymudo yn hynod amlwg o amgylch y ddau **Ddinas-ranbarth** yng Nghymru (Caerdydd / Casnewydd ac Abertawe) gyda llifau sylweddol rhwng Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd[162]. Byddai gwelliannau sylweddol mewn trafnidiaeth gynaliadwy a gwell cysylltedd yn galluogi'r rhanbarthau i fanteisio'n briodol ar yr effeithiau crynhoad posibl a nodwyd mewn dinas-ranbarthau eraill ledled y DU ac Ewrop. Gellir ond cyflawni'r cynnydd parhaus disgwyliedig mewn cymudo yn gynaliadwy drwy fuddsoddi yn effeithiolrwydd, ymarferoldeb a fforddiadwyedd dewisiadau amgen gwirioneddol i deithio preifat. Ceir hefyd gyfleoedd i gynyddu cyfraddau cludo nwyddau mewn ffyrdd mwy cynaliadwy (e.e. rheilffordd) tra hefyd yn gwella symudedd y farchnad lafur.

7.9 Mae **rhwystrau trafnidiaeth i gael gwaith** yn dal i fod yn broblem fawr ledled Cymru, gydag ymatebwyr i Arolwg yr ESF o'r Bobl a Adawodd 2011[163] a oedd allan o waith cyn cymryd rhan yn nodi'r canfyddiad bod diffyg swyddi priodol yn yr ardal lle roeddent yn byw (65%), ac anawsterau / rhwystrau trafnidiaeth yn gysylltiedig â chael gwaith priodol (23%) ymhlith y rhwystrau allweddol i gael gwaith.

7.10 Yn arbennig mae gan weithwyr llai medrus lai o fynediad i drafnidiaeth breifat[164], llai o symudedd gofodol, ac felly lai o gyfleoedd i gael gwaith mewn

---

[159] Er enghraifft dangosodd dadansoddiad o gymudo yn y de (diagram wedi'i gynnwys yn y bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU) mai dim ond 59-75% o'r boblogaeth weithio a oedd yn dod o'r un Awdurdod Lleol â'r man gwaith, gan olygu bod 25-41% o'r boblogaeth weithio gyfan yn cymudo ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol. Mae hefyd yn dangos nad i ardaloedd Dinas Caerdydd a Chasnewydd yn unig y mae cymudo yn y de yn digwydd

[160] Mapiau rhyngweithiol o lifau cymudo yng Nghymru: http://data.wales.gov.uk/apps/commuting/

[161] Cynhaliwyd amrywiaeth o waith dadansoddi o ardal Dinas-ranbarth Caerdydd / De Cymru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cysyniad o Fetro. Ceir rhagor o wybodaeth yn: http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/metro/?lang=en

[162] *Statistical Bulletin: Commuting in Wales* (2011), Llywodraeth Cymru

[163] *ESF Leavers Survey 2011* (2013), WISERD (Prifysgol Caerdydd) et al

[164] *National Travel Survey* (2011), yr Adran Drafnidiaeth. Yn defnyddio data 2009.

lleoliadau sy'n llai hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus[165] (ac mae swyddi llai medrus yn mynd yn fwy prin mewn canolfannau trefol[166]). Felly mae angen i weithwyr llai medrus gael **trafnidiaeth gyhoeddus dda** er mwyn achub ar gyfleoedd gwaith.

7.11 Mae'r **defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu** yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd trefol mwy o faint lle mae'n cynnig dewis amgen ymarferol i deithio preifat. Mae'r defnydd o'r system reilffordd wedi cynyddu'n sylweddol, o ran nifer y gwasanaethau a gaiff eu rhedeg ac o ran nifer y teithwyr. Gwnaed tua 28 miliwn o deithiau ar y rheilffordd a ddechreuodd neu a orffennodd yng Nghymru yn 2011-12; cynnydd o 3 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Caerdydd oedd cyrchfan bron dwy ran o bump (39 y cant) o'r teithiau yng Nghymru[167]. Ceir rhwystrau penodol sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardaloedd trefol hynny o hyd gyda chyfyngiadau o ran capasiti yn dod i'r amlwg[168] a diffyg gwasanaeth neu reoleidd-dra gwasanaeth yn atal newid moddol i'r rhai sy'n teithio i ardaloedd trefol â thagfeydd mewn cerbyd preifat. Er enghraifft, er bod 91% o bobl dros 16 oed o fewn 15 munud o amser gyrru i ganolfan allweddol, dim ond 26% sydd â'r un lefel o hygyrchedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynyddu i ond 68% mewn 30 munud - yr un peth â seiclo[169].

7.12 Felly, gallai'r materion penodol a allai fod yn fuddsoddiadau â blaenoriaeth ym maes trafnidiaeth gyhoeddus drwy'r ERDF ymwneud â **mynd i'r afael â chyfyngiadau o ran capasiti i ganolfannau trefol allweddol, yn enwedig lle gellir ategu newid moddol**. Gellid rhoi pwyslais penodol ar gynyddu gwasanaethau (naill ai gwasanaethau newydd neu wasanaethau mwy rheolaidd a hygyrch) er mwyn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol ac ategu newid moddol, a thrwy hynny leihau'r tagfeydd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ffordd yn yr ardaloedd hynny. Byddai angen i hyn gael ei ategu gan weithgarwch er mwyn ysgogi galw, annog peidio â theithio ar y ffordd a dileu rhwystrau (e.e. tocynnau craff). Dylid hefyd ystyried atebion arloesol i fynd i'r afael â diffygion daearyddol penodol yn y rhanbarth (e.e. anhawster i deithio rhwng ardaloedd y Cymoedd yn y de) (e.e. atebion aml-foddol). Mae Cynlluniau Symudedd Trefol Cynaliadwy'r UE[170] yn nodi arfer da wrth ateb yr heriau hyn ac mae gan Systemau Trafnidiaeth Deallus[171] rôl allweddol i'w chwarae hefyd, gan gymhwyso technolegau gwybodaeth a chyfathrebu i drafnidiaeth er mwyn ei gwneud yn fwy effeithlon, glân, diogel a di-dor.

7.13 **Fodd bynnag, cerbydau preifat yw'r prif ddull cymudo o hyd** yng Nghymru gydag wyth o bob 10 taith i'r gwaith yn cael ei gwneud mewn car (y gyfran fwyaf o bobl sy'n teithio i'r gwaith mewn car o blith unrhyw ranbarth neu

165 *Transport and Social Inclusion. Have we made the connections in our cities?* (2010), PTEG
166 *Moving on up, moving on out? Overcoming the jobs-skills mismatch* (July 2011), Lena Tochtermann a Naomi Clayton, Centre for Cities
167 *Annual Report: Rail transport, 2012* (Tachwedd 2013), Llywodraeth Cymru
168 Er enghraifft i weld y dadansoddiad sy'n llywio cynigion ar gyfer Metro De Cymru: http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/metro/?lang=en
169 *Monitoring the National Transport Plan, Update 2012* (24 Medi 2013), StatsCymru
170 http://www.mobilityplans.eu/11
171 http://ec.europa.eu/transport/themes/its/index_en.htm

wlad ym Mhrydain Fawr)[172]. Mae'r defnydd o geir yn hynod bwysig yn yr ardaloedd mwy ymylol a phrin eu poblogaeth o Gymru, lle mae llai o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael, sy'n gosod mwy o ddibyniaeth ar lwybrau bysiau. Felly, mae teithio ar y ffordd yn hanfodol yn yr ardaloedd hyn lle mae cymudo yn aml yn digwydd dros bellteroedd hyd yn oed yn fwy na'r hyn a welir o amgylch canolfannau trefol mawr. O ran cael gwaith a theithio busnes, mae dibynadwyedd amseroedd teithio yn bryder penodol[173]. Mae ffyrdd o ansawdd gwael ynghyd â chynnydd mewn teithio preifat yn arwain at fannau cyfyng â thagfeydd ar rwydwaith TEN-T, yn enwedig rhannau gorllewinol yr A40 a'r A55 (sydd hefyd yn darparu cysylltiadau pwysig â phorthladdoedd ar rwydwaith TEN-T a safleoedd cyflogaeth Ardaloedd Menter allweddol ar Ynys Môn ac yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau) lle mae'r prif lwybrau TEN-T yn gyfyngedig am mai dim ond un ffordd gerbydau a geir ac am fod diffyg mannau gyrru heibio a chylchfannau niferus. Mae'r rhain i gyd yn arwain at dagfeydd mewn traffig oriau brig arferol ac maent yn arbennig o sensitif i unrhyw ddigwyddiadau a all greu problemau difrifol.

7.14 Ni ddylai unrhyw fuddsoddiad sy'n defnyddio ERDF i fynd i'r afael â mannau cyfyng ar lwybrau TEN-T, yn enwedig ffyrdd, ddigwydd ar ei ben ei hun. Er mwyn cynyddu effaith buddsoddiadau ERDF eraill a buddsoddiadau eraill sy'n defnyddio cronfeydd ESI, **bydd angen i unrhyw fuddsoddiad trafnidiaeth ERDF fod yn rhan o becyn buddsoddi integredig**. Drwy wneud hyn gellir cyflawni màs critigol o fuddsoddiad a chael effaith gronnol fwy o faint. Er enghraifft, dylai buddsoddiad i wella'r rhan waethaf o'r A55 ategu buddsoddiadau arfaethedig yn Ardal Fenter Ynys Môn sydd gerllaw; neu dylai buddsoddiad yn Ardal Metro De Cymru ychwanegu gwerth i fuddsoddiadau ERDF ac ESF a wneir yn y Cymoedd yn ogystal â manteisio ar fuddsoddiadau mawr y DU yn y gwaith o drydaneiddio'r brif linell reilffordd i Abertawe.

7.15 Dengys adroddiadau blynyddol ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol fod trafnidiaeth yng Nghymru yn cyfrif am gyfran gynyddol o **allyriadau nwyon tŷ gwydr** (cynnydd o 12.2% i 16.3% rhwng 1990 a 2011). Roedd ceir yn cyfrif am 9 y cant o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn 2011. Trafnidiaeth ffordd sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan y sector trafnidiaeth. Yn 1990, cynhyrchwyd 91 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan y sector trafnidiaeth gan drafnidiaeth ffordd; erbyn 2011 roedd wedi cynyddu ychydig i 92 y cant. Mae hyn oll yn awgrymu bod angen mwy o fuddsoddiad er mwyn hyrwyddo dewisiadau amgen gwyrddach i deithio mewn car, ond hefyd er mwyn gwella'r effeithlonrwydd a'r allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio preifat, er enghraifft drwy ymdrin â mannau cyfyng yn y rhwydwaith, gwella dibynadwyedd teithio a lleihau tagfeydd.

---

[172] *Statistical Bulletin: Personal travel in Wales – 2012* (Tachwedd 2013), StatsCymru

[173] Ystyrir y cysyniad hwn yn: *Value of travel time reliability: A review of current evidence* (Mai 2012), Carlos Carrion a David Levinson, Transportation Research Part A: Policy and Practice Cyfrol 46, Rhifyn 4, Mai 2012, Tudalennau 720–741.
Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu mesur o ddibynadwyedd amseroedd teithio fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ac mae cynigion yn y Rhaglen Weithredol yn gyson â'r gwaith hwnnw.

7.16 Canfu ymchwil dystiolaeth o effaith economaidd gadarnhaol **band eang**, gan gynnwys yr hyn a gynhyrchir drwy'r broses adeiladu, ond hefyd drwy dwf mewn cynhyrchiant drwy fwy o arloesedd gan fusnesau, mwy o fasnach ryngwladol a mwy o gyfleoedd i deleweithio, gan olygu y gellir gwneud defnydd mwy cynhyrchiol o amser rhai gweithwyr [174]. Mae llai o astudiaethau ar gael ar hyn o bryd o fand eang *cyflymach* ond mae'r rhai sydd ar gael yn cyfeirio'n bennaf at effaith gynyddrannol gadarnhaol, gyda chyfrifiadura cwmwl yn un o'r prif lwybrau y disgwylir i fand eang cyflymach gael effaith economaidd drwyddo[175]. Fodd bynnag, nododd astudiaeth ar ran y Comisiwn Ewropeaidd fod cysylltedd araf yn rhwystr i fabwysiadu cwmwl ymhlith BBaChau[176].

7.17 Ym mis Mehefin 2014, roedd 78% o eiddo yn y DU yn gallu derbyn gwasanaethau band eang sefydlog dros rwydweithiau NGA (cyflymder o hyd at 30Mbit/s neu uwch)[177]. **Cymru oedd â'r lefel isaf o fynediad i wasanaethau band eang NGA ymhlith gwledydd y DU**, gyda 58% o eiddo yn gallu derbyn gwasanaethau o'r fath, er bod hyn yn gynnydd o fwy na dau bwynt canran o gymharu â mis Mehefin 2013. Yng ngwledydd eraill y DU roedd y gyfran hon yn amrywio o 64% yn yr Alban i 95% yng Ngogledd Iwerddon, gydag 80% o eiddo yn Lloegr o fewn olion troed rhwydwaith NGA[178]. Mae methiant y farchnad yng Nghymru, sy'n cynnwys ystod eang o ardaloedd trefol, yn gyfuniad o'r ddaearyddiaeth a nifer fwy o ardaloedd llai cefnog; ardaloedd sydd, yn draddodiadol, yn llai tebygol o ddewis cysylltiadau cyflymder uwch ac felly yn llai tebygol o gael eu nodi yng nghynlluniau buddsoddi seilwaith TGCh y sector preifat. Mae hyn yn golygu bod yr ardaloedd hynny yn colli allan ar y buddiannau mawr sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn (er enghraifft mae Agenda Ddigidol Ewrop yn awgrymu y gall cynnydd o 10% yng nghwmpas band eang gynyddu CMC 1%-1.5%.[179]).

7.18 Mae pwysigrwydd sicrhau nad yw manteision seilwaith TGCh ond i'w gweld mewn ardaloedd sydd eisoes yn gryf yn economaidd yn amlygu rôl hanfodol cyswllt uniongyrchol â mesurau manteisio er mwyn sicrhau bod BBaChau cynhenid yn defnyddio seilwaith TGCh ac yn manteisio arno, fel y nodwyd yn gynt yn y strategaeth hon. Gellir gweld ledled Ewrop fod y **defnydd o wasanaethau NGA fel rheol yn dilyn argaeledd**; mae'r duedd hon hefyd yn glir yn y DU lle mae gan Ogledd Iwerddon fynediad ardderchog i rwydweithiau NGA yn ogystal â'r cyfraddau uchaf o ran y defnydd o'r dechnoleg honno (sy'n cynyddu'n gyflym). Mae angen sicrhau bod mesurau manteisio yn cael eu hymgorffori mewn gwaith cynllunio digidol, ond erys anghenion buddsoddi sylweddol er mwyn ymdrin â methiannau cyflenwi'r farchnad i fodloni targedau Agenda Ddigidol Ewrop.

---

174 *UK Broadband Impact Study: Literature Review* (2012), SQW ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) (tudalen 1)
175 *Ibid.*
176 *Quantitative Estimates of the Demand for Cloud Computing in Europe and the Likely Barriers to Uptake* (2012), IDC ar ran y Comisiwn Ewropeaidd
177 *Communications Market Report Wales* (Awst 2014), Ofcom
178 *Communications Market Report: Wales* (Awst 2014), Ofcom
179 Cyfeiriad gan Czernich et al (2009): “The socioeconomic impact of bandwith” Final report

7.19 Arweiniodd y newidiadau i ôl-troed masnachol a marchnad Cymru at gynnal **Adolygiad o'r Farchnad Agored ym mis Chwefror 2014**[180]. Ceisiodd nodi'r ardaloedd lle na fyddai band eang y genhedlaeth nesaf, yn ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig, (30Mbps ac uwch) ar gael naill ai drwy raglen Cyflymu Cymru (sy'n rhedeg tan 2016 ac sy'n cynnwys ERDF, buddsoddiad preifat a chyhoeddus) neu gynlluniau masnachol arfaethedig eraill. Disgwylir i hyn gynnwys tua 45,000 o eiddo (tua 4% o'r eiddo yng Nghymru i gyd); fodd bynnag, byddai hepgor yr eiddo mwyaf anodd ei gyrraedd a mwyaf gwledig yn arwain at bennu ffocws ar gyfer buddsoddiadau gan ymdrin â'r ardaloedd gwyn sy'n cwmpasu tua 39,000 o eiddo. Gall rhan o'r gost fuddsoddi hon gael ei thalu drwy gyllid Llywodraeth y DU sydd wedi'i ddyrannu at y diben hwn, ond bydd bwlch ariannu o hyd. Gelwir hyn yn Gam 1 Mewnlenwi Cyflymu Cymru.

7.20 Ar ôl cwblhau prosiect Band Eang NGA Cyflymu Cymru a phrosiect Cam 1 Mewnlenwi Cyflymu Cymru yn 2016 disgwylir y bydd rhwng 30,000 a 45,000 eiddo ychwanegol na chânt eu pasio (tua 3-4% o'r holl eiddo). Ni ellir rhagdybio'r Adolygiad o'r Farchnad Agored y bydd angen ei gynnal er mwyn nodi unrhyw ardaloedd gwyn sy'n weddill yn ail hanner 2016, er y disgwylir y byddant yn cynnwys cymysgedd o diriogaethau gwahanol (trefol, amdrefol a gwledig). O ystyried ymrwymiadau blaenorol sylweddol, gobeithir y bydd mwy o arian yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r methiannau hyn sy'n weddill yn y farchnad, ond - er mwyn ymestyn hyn gyhyd â phosibl er mwyn helpu i **fodloni targed Agenda Ddigidol Ewrop o gwmpas llawn erbyn 2020**[181] - bydd angen defnyddio cyfuniad o ERDF ac EAFRD. Disgwylir i'r costau fod yn uwch fesul safle, er y rhoddir blaenoriaeth i'r ardaloedd trefol ac amdrefol sy'n weddill o ran cymorth ERDF. Dylai'r cyfuniad o fuddsoddiad, ynghyd â buddsoddiad preifat parhaus, helpu i sicrhau bod NGB ar gael ledled Cymru i gyd bron erbyn 2020.

7.21 Gallai buddsoddi mewn seilwaith TGCh wella cysylltedd ardal y rhaglen ac ategu arloesedd, ynghyd â sicrhau bod busnesau Cymru, yn enwedig y sector TGCh a'r sector Diwydiannau Creadigol, yn defnyddio, yn masnacheiddio ac yn manteisio ar dechnolegau digidol yn eang. Mae hyn yn arbennig o wir am **fand eang cyflym iawn iawn (100Mbps ac uwch)** a disgwylir y gall darpariaeth benodol sy'n targedu BBaChau (e.e. cynllun talebau) geisio ehangu defnydd tuag at y targed a geir yn Agenda Ddigidol Ewrop sef bod 50% o'r UE wedi tanysgrifio i fand eang uwchlaw 100 Mbps erbyn 2020.

7.22 Yn ogystal â cheisio atal gwahaniaethau, ceir cryn gyfleoedd i arwain y blaen wrth geisio denu a chadw busnesau allweddol sydd angen atebion cysylltedd cyflym iawn iawn (100Mbps ac uwch). Bydd angen i fusnesau mwy, busnesau sydd angen cyflymder lanlwytho sy'n cyfateb i'w cyflymder lawrlwytho (gwasanaethau Cymesur), a busnesau sydd angen cysylltu'n ddiogel o un safle i'r llall gael cysylltedd TGCh sydd wedi'i deilwra'n fwy ac mae cyfle i ddenu a chadw'r busnesau hyn ar **safleoedd strategol**.

[180] Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 03 Gorffennaf 2014. Mae dogfennau a mapiau'r ymgynghoriad ar gael yn http://wales.gov.uk/consultations/businessandeconomy/superfast-infill/?skip=1&lang=en
[181] Agenda Ddigidol Ewrop

7.23 Caiff ystadegau'r farchnad lafur yng Nghymru eu harchwilio'n fanwl yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac fel rhan o'r rhaglenni ESF yn fwy cyffredinol, gyda Chymru ar ei hôl hi o gymharu â'r DU, a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar ei hôl hi o gymharu â Chymru. Ceir cryn amrywiad mewn cyfraddau cyflogaeth ac mae'r rhesymau dros hynny yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol ledled Cymru. Er mwyn cefnogi **twf sy'n ystyriol o gyflogaeth** ledled Cymru mae angen i amrywiaeth o wahanol ffactorau ddod ynghyd. Ymdrinnir â rhai o'r rhain mewn rhannau ategol o raglenni ESI Cymru (e.e. cysylltedd trafnidiaeth, sgiliau, cyflogadwyedd ac ati) ac ymdrinnir ag eraill yn fwy cyffredinol gan y Llywodraeth (e.e. addysg, gwasanaethau cyhoeddus ac ati).

7.24 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[182] yn tynnu sylw at yr awdurdodau lleol hynny sy'n perfformio waethaf ym maes cyflogaeth sef Merthyr Tudful (33.3% o'i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn y 10% mwyaf amddifad o Gymru) a Blaenau Gwent (31.9%), er unwaith eto ceir pocedi o amddifadedd yn yr ardaloedd Awdurdod Lleol mwyaf cyfoethog. Yn fwy cyffredinol mae swyddi llai medrus yn symud allan o'r dinasoedd ac mae swyddi mwy medrus i'w gweld yn fwy mewn ardaloedd trefol. Mae angen i'r patrymau hyn gael eu nodi a'u defnyddio'n well wrth gynllunio **cymorth integredig ar gyfer rhanbarthau daearyddol penodol**. Nododd astudiaeth a wnaeth asesu effaith polisïau adfywio seiliedig ar ardal fod lefelau ariannu hygyrch ac ystyrlon yn hanfodol i waith adfywio. Rhaid i'r lefel o arian sydd ar gael alluogi adnewyddu ffisegol yn ogystal ag ymgysylltu cymunedol[183], a dengys profiad mai'r ffactor sy'n sbarduno'r fath ganlyniadau adfywio yw buddsoddiadau allweddol mewn seilwaith mewn lleoedd (e.e. safleoedd ac eiddo, datblygu ased twristiaeth, gwella mynediad, canolfan ragoriaeth).

7.25 Mae adolygiad o dystiolaeth economaidd wedi dynodi "*physical regeneration that is intended to address market failure is most likely to be successful when the other elements necessary for economic success are present, and that success should become self-sustaining (and for this reason the intervention should be time-limited)*"[184]. Mae Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru[185] hefyd yn cydnabod, yn gyffredinol, fod adnoddau ariannol y sector cyhoeddus wedi'u dyrannu mewn ymateb i angen (yn wahanol i ymateb y farchnad i alw a 'chyfle'); ac mae'n dadlau y dylai gwaith adfywio gwmpasu ymateb i angen a chyfle.

7.26 Gwers allweddol a ddysgwyd o Raglen y Fargen Newydd ar gyfer Cymunedau ('NDC'), menter seiliedig ar ardal yn Lloegr, yw bod angen **hyblygrwydd ar asiantaethau adfywio** er mwyn pennu targedau sy'n diwallu anghenion ac

---

[182] https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2011

[183] *The Impact of Devolution: Area-based Regeneration Policies in the UK Joseph Rowntree Foundation* (2010), D. Adamson. Ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/publications/impact-of-devolution

[184] *Regeneration: Review of Economic Evidence* (2012), Wavehill. Tystiolaeth ategol ar gyfer yr adolygiad o bolisi adfywio (*Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, 2013*).

[185] *RegenerationTargeting* (2011), Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru ar gyfer y Panel Adfywio Cenedlaethol

amgylchiadau lleol[186]. Adlewyrchir hyn yn Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio annog mwy o flaenoriaethu mewn perthynas â nifer gyfyngedig o gyfleoedd twf a lywir gan waith dadansoddi yn hytrach na thargedau canolog. Mae'r fath flaenoriaethu hefyd yn thema ganolog ar gyfer y rhaglen hon a cheisir cynlluniau a arweinir gan seilwaith gan bartneriaid sy'n cynnig y cyfle gorau i gyflawni twf mewn cyflogaeth ar draws rhanbarth cyfan tra'n ymgorffori holl elfennau datblygu cynaliadwy (canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol).

## Crynodeb o'r cyfiawnhad dros Amcanion Penodol

| Anghenion | Cyfleoedd Twf | Amcan Penodol (AP) |
|---|---|---|
| • Ardaloedd ymylol nad ydynt yn flaenoriaeth o ran arian craidd y Llywodraeth, sy'n arwain at gylch o danfuddsoddi a cholli cyfleoedd i gyflawni twf<br>• Dibyniaeth ar geir a thrafnidiaeth ffordd mewn ardaloedd ymylol yn creu'r angen am well rhwydweithiau<br>• Rhannau gwael o rwydweithiau TEN-T<br>• Cyfran gynyddol o allyriadau o drafnidiaeth ffordd a cheir<br>• Diffyg cysylltedd yn cyfyngu ar dwf ac yn rhwystro mewnfuddsoddi<br>• Ymyloldeb a diffyg cysylltedd wedi'u nodi fel elfen sylweddol o'r bwlch mewn cynhyrchiant<br>• Arolwg yr ESF yng Nghymru o'r Bobl a Adawodd allan o waith yn nodi | • Buddsoddiadau mawr wedi'u cyhoeddi o ran yr M4 a Thrydaneiddio i fynd i'r afael â mannau cyfyng allweddol ar y TEN-T<br>• Cynlluniau Strategol ar waith ledled Cymru i flaenoriaethu buddsoddiadau mewn trafnidiaeth<br>• Gallai ffocws ar Ardaloedd Menter greu cyfleoedd twf y tu hwnt i Ddinas-Ranbarthau os ydynt yn hygyrch<br>• Gall gwella cysylltedd gefnogi mewnfuddsoddi, cynyddu cynhyrchiant a chyflogau.<br>• Gorllewin Cymru yn dangos mewngymudo sy'n dynodi cyfleoedd am dwf | (4.1) Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu. |

[186] *The New Deal for Communities Programme: Achieving a Neighbourhood Focus for Regeneration* (2010), G. Fordham, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ar gael yn: http://www.communities.gov.uk/publications/communities/achievinganeighbourhood

| | | |
|---|---|---|
| anawsterau / rhwystrau trafnidiaeth fel un o'r prif rwystrau i gael gwaith | | |
| • Gall daearyddiaeth ardaloedd rhaglen arwain at lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus cymhleth<br>• Diffyg hygyrchedd i'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ac i safleoedd strategol allweddol<br>• Teithio mewn car yn dal i ddominyddu yng Nghaerdydd ac Abertawe a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus integredig yn cyfyngu ar dwf<br>• Mae gan weithwyr llai medrus lai o fynediad i drafnidiaeth breifat a llai o symudedd gofodol; ac felly lai o gyfleoedd i gael gwaith mewn lleoliadau sy'n llai hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus<br>• Arolwg yr ESF yng Nghymru o'r Bobl a Adawodd allan o waith yn nodi anawsterau / rhwystrau trafnidiaeth fel un o'r prif rwystrau i gael gwaith | • Gallai ffocws ar Ddinas-Ranbarthau wella effeithiau crynhoad os ymdrinnir â chyfyngiadau (e.e. trafnidiaeth)<br>• Bydd Ffocws ar Ddinas-Ranbarthau yn ystyried gwella symudedd trefol y tu hwnt i ganol dinasoedd<br>• Trydaneiddio'r rheilffordd erbyn 2020 yn gyfle i achub arno<br>• Trafnidiaeth gyhoeddus fwy integredig a mwy o dagfeydd ar y ffyrdd a chyfle i greu newid moddol yn y defnydd o drafnidiaeth yn Ninas-ranbarthau Caerdydd ac Abertawe<br>• Cynnydd parhaus disgwyliedig mewn cymudo yn debygol o greu galw a chyfle i wneud hynny'n gynaliadwy drwy fuddsoddi yn effeithiolrwydd, ymarferoldeb a fforddiadwyedd dewisiadau amgen gwirioneddol i deithio preifat | (4.2) Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol |
| • Rhwystrau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol yn creu methiannau yn y farchnad o ran cwmpas band eang<br>• Erys bylchau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwyn o | • Disgwyl i fuddsoddiad sylweddol ym Mand Eang y Genhedlaeth Nesaf a buddsoddiad preifat gynyddu'r cwmpas i 92%.<br>• Gwaith cynllunio strategol ar gyfer safleoedd strategol | (4.3) Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 100% i fand eang y genhedlaeth nesaf (30Mbps ac uwch) a mynediad o 50% |

| | | |
|---|---|---|
| amgylch ardaloedd trefol<br>• Diffyg darpariaeth gan aml-ddarparwyr<br>• Bylchau ariannu, er gwaethaf ymrwymiadau ariannol y Llywodraeth (e.e. cyllid BDUK)<br>• Diffyg cwmpas yn gyfyngiad posibl ar ddefnydd | allweddol (e.e. ardaloedd menter)<br>• Cyflwyniad 4G yn gyfle posibl i ymdrin â materion etifeddiaeth<br>• Cyfleoedd i amrywiaeth o ddarparwyr a dulliau / technolegau arloesol ymdrin ag ardaloedd hynod anodd | i 100Mbps. |
| • Amrywiaeth o heriau cyflogaeth ar draws ardal y rhaglen, gan gynnwys ardaloedd o amddifadedd a dirywiad<br>• Angen cynllunio datblygiadau seiliedig ar le mewn ffordd fwy effeithiol a chydgysylltiedig - yn seiliedig ar gyfleoedd twf | • Dylai gwella gwaith partneriaeth a chydweithredu arwain at fwy o effaith<br>• Cryn gyfleoedd i integreiddio ar draws cronfeydd ESI gan ategu mentrau a strategaethau gofodol<br>• Gall buddsoddiadau a wneir o dan ESF i drechu tlodi gael eu hategu gan fuddsoddiadau cefnogol a all alluogi'r sector preifat i greu twf cyflogaeth<br>• Nifer o gyfleoedd twf ledled Cymru (e.e. twristiaeth, safleoedd strategol, diwydiannol) yn cael eu blaenoriaethu mewn amrywiaeth o strategaethau | (4.4) Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol (drwy fenter Datblygu Trefol Cynaliadwy). |

## Cwmpas

7.27 Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn dwyn ynghyd Flaenoriaethau Buddsoddi o dri Amcan Thematig gwahanol er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau mor effeithlon a dylanwadol â phosibl drwy eu cysoni â blaenoriaethau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Cynllun er mwyn sicrhau bod ei buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl i Gymru. O ystyried bod ganddi lai o bŵer gwariant cyfalaf (40% yn is yn 2014-15 na 2010-11) mae'r Llywodraeth nid yn unig yn canolbwyntio ar geisio ffyrdd

arloesol o ariannu buddsoddiadau seilwaith, ond ar fod yn glir iawn ynghylch blaenoriaethau a chyflawni mwy o ddarbodusrwydd ac effeithlonrwydd.

7.28 Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn anelu at gefnogi'r gwaith o wella natur ddeniadol lleoedd yn ardal y rhaglen; a thrwy wneud hynny ddenu rhagor o fuddsoddiad preifat er mwyn helpu i lywio twf cyflogaeth. Bydd y camau a gefnogir o dan y Flaenoriaeth hon yn ffactorau galluogi ar gyfer yr holl Flaenoriaethau eraill a byddant hefyd yn allweddol i lwyddiant y rhaglenni ESF (e.e. sicrhau nad yw buddsoddiad mewn sgiliau yn arwain yn syml at symud gweithwyr medrus allan o ardal y rhaglen); fel y cyfryw bydd angen iddynt ddangos sut maent yn rhyngweithio â buddsoddiadau eraill mewn ardal diriogaethol er mwyn cael mwy o effaith ar y cyd.

7.29 Buddsoddi mewn trafnidiaeth a fydd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cyllid (yn bennaf drwy amcan thematig "Newid i Economi Carbon Isel", ond hefyd "Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a dileu mannau cyfyng mewn seilweithiau rhwydwaith allweddol") a wnaiff ymdrin ag ymyloldeb a diffyg symudedd trefol, gan geisio gwella'r broses o gysylltu canolfannau twf trefol yn ardal y rhaglen i farchnadoedd a gwella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ar draws y rhanbarth.

7.30 Mae cysylltedd digidol hefyd yn fwyfwy pwysig i fusnesau a thwf busnesau mewn canolfannau trefol; yn arbennig yr ardaloedd hynny lle ceir problemau ymyloldeb a diffyg symudedd llafur, gan gynnig mwy o gyfleoedd i weithio o bell. O ran darparu'r amgylchedd cywir lle gall busnesau ffynnu a thyfu, ac yn ei dro greu cyflogaeth yn uniongyrchol a thrwy gefnogi cadwyni cyflenwi, mae cysylltedd TGCH yr un mor bwysig â chysylltedd trafnidiaeth. Yn wir, mae'r ddau yn ategu ei gilydd gyda gwell cysylltedd TGCh yn lleihau'r angen i deithio.

7.31 Buddsoddiadau mewn seilwaith ffisegol yw'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno adfywio a thwf cyflogaeth mewn lleoedd. Gallant ysgogi mwy o fuddsoddi mewn ardal neu ranbarth, yn enwedig drwy fewnfuddsoddi neu gynnwys y sector preifat yn fwy. Fel rhan o hyn, dylai prosiectau a gefnogir o dan y trydydd Amcan Thematig hwn ategu buddsoddiadau mewn hygyrchedd a chysylltedd ac ychwanegu gwerth atynt. Y bwriad yw y dylai'r cymysgedd priodol o weithgarwch i ddatblygu safleoedd strategol gael ei bennu gan yr awdurdod rhanbarthol neu drefol perthnasol (fel rhan allweddol o waith datblygu trefol cynaliadwy), ar yr amod ei fod yn cefnogi twf cyflogaeth mewn canolfan allweddol ac fel rhan o strategaeth diriogaethol integredig wedi'i blaenoriaethu. Ystyrir ei bod yn bwysig cadw'r gweithgareddau hyn gyda'i gilydd gan eu bod yn ategu ei gilydd ac er mwyn cyfrannu at strategaeth fuddsoddi ofodol gydlynol.

**Amcan Penodol 4.1:** Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu).

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

7.32 Mae tystiolaeth yn awgrymu mai effaith buddsoddi mewn ffyrdd yw'r cryfaf ar gyfer economïau lleol; gan esgor ar welliannau mewn cyflogaeth, cynhyrchiant, nifer y busnesau a chyflogau[187]. Byddai'r cyllid sydd ar gael yn golygu mai dim ond 2-4 cynllun arwyddocaol a fyddai'n debygol o gael cymorth gan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon; felly, mae'n rhaid i'r cynlluniau hynny ymdrin â mater ymyloldeb a hefyd sicrhau'r effaith economaidd leol fwyaf er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ymlediad gwahaniaethau rhanbarthol ac ategu'r amrywiaeth o fuddsoddiadau eraill a wneir ar draws y rhaglenni ESI.

7.33 Mae cyflogaeth, cynhyrchiant, creu busnesau a thwf busnesau, a chyflogau oll yn elfennau allweddol a dargedir gan wahanol rannau o raglenni ESI; gan ddangos sut y gall y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon helpu i ategu'r holl fuddsoddiadau ESI eraill hynny er mwyn dal gafael mewn buddiannau yn ardal y rhaglen. Caiff buddsoddi mewn cysylltedd effaith fyrdymor (a thymor hwy) uniongyrchol ar leoliad cwmnïau (newydd i'r ardal) a'r buddsoddiad a wneir ganddynt.

7.34 Disgwylir i fuddsoddiadau wella dibynadwyedd (e.e. drwy ymdrin â mannau cyfyng tagfeydd) mewn rhannau penodol ac ansawdd isel o'r rhwydwaith TEN-T. Mae gwaith modelu ar rannau posibl o TEN-T yn awgrymu bod cynnydd o 10% o leiaf yn ganlyniad rhesymol i'w geisio o unrhyw fuddsoddiad sylweddol.

7.35 Pennwyd llinell sylfaen wahanol ar gyfer ffordd yr A40 a ffordd yr A55, gan ganolbwyntio ar gyflymderau cyfartalog yn ystod cyfnodau brig.

7.36 Mae’n amlwg bod lleihau damweiniau hefyd yn fater sy’n codi yn y rhannau hyn o rwydwaith TEN-T, felly amcan eilaidd fyddai lleihau nifer a difrifoldeb damweiniau i’r lefel gyfartalog genedlaethol (gwelir lefelau uwch na’r cyfartaledd ar hyd y ddwy ran ar hyn o bryd). Ymdrinnir â hyn ar lefel prosiect gan anelu at bennu llinellau sylfaen a thargedau cysylltiedig fesul prosiect.

[187] *New Road Infrastructure: the Effects on Firms* (2012), S. Gibbons, T. Lyytikainen, H. Overman ac R. Sanchis-Guarner, Papur Trafod SERC 117, 2012

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed2 (2023) 3 | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflymder cyfartalog ar ffordd TEN-T (Llywodraeth Cymru) | Km ph | Llai Datblyg edig | A40: 58<br>A55: 86 | 2013 | Cynnydd o 5-10% | (Data Traffic Master) | Blyny ddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

7.37 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi y dylai Cymru anelu at gael mwy allan o'i seilwaith trafnidiaeth drwy integreiddio pob dull er mwyn gwneud i'r system weithio'n well, a chynyddu’r defnydd o opsiynau trafnidiaeth iachach a mwy cynaliadwy. Dylai camau gweithredu geisio ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau presennol ac arfaethedig, ymdrin â mannau cyfyng penodol ac ymdrin â materion ymyloldeb a wynebir gan ardal y rhaglen. Bydd hyn yn golygu bod mwy o ffocws ar yr ardaloedd ymylol a buddiannau economaidd lleol (lle na chosbir y cynllun am ei fod mewn ardaloedd ymylol). Efallai y bydd angen buddsoddi ymhellach er mwyn sicrhau'r budd economaidd mwyaf ar gyfer ardal y rhaglen o'r buddsoddiad hwn ac annog newid moddol (e.e. mewn safleoedd ac eiddo ategol neu gymorth sgiliau lleol er mwyn denu mewnfuddsoddiad).

7.38 Bydd y gwariant a ragwelir o dan yr Amcan Penodol hwn ar rwydwaith TEN-T, ac sydd wedi'u cyfyngu i fuddsoddiadau a all ddangos effaith ar y dangosydd canlyniadau mewn perthynas â'r A55 a'r A40 yn unig (h.y. gwella cyflymderau cyfartalog ac amseroedd teithio ar hyd mannau cyfyng yr A55 a'r A40). Mae'r gwaith dadansoddi sy'n llywio'r rhaglen hon wedi nodi'r rhannau hynny o rwydwaith TEN-T yng Nghymru sy'n brif fannau cyfyng a lle ceir cyfle i dyfu, yn arbennig lle ceir mewnlifau cymudo neu gyfleoedd twf penodol sy'n gysylltiedig â safleoedd allweddol (e.e. Ardaloedd Menter). Felly, rhaid i fuddsoddiadau anelu at ymdrin â man cyfyng sylweddol y mae tystiolaeth ohono (e.e. traffig cymudwyr a gwyliau).

7.39 Bydd ffocws ar gynaliadwyedd hefyd yn hanfodol i bob cynllun â mesurau penodol i'w nodi er mwyn cefnogi'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth lân.

7.40 Mathau o gamau y disgwylir eu cefnogi:

- Buddsoddiad wedi'i dargedu yn rhwydwaith ffordd TEN-T ar hyd yr A40 a'r A55 er mwyn lleddfu tagfeydd yn y mannau cyfyng a nodwyd
- Mesurau ategol i wella hygyrchedd ar hyd llwybrau TEN-T ar drafnidiaeth gyhoeddus (e.e. mynediad bws, llwybrau beicio / cerdded, cysylltiadau amlfoddol ac ati).

## Egwyddorion arweiniol

7.41 Bydd angen i fuddsoddiadau mewn llwybrau TEN-T gael eu nodi fel cynlluniau seilwaith sy'n arwyddocaol yn genedlaethol yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, gan ddefnyddio'r broses sicrwydd busnes well er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

7.42 Gall cynlluniau trafnidiaeth chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo datblygu economaidd ond i fod yn llwyddiannus mae angen i'r elfennau eraill sydd eu hangen er mwyn cyflawni twf fod yn bresennol[188] a mynd law yn llaw ag ymyriadau ategol. Bydd angen i'r buddsoddiadau penodol mewn trafnidiaeth o'r rhaglen hon ddangos eu bod yn ymdrin â mannau cyfyng gwirioneddol, o ran mynediad i gyflogaeth neu eu bod yn cynnig cyfleoedd i gyflawni twf economaidd ar lefel ranbarthol yn hytrach na dim ond effeithio ar ddewisiadau isranbarthol neu leol o ran lleoliadau busnesau.

7.43 Dylai'r effaith leol fod yn nodwedd bwysig o unrhyw fuddsoddiad llwyddiannus, yn enwedig lle mae'n cyfrannu at ddull datblygu integredig o fewn ardal leol, drefol neu ranbarthol (e.e. at strategaeth ranbarthol). Dylid disgwyl i fuddsoddiad ysgogi buddsoddiadau ychwanegol gan y sector preifat (e.e. drwy fewnfuddsoddi).

7.44 Dylai cynigion hefyd ystyried a dangos sut maent yn cefnogi gwaith datblygu trefol cynaliadwy ac yn gwella mynediad i drafnidiaeth gynaliadwy a'r defnydd ohoni, yn enwedig o ystyried y pwyslais a ddisgwylir ar gysylltu pobl â swyddi. Dylent hefyd ystyried effeithiau posibl ymyriadau trafnidiaeth ar allyriadau carbon yn eu hardal leol gan ddefnyddio adnodd carbon sylfaenol Adran Drafnidiaeth y DU[189]. Dylai pryderon datblygu cynaliadwy ac effeithiau negyddol posibl ar iechyd a'r amgylchedd gael eu hasesu wrth ystyried yr holl fuddsoddiadau o dan yr Amcan Penodol hwn.

7.45 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

188 *Promoting Growth in All Regions: Lessons from across the OECD* (2011), OECD.
189 https://www.gov.uk/government/publications/local-authority-basic-carbon-tool

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)* | Km | 15 | Data monitro | Chwarterol |
| Llwybr troed neu lwybr beiciau a grëwyd neu a ailadeiladwyd | Km | 10 | Data monitro | Chwarterol |

## **Amcan Penodol 4.2:** Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol

### Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

7.46 Mae symudedd trefol, a chysylltiadau da rhwng mannau gwaith a byw, yn ganolog i ganolfan drefol effeithiol a lledaenu buddiannau twf mewn canolfannau trefol yn ehangach yn y rhanbarth.

7.47 Mae gwella mynediad i drafnidiaeth gynaliadwy yn rhwystr i gyflogaeth y mae angen ymdrin ag ef, ond rhaid ategu hynny hefyd gan ystyried rheoleidd-dra gwasanaethau. Mae angen i wasanaethau i ganolfannau cyflogaeth weithredu'n rheolaidd a thros gyfnodau mwy estynedig er mwyn cefnogi cyfleoedd mynediad i waith dros bellteroedd hwy ac adlewyrchu gofynion cynyddol am waith sifft neu batrymau gwaith mwy hyblyg. Yr unig opsiwn mewn rhai rhannau o Gymru yw gwasanaethau tacsi a all negyddu buddiannau cyflogaeth o ystyried y gost.

7.48 Felly, mae'r dangosydd canlyniadau a ddewiswyd nid yn unig yn ceisio ymgorffori hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus (e.e. nifer y gorsafoedd neu arosfannau o fewn pellter cerdded) ond hefyd amlder gwasanaethau (e.e. fel bod modd teithio i'r gwaith). Pennir y llinell sylfaen gan ddefnyddio nifer o ganolfannau cyflogaeth allweddol er mwyn asesu eu hygyrchedd ar drafnidiaeth gyhoeddus.  Bydd angen gwneud gwaith targedu gofalus er mwyn ymdrin â chyfyngiadau / materion penodol lle gellir cyflawni'r enillion mwyaf er mwyn cyflawni'r gwerth targed.

### Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran y bobl 16 oed a throsodd o fewn trothwy amser teithio 16, 15 a 30 munud i 'Ganolfan Allweddol' rhwng 7am a 9am ar ddydd Mawrth ar drafnidiaeth gyhoeddus | Nifer | Llai Datblygedig | 0 munud: 636,562<br><br>0 munud: 1,664,666 | 2012 | Cynnydd o 5-10% ym mhob band amser | Data GIS, adroddiadau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

7.49 Mae'r broses o ystyried Dinas-Ranbarthau yng Nghymru wedi dangos bod Dinas-Ranbarth monoganolog yn y de-orllewin a Dinas-Ranbarth lluosganolog yn y de-ddwyrain, yn ogystal â nodi pwysigrwydd cysylltedd â Lloegr yn y gogledd. Fel y prif ganolfannau twf disgwylir canolbwyntio ar wella cysylltedd i'r ardaloedd trefol hyn a rhyngddynt. Felly, gellid disgwyl rhywfaint o bwyslais ar gyflawni elfen o Fetro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o ystyried ei fod yn cwmpasu canolfannau poblogaeth allweddol yn ardal rhaglen Gorllewin Cymru a’r Cymoedd.

7.50 Byddai gwelliannau sylweddol mewn trafnidiaeth gynaliadwy a gwell cysylltedd yn gwella mynediad i gyflogaeth i bobl mewn ardaloedd mwy ymylol lle ceir cyfraddau diweithdra uchel. At hynny, byddai'n galluogi'r rhanbarthau i fanteisio'n briodol ar yr effeithiau crynhoad posibl a nodwyd mewn dinas-ranbarthau eraill ledled y DU ac Ewrop.  Ceir hefyd gyfleoedd i gynyddu cyfraddau cludo nwyddau mewn ffyrdd mwy cynaliadwy (e.e. rheilffordd) tra hefyd yn gwella symudedd y farchnad lafur.

7.51 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi y dylai Cymru anelu at leihau allyriadau carbon traffig a chael mwy allan o'i seilwaith trafnidiaeth drwy integreiddio pob dull er mwyn gwneud i'r system weithio'n well, a chynyddu’r defnydd o opsiynau trafnidiaeth iachach a mwy cynaliadwy. Mae angen i gamau gweithredu o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon ystyried sut y gallant helpu i sicrhau bod buddiannau buddsoddiadau mawr ar rwydwaith TEN-T a rhwydweithiau eraill, fel trydaneiddio, yn cael eu gweld yn y rhanbarthau mwy ymylol hynny; cefnogi twf cyflogaeth yn y rhanbarthau hynny a gwella mynediad i ganolfannau trefol.

7.52 Nododd cyngor ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-Ranbarthau[190], a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyfleoedd ar gyfer atebion trafnidiaeth integredig er mwyn gwella cysylltedd y rhanbarthau hynny â'u hardaloedd cyfagos, ac â'i gilydd, yn enwedig mewn perthynas â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a’r potensial i gefnogi system Fetro. Dylai camau gweithredu o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon geisio ategu'r canfyddiadau hynny ac ychwanegu gwerth atynt, yn enwedig lle gallant gefnogi swyddi a thwf yng Nghymru.

7.53 Nodwyd bod Ardaloedd Menter yn glystyrau penodol o sectorau twf ac economaidd bwysig. Er mwyn cefnogi'r cyfleoedd twf hynny ymhellach, dylid mynd ar drywydd opsiynau hygyrchedd sy'n agor yr ardaloedd i farchnad lafur ehangach ac yn gwella natur ddeniadol busnesau newydd (e.e. mae gan Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy swyddi gwag, ond nid yw'n hygyrch i grynodiadau o anweithgarwch economaidd ar hyd arfordir y gogledd fel y Rhyl er mwyn llenwi'r swyddi gwag hynny[191]).

---

[190] http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/120711cityregions/?lang=en
[191] *North East Wales Integrated Transport Task Force: Report to Minister for Economy, Science and Transport* (2013), Tasglu Trafnidiaeth Integredig Gogledd-ddwyrain Cymru.

7.54 Cysylltedd i a rhwng y Dinas-Ranbarthau, er enghraifft drwy gynigion Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy’n dod i’r amlwg, fydd y brif flaenoriaeth fuddsoddi ar draws y rhaglenni o ystyried yr effaith bosibl a chrynodiadau'r boblogaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu adeiladu ar welliannau o fewn rhwydweithiau TEN-T er mwyn sicrhau bod buddiannau symudedd trefol ac effeithiau crynhoad yn cael eu gweld ledled rhanbarthau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

7.55 Ymhlith y mathau o gamau gweithredu y gellid eu cynnwys mae:

- Cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy a rhyngfoddol sy'n gwella mynediad i waith ac addysg, trafnidiaeth gyhoeddus fwy integredig, sy’n fwy hygyrch ac yn fwy tebygol o gael ei defnyddio fel dewis amgen ymarferol o ran cymudo (e.e. cyfleusterau parcio a theithio, canolfannau trafnidiaeth, cysylltiadau bws a thrên, a chysylltiadau beicio, ac ati).

- Gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffordd lle gall gyflawni yn erbyn y dangosydd canlyniadau, yn arbennig lle gall gysylltu ardaloedd twf ag ardaloedd diweithdra (e.e. gwella gorsafoedd, signalu, llinellau newydd, trydaneiddio ac ati).

- Lleddfu tagfeydd trefol (e.e. rheoli traffig, datblygu systemau a strategaethau trafnidiaeth carbon isel, hyrwyddo symudedd trefol)

- Treialu neu gyflwyno atebion Tocynnau Deallus a Systemau Trafnidiaeth Ddeallus sy’n darparu system drafnidiaeth integredig fwy di-dor, gan annog defnydd mwy rheolaidd o drafnidiaeth gyhoeddus fel y dewis ddull o deithio.

## Egwyddorion arweiniol

7.56 Pwyslais clir i'r Flaenoriaeth Fuddsoddi hon fydd trafnidiaeth gynaliadwy. Disgwylir i gyllid o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon gael ei wario ar gynlluniau a fydd yn gwella'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy, fel y rheilffordd. Dylai hyn arwain at leihau allyriadau o'r aer a chefnogi cydymffurfiaeth â'r Cynlluniau Ansawdd Aer o dan Gyfarwyddeb 2008/50/CE; dylid ystyried hyn fel rhan o waith datblygu a gwerthuso prosiectau er mwyn dangos cyfraniad at briod Gynlluniau Ansawdd Aer Cymru. Mesurir hyn hefyd drwy ddangosydd allbwn dynodedig y bydd disgwyl i gynlluniau trafnidiaeth trefol cynaliadwy gyfrannu ato.

7.57 Bydd angen i'r dangosydd canlyniadau a'r targed gael eu blaenoriaethu'n ofalus yn seiliedig ar wella hygyrchedd o fewn 30 munud i ganolfannau allweddol. Er mwyn cael effaith ar y targed bydd angen targedu canolfannau trefol allweddol lle ceir digon o bobl i ddylanwadu ar y dangosydd (e.e. Caerdydd a'r Cymoedd, Abertawe, Bangor). Hefyd, bydd angen rhywfaint o dargedu sy'n seiliedig ar yr ardaloedd hynny o fewn 45 munud a all gael eu gwella i 30 neu lai. Mae astudiaethau sy'n asesu'r mathau hyn o fannau cyfyng wedi llywio'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a blaenoriaethu yn y

Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Ceisir cysondeb â'r dogfennau cynllunio hyn, yn ogystal â Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a strategaethau economaidd rhanbarthol.

7.58 Mae’r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol hefyd yn cynnwys ymrwymiad i leihau allyriadau carbon trafnidiaeth, gan gynnwys symud tuag at atebion trafnidiaeth gynaliadwy. Wrth ddangos cysondeb â’r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol bydd angen i bob gweithrediad hefyd ddangos sut mae’n cyfrannu at yr amcan hwn, gan gynnwys sut y bydd yn mesur ei gyfraniad drwy’r dangosydd allbwn cysylltiedig ar gyfer yr Amcan Penodol hwn.

7.59 Mae’r amcanion a geir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (CTC) hefyd yn gyson â blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd[192]. Rhydd uchelgeisiau (a adlewyrchir yn y CTC) i leihau allyriadau yn y sector trafnidiaeth drwy (ymhlith pethau eraill) gynyddu’r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, lleihau nifer y cilomedrau teithwyr gan gerbydau a rhoi mwy o rôl i opsiynau teithio cynaliadwy wrth ddatblygu lleoedd. Mae’r holl nodweddion hyn wedi llywio’r gwaith o ddatblygu’r Amcan Penodol hwn a disgwylir iddynt gael eu hadlewyrchu hefyd yn y gwaith o ddylunio gweithrediadau a ariennir drwy’r Amcan Penodol hwn.

7.60 Dylai buddsoddiadau geisio ymgorffori'r arferion da a hyrwyddwyd drwy Gynlluniau Symudedd Trefol Cynaliadwy yr UE[193]. Dylai buddsoddiadau perthnasol fod yn gyson â chynlluniau symudedd a thrafnidiaeth a all ddangos eu bod wedi cael eu datblygu’n unol â chysyniad Cynllun Symudedd Trefol Cynaliadwy

7.61 Disgwylir i fuddsoddiadau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon, lle bo'n briodol, ategu buddsoddiadau TEN-T a hefyd fwydo i mewn i fuddsoddiadau ategol mewn ardaloedd daearyddol penodol er mwyn gwella twf cyflogaeth (Amcan Penodol 4.4).

7.62 Bydd cyfleoedd am fuddsoddi ategol fel rhan o becyn integredig yn hynod bwysig, er mwyn sicrhau bod budd economaidd llawn buddsoddi mewn seilwaith yn cael ei wireddu.

7.63 Dylai buddsoddiadau nid yn unig ystyried gwelliannau i hygyrchedd o ran pellter trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy, ond dylent hefyd ystyried cysylltu hynny â rheoleidd-dra gwasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben i gefnogi mynediad i gyflogaeth. Yn yr un modd, dylai buddsoddiadau hefyd allu dangos sut y caiff cysylltiadau eu gwella rhwng ardaloedd llai cysylltiedig (e.e. ardaloedd o amddifadedd neu gyflogaeth isel) a chanolfannau cyflogaeth (e.e. fel bod y llwybrau yn rhai gwerth uchel).

7.64 Dylai cynlluniau ystyried rôl Systemau Trafnidiaeth Deallus[194], gan ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu i drafnidiaeth er mwyn ei gwneud yn fwy effeithlon, glân, diogel a di-dor.

[192] http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/101006ccstratfinalcy.pdf (pennod 8)
[193] http://www.mobilityplans.eu/11

[194] http://ec.europa.eu/transport/themes/its/index_en.htm

7.65 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a grëwyd neu a wellwyd | Km cerbydau | 2,500,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Cyfleusterau rhyngfoddol a grëwyd neu a wellwyd | Nifer | 25 | Data monitro | Chwarterol |
| Cyfanswm hyd llinell reilffordd newydd (gan gynnwys TEN-T)* | Km | 15 | Data monitro | Chwarterol |
| Cyfanswm hyd llinell reilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)* | Km | 15 | Data monitro | Chwarterol |
| Lleihad mewn allyriadau CO2 ac allyriadau cyfatebol | tCO2e | 10,700 | Data monitro | Chwarterol |
| Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)* | Km | 5 | Data monitro | Chwarterol |
| Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus | Km teithwyr | 400,000,000 | Data monitro | Chwarterol |

**Amcan Penodol 4.3:** Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps.

## Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

7.66 Ceir consensws cyffredinol bod cynnydd sylweddol mewn lled band yn arwain at amrywiaeth o gymwysiadau newydd sydd o fudd i fusnesau fel gwell cynhyrchiant a mynediad i farchnadoedd newydd, fel y gwelwyd wrth ddatblygu o ADSL i wasanaethau deialu i fyny[195].

7.67 Disgwylir i fuddsoddiadau ERDF uniongyrchol gyfrannu at gynnydd o tua 7 pwynt canran yng nghwmpas rhwydweithiau NGA 30Mbps. Mae hyn yn cynnwys tua 3-4 pwynt canran sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag ardaloedd gwyn yn yr Adolygiad o'r Farchnad Agored a gwblhawyd yn ddiweddar a 3 phwynt canran ychwanegol ar gyfer ardaloedd gwyn a ddisgwylir mewn adolygiad o'r fath i'w gynnal yn 2016. Mae'r adolygiad cyfredol yn amcangyfrif cwmpas o tua 92% heb unrhyw fuddsoddiad pellach. Gall ERDF helpu i godi hyn i hyd at 99% erbyn 2020, gydag EAFRD yn cefnogi buddsoddiad yn yr 1-2% sy'n weddill o ardaloedd mwyaf anodd. Gyda'i gilydd, dylai'r buddsoddiadau hyn helpu i gyflawni targed Agenda Ddigidol Ewrop ar gyfer NGA.

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran yr eiddo sydd mewn codau post a wasanaethir gan rwydweithiau NGA | % | Cymru | 58% | Mehefin 2014 | 65% | The Communications Market survey: Wales, Ofcom | Blynyddol |

[195]Er enghraifft: *Proven economic benefits of superfast broadband* (2011), Arthur D Little; and *The Impact of Broadband on the Economy: Research to Date and Policy Issues'* (2010), Global Symposium for Regulators (GSR)

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

7.68 Band eang y genhedlaeth nesaf (30Mbps) fydd y flaenoriaeth i raglen ERDF Cymru, ac o fewn hynny rhoddir blaenoriaeth i ardaloedd trefol lle gellir cyflawni'r gwerth ychwanegol mwyaf. Heb fuddsoddiad pellach ERDF amcangyfrifir y cyflawnir tua 92% o gwmpas. Disgwylir i fuddsoddiad ERDF gefnogi buddsoddiad ychwanegol sy'n arwain at hyd at 99% o gwmpas, gyda'r ardaloedd mwyaf anodd eu cyrraedd a mwyaf gwledig yn cael eu targedu drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

7.69 Bydd y buddsoddiad yn targedu ardaloedd gwyn a nodwyd drwy Adolygiadau o'r Farchnad Agored a disgwylir iddo gyfrannu at dargedau ar gyfer rhwydweithiau Mynediad y Genhedlaeth Nesaf a nodwyd yn Agenda Ddigidol Ewrop.

7.70 Bydd buddsoddiadau Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yn darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn (hyd at 30Mbps ac uwch) a fydd yn ddelfrydol ar gyfer eiddo domestig a llawer o fusnesau bach. Yn ogystal â dal i fyny i osgoi ehangu gwahaniaethau ceir cryn gyfleoedd i ddenu a chadw busnesau allweddol sydd angen atebion cysylltedd cyflym iawn iawn (100Mbps ac uwch). Bydd angen i fusnesau mwy, busnesau sydd angen cyflymder lanlwytho sy'n cyfateb i'w cyflymder lawrlwytho (gwasanaethau Cymesur), a busnesau sydd angen cysylltu'n ddiogel o un safle i'r llall gael cysylltedd TGCh sydd wedi'i deilwra'n fwy ac sy'n gyflymach. Mae cyfleoedd i ddal a chadw'r busnesau hyn mewn safleoedd strategol ledled Cymru (e.e. Ardaloedd Menter neu Ddinas-Ranbarthau perthnasol) a dylai buddsoddiadau gael eu hystyried fesul achos, yn enwedig lle gellir cysylltu hynny ag ymchwil ac arloesedd a lle y gall gyflawni'r targed yn Agenda Ddigidol Ewrop ar gyfer cynyddu'r defnydd o rwydweithiau 100Mbs.

7.71 Mae'r Comisiwn *Communication on Smart Cities*[196] hefyd yn cydnabod y potensial i droi at "atebion dinas deallus" yn enwedig ym meysydd ynni, trafnidiaeth a symudedd a TGCh.

7.72 Mathau o gamau i'w cefnogi:

- Gwelliannau seilwaith er mwyn gwella cysylltedd band eang cyflym iawn o 30Mbps ac uwch (cwblhau rhwydweithiau lle ceir methiant yn y farchnad).

- Buddsoddiadau seilwaith wedi'u targedu (e.e. cynllun talebau) er mwyn gwella cysylltedd band eang cyflym iawn iawn o 100Mbps ac uwch (targedu defnydd busnesau a'r graddau y maent yn manteisio arno).

---

[196] http://ec.europa.eu/energy/technology/initiatives/doc/2012_4701_smart_cities_en.pdf

## Egwyddorion arweiniol

7.73 Dylai camau i ysgogi'r galw am rwydweithiau TGCh a'r defnydd ohonynt gael eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw gynigion a dylid gwneud cysylltiadau uniongyrchol lle bo'n briodol (gan gynnwys ysgogi'r galw am TGCh a gefnogir o dan Echel Blaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh). Ceir dealltwriaeth wael ymhlith rhai busnesau o fuddiannau cynhyrchiant rhwydweithiau telethrebu sy'n arwain at lai o ddefnydd. Dim ond os ysgogir galw ar y cyd ag ymyriadau ochr gyflenwi y gwelir buddiannau llawn band eang.

7.74 Dylai Cymorth Gwladwriaethol posibl a rheolau cystadleuaeth gael eu hystyried cyn gynted â phosibl mewn unrhyw gynnig, yn enwedig lle ystyrir cefnogi safleoedd strategol.

7.75 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Safleoedd ychwanegol sydd â mynediad band eang o 30 Mbps o leiaf* - Cartrefi | Nifer | 28,000 | Data monitro | Chwarterol |
| Nifer y Busnesau sy'n cael cymorth i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch | Nifer | 250 | Data monitro | Chwarterol |
| Poblogaeth ychwanegol a gwmpesir gan fand eang (> 100Mbps) | Nifer | N/A | Data monitro | Chwarterol |

## **Amcan Penodol 4.4:** Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol.

### Disgrifiad o'r llinell sylfaen a chanlyniadau

7.76 Edrychir ar ystadegau marchnad lafur Cymru yn ofalus yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac fel rhan o'r rhaglenni ESF. Ceir cryn amrywiad mewn cyfraddau cyflogaeth ac mae'r rhesymau dros hynny yn amrywio rhwng yr Awdurdodau Lleol gwahanol yng Nghymru a hyd yn oed o'u mewn. Ceir pocedi o gyflogaeth isel ac amddifadedd ledled Cymru, nid dim ond yn y rhanbarthau neu'r Awdurdodau Lleol tlotaf.

7.77 Mae llawer o'r ardaloedd hyn yn dioddef seilwaith ffisegol gwael, twristiaeth neu asedau naturiol nas datblygwyd yn ddigonol a diffyg eiddo addas neu ddeniadol ar gyfer busnesau yn ogystal â materion ehangach sgiliau isel ac anweithgarwch economaidd. Felly, mae dull gweithredu integredig sy'n ystyried pob elfen gyda'i gilydd, ond ar yr un pryd yn osgoi dyblygu darpariaeth, yn ddymunol. Bydd angen i elfen allweddol o hyn fod yn broses flaenoriaethu sy'n nodi cyfleoedd twf ar gyfer safleoedd penodol, yn hytrach na cheisio twf cyflogaeth ymhob man. Mae'r dangosydd a ddewiswyd yn ategu'r hyn a ddewiswyd ar gyfer cyllid adfywio wedi'i dargedu *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid* gan Lywodraeth Cymru i geisio cysoni ac integreiddio gwaith cynllunio hefyd.

7.78 O ystyried nad yw'r ardaloedd isranbarthol i'w targedu wedi'u nodi na'u blaenoriaethu eto gan yr awdurdodau rhanbarthol neu drefol perthnasol ni ellir pennu llinellau sylfaen perthnasol ar gyfer y dangosydd canlyniadau, o ystyried y bydd y cyfleoedd yn wahanol ym mhob rhanbarth. Bydd targedau hefyd yn amrywio yn dibynnu ar y cynllun ond wrth gymryd cyfartaledd cyfraddau Cyfrif Hawlwyr mewn ardaloedd teithio i'r gwaith a nifer ddisgwyliedig gyfartalog o swyddi newydd i'w creu a'u llenwi gan geiswyr gwaith mae modd pennu gwerth targed cyfartalog. Yn amlwg mae angen i bob gweithrediad gael ei ystyried ar sail teilyngdod a cheisir cyfleoedd i ragori ar y cyfartaledd yn gyffredinol.

7.79 Mae'r defnydd o Ardaloedd Teithio i'r Gwaith a ffocws ar swyddi newydd a grëwyd er budd ceiswyr gwaith yn yr ardaloedd hynny yn bwysig er mwyn ceisio sicrhau bod creu swyddi o fudd i'r ardaloedd cyfagos yn hytrach na dim ond i gymudwyr o'r tu allan i ardal y rhaglen. Dylai camau penodol wedi'u targedu, gan gynnwys y potensial i integreiddio â gweithgarwch ESF, gael eu hymgorffori er mwyn sicrhau y canolbwyntir yn briodol ar y canlyniad.

## Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Categori rhanbarth (lle bo'n berthnasol) | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn Sylfaenol | Gwerth Targed2 (2023) 3 | Ffynhonnell Data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau mewn Ardaloedd Teithio i'r Gwaith | Nifer | Llai Datblygedig | 11,442 | 2013 | Gostyngiad cyfartalog o 8% | Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn (StatsCymru) | Blynyddol |

## Disgrifiad o'r math o gamau gweithredu i'w cefnogi ac enghreifftiau ohonynt

7.80 Cefnogir nifer gyfyngedig o gynlluniau â blaenoriaeth sy'n nodi cyfleoedd twf rhanbarthol neu drefol allweddol. Caiff y cynlluniau hyn eu llywio gan nifer fach o fuddsoddiadau seilwaith allweddol a fydd yn annog buddsoddiad busnes a thwf cyflogaeth yn y rhanbarth. Mae nifer o ddulliau targedu gofodol eisoes yn bodoli ledled Cymru a dylid eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau oherwydd gallant helpu i ddarparu más critigol neu gyfleoedd penodol. Er enghraifft, mae Ardaloedd Menter Llywodraeth Cymru a'r "Dinas-Ranbarthau" sy'n datblygu yn annog buddsoddiadau yn seiliedig ar botensial clystyrau neu bolion twf (a nodweddir yn aml gan ddiwydiannau allweddol y mae diwydiannau cysylltiedig yn datblygu o'u hamgylch, yn bennaf drwy effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol) er mwyn hyrwyddo datblygu economaidd. Hefyd, mae gan Awdurdodau Lleol eu strategaethau economaidd eu hunain ar sail leol a rhanbarthol. Bydd pob un o'r rhain yn nodi gofynion seilwaith allweddol a rhydd y rhain gyfleoedd targedu strategol (e.e. helpu i nodi safleoedd ac eiddo busnes strategol allweddol).

7.81 Bydd yn hanfodol ystyried sut y gall y farchnad lafur leol achub ar gyfleoedd gwaith a gaiff eu creu drwy'r gweithrediadau a ariennir o dan yr Amcan Penodol hwn, ac yn arbennig y di-waith a'r rhai sydd dan anfantais. Tra bod y ffocws o ran lleoliad buddsoddiad ar gyfleoedd twf yn amlwg, bydd yn hanfodol i'r gweithrediadau hynny ddangos eu bod wedi nodi ardaloedd cyfagos lle ceir cyflogaeth isel neu amddifadedd a dangos sut y caiff cyfleoedd gwaith newydd eu gwneud yn hygyrch yn yr ardaloedd hynny (e.e. cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, cymorth cyflogaeth, gweithgareddau ymgysylltu ac ati). Bydd cysylltiadau ag ESF a chynlluniau eraill (e.e. Cymunedau yn Gyntaf neu fuddsoddiadau adfywio a dargedir) yn hanfodol a dylid edrych ar y cyfle i gydariannu.

7.82 Mae fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, hefyd yn ceisio targedu llai o fuddsoddiadau mewn llai o leoedd er mwyn cael yr effaith strategol fwyaf. Mae'r polisi hefyd yn rhoi pwyslais ar dystiolaeth, cynllunio strategol a chamau gweithredu cyfannol sydd nid yn unig yn canolbwyntio ar un agwedd ar adfywio (e.e. cydlyniant cymdeithasol drwy dargedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig).

7.83 Wrth geisio sicrhau cysondeb â'r dulliau gweithredu hyn, dylai camau gweithredu o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon geisio ymateb i brif egwyddor drefniadol datblygu cynaliadwy (h.y. dangos sut y gwnaiff buddsoddiadau gefnogi canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) ac, fel y cyfryw, dylent ganolbwyntio ar gyfleoedd twf (yn hytrach na cheisio lliniaru effeithiau'r dirywiad yn unig).

7.84 Disgwylir i fuddsoddiadau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon ddangos sut maent yn ategu rhaglenni buddsoddi ehangach a buddsoddiadau strategol eraill ar draws cyfres o raglenni ESI. Er enghraifft, gallai buddsoddiadau mewn llwybrau TEN-T a hygyrchedd gael eu hategu gan y gwaith o adfywio safleoedd strategol allweddol sy'n cysylltu â'r llwybrau hyn er mwyn manteisio'n llawn ar fuddsoddiad TEN-T a hygyrchedd (e.e. datblygu cyfleoedd twristiaeth a gynigir drwy well hygyrchedd i Flaenau'r Cymoedd neu gefnogi safleoedd strategol newydd ar gyfer clystyrau busnes a gweithgynhyrchu sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i fuddsoddiadau ategol mewn cysylltedd ac ynni carbon isel ym mhorthladdoedd Gogledd Cymru ac Ynys Môn).

7.85 Er mwyn cyflawni'r newid a geisir gan yr Amcan Penodol (ac a fesurir yn y dangosydd canlyniadau) disgwylir i gamau gweithredu greu nifer o swyddi newydd. Yn ogystal, byddai disgwyl i gyfran o'r swyddi newydd hyn gael eu llenwi gan geiswyr gwaith mewn ardaloedd cyfagos a dylai mesurau priodol gael eu hymgorffori mewn cynlluniau er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd (e.e. allgymorth, polisi recriwtio, cysylltiadau â rhaglenni ESF ac ati) er mwyn cael effaith ar ddata cyfrif hawlwyr. Felly, mae dull gweithredu integredig yn ddymunol er mwyn ystyried yr holl elfennau gyda'i gilydd, ond gan flaenoriaethu cyfleoedd twf ar gyfer safleoedd penodol, yn hytrach na cheisio twf cyflogaeth ymhob man.

7.86 Mathau o gamau i'w cefnogi:

- Safleoedd ac eiddo busnes mewn safleoedd strategol, gan gynnwys datblygu eiddo ac adfer tir.
- Buddsoddiadau sy'n bwysig i'r economi ym maes seilwaith ffisegol Cymru (adeiledig a naturiol/gwyrdd). Yn arbennig lle mae'n rhan allweddol o gynlluniau adfywio a datblygu economaidd integredig (fel twristiaeth, diwylliant neu asedau treftadaeth)
- Seilwaith galluogi (e.e. buddsoddi mewn ffyrdd lleol lle caiff mynediad i safle ei wella) lle mae'n rhan hanfodol o gynllun integredig sy'n cyflawni yn erbyn yr Amcan Penodol a'r dangosydd canlyniadau.

## Egwyddorion arweiniol

7.87 Ymhellach i'r egwyddorion a nodir yn yr adran uchod (e.e. cysylltiadau ag ardaloedd amddifad cyfagos, ESF a chynlluniau eraill) bydd yr holl fuddsoddiadau o dan y Flaenoriaeth Fuddsoddi hon naill ai'n cael eu cefnogi drwy Offeryn Ariannol (gweler isod) neu drwy set integredig o gamau mewn ardal ddaearyddol benodol. Lle defnyddir Offeryn Ariannol, nodir y camau targedu fel rhan o'r asesiad ex-ante dynodedig sy'n llywio maint, cwmpas a model cyflenwi'r gronfa honno.

7.88 Gallai'r camau integredig hyn ymgorffori gwahanol gamau fel y nodir uchod, ond dylai fod ganddynt ffocws clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar faes twf penodol (e.e. twristiaeth, safleoedd busnes strategol, canolfan gyflogaeth ac ati). Dylai'r rhain gael eu nodi mewn strategaethau tiriogaethol presennol (e.e. strategaeth economaidd ranbarthol neu strategaeth Dinas-Ranbarth).

7.89 Ar gyfer yr holl gymorth sydd y tu hwnt i unrhyw Offeryn Ariannol bydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu yn hanfodol. Mae'r lefel gymharol fach o gronfeydd sydd ar gael a'r lefel uchel o log a ragwelir o dan yr Amcan Penodol yn golygu mai dim ond nifer gyfyngedig o gynlluniau a flaenoriaethir yn ofodol y gellir eu cefnogi. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, actorion Cymunedol, a sefydliadau sector preifat lleol / rhanbarthol yn cydweithio er mwyn nodi a blaenoriaethu buddsoddiadau. Dylai hyn sicrhau bod unrhyw gynllun yn cael ei integreiddio'n wirioneddol ac yn canolbwyntio ar y maes twf mwyaf priodol, a thrwy hynny, ddarparu'r gwerth gorau am arian.

7.90 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn disgwyl i bob cais ddarparu tystiolaeth glir o waith partneriaeth cynhwysfawr a dangos elfen o flaenoriaethu. Bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn ceisio amrywiaeth o gyngor er mwyn sicrhau mai'r cynigion hynny sy'n cael eu hariannu yn y pen draw yw'r rhai sydd â'r potensial mwyaf i gyflawni yn erbyn yr Amcan Penodol a'r canlyniad ac yn gallu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Rhaglen Weithredol hon. Er mwyn cyflawni ar y targedau canlyniadau disgwylir i'r rhan fwyaf o'r arian gael ei ddyrannu i nifer gymharol fach o gynlluniau lle ceir y potensial mwyaf am swyddi newydd.

7.91 Disgwylir i'r ardaloedd a ddewisir fod yn ardaloedd â photensial am dwf cyflogaeth, yn hytrach na thargedu'r ardaloedd mwyaf amddifad yn syml. Dylai cymorth ERDF anelu at ddarparu'r amgylchedd cywir ar gyfer buddsoddiad preifat a gall cyfranogiad y sector preifat mewn cynllun, yn enwedig drwy gyfraniadau ariannol, fod yn un arwydd bod y cynllun yn debygol o fod yn hunangynhaliol yn y tymor hwy ac y bydd yn hanfodol. Bydd cynlluniau cymeradwy yn gallu dangos sut y byddant yn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth a gaiff eu creu yn hygyrch i'r rhai mewn ardaloedd mwy amddifad (e.e. cysylltiadau trafnidiaeth, sgiliau, defnydd posibl o ESF ac ati).

7.92 Disgwylir i bob cynnig ddangos y rhoddwyd ystyriaeth briodol i fentrau gofodol allweddol sy'n bodoli eisoes ac sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys rôl Ardaloedd

Menter, Ardaloedd Twf Lleol, Ardaloedd Gwella Busnes, Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac eraill. Byddai disgwyl i Ardaloedd Menter gael eu cynnwys mewn unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd ac eiddo busnes yn benodol.

7.93 Dylai cynigion hefyd ddangos methiant y farchnad economaidd a fydd, unwaith y'i cywirir, yn cefnogi cynnydd mewn cyflogaeth a thwf drwy optimeiddio allbwn economaidd y farchnad yn fwy effeithiol.

7.94 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd | Uned fesur | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Tir a ddatblygwyd | Ha | 50 | Data monitro | Chwarterol |
| Eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd | $M^2$ | 56,430 | Data monitro | Chwarterol |
| Swyddi y darparwyd ar eu cyfer | Nifer | 1,770 | Data monitro | Chwarterol |
| BBaChau y darparwyd ar eu cyfer | Nifer | 235 | Data monitro | Chwarterol |

## Cydgysylltu Rhwng Y Cronfeydd, EAFRD, EMFF Ac Offerynnau'r Undeb Ac Ariannu Cenedlaethol Eraill

7.95 Mae rhaglenni ESI Cymru wedi'u dylunio i fod yn ategol ac mae rhaglenni ERDF yn rhannu dadansoddiad a strwythur, gan adlewyrchu'r heriau cyffredin ar draws Cymru gyfan.

7.96 Bydd y meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu prosiectau yn profi sut mae pob prosiect wedi ystyried ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael a'r cysylltiadau a wnaed â hwy. Anogir prosiectau yn arbennig lle gallant gyfrannu at flaenoriaethau ERDF ac offerynnau ariannu UE ehangach (e.e. Horizon neu LIFE) ar yr un pryd.

7.97 Mae'r adran hon yn nodi'r cysylltiadau â chronfeydd ESI, UE eraill a'r DU yn ôl Echel Blaenoriaeth, heb ddyblygu dulliau cydgysylltu na chysylltiadau â strategaethau macro-ranbarthol a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth.

7.98 Mae gan fuddsoddiadau mewn trafnidiaeth, cysylltedd a seilwaith ffisegol ran alluogi allweddol i'w chwarae yn yr economi ac felly mae'n bwysig bod buddsoddiadau eraill yn cael eu cydgysylltu er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae cryn le i gydgysylltu â'r mesurau sgiliau a chyflogaeth o dan y rhaglen ESF yn hyn o beth, gan sicrhau bod trigolion yn gallu achub ar gyfleoedd newydd a ddaw yn sgil y buddsoddiad mewn seilwaith (gan gynnwys unrhyw fewnfuddsoddi).

7.99 Y prif offeryn cysylltiedig ar lefel yr UE yw'r cyfleuster Cysylltu Ewrop. Fe'i hystyrir yn ddewis cyntaf ar gyfer buddsoddiadau seilwaith mawr o bwys Ewropeaidd. Mae'r materion y mae angen i'r ERDF ymdrin â hwy yn canolbwyntio ar rwystrau mwy rhanbarthol a lleol sy'n cyfrannu at gynyddu gwahaniaethau rhanbarthol; yn arbennig ymyloldeb a diffyg cysylltedd rhwng marchnadoedd llafur a chanolfannau trefol a chyflogaeth allweddol. Dylai'r ddau faes buddsoddi (Cysylltu Ewrop ac ERDF) atgyfnerthu ei gilydd.

7.100 Mae rhai buddsoddiadau mawr mewn seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru wedi'u cynllunio dros gyfnod y rhaglen, er enghraifft trydaneiddio llinell reilffordd Llundain-Abertawe a llinellau Cymoedd y De. Bydd ERDF yn ceisio ychwanegu gwerth at y buddsoddiadau arfaethedig hynny drwy geisio sicrhau y gellir cael yr effaith fwyaf drwy fuddsoddiadau ategol e.e. cefnogi gweithgareddau adfywio lle mae cysylltedd ardal wedi gwella, neu sicrhau bod cysylltedd lleol yn gwella er mwyn nodi buddiannau prif fuddsoddiadau (nad ydynt yn rhai ERDF) yn ehangach.

7.101 Mae'r effaith leol a rhanbarthol a geisir o fuddsoddiadau yn yr Echel Blaenoriaeth hon yn gyfyngedig i gyfleoedd cydweithredu rhyngwladol, er y dylai unrhyw feysydd arfer gorau neu arloesedd gael eu hystyried wrth ddylunio'r cynllun.

7.102 Mae pwysigrwydd buddsoddiadau seilwaith i economi Cymru, ynghyd â'r diffyg adnoddau i'w cefnogi, wedi arwain at Lywodraeth Cymru yn ystyried amrywiaeth o ddulliau ariannu arloesol er mwyn cefnogi'r buddsoddiadau

hanfodol hynny. Lle y ceir cyfleoedd, ceisir cyllid EIB er mwyn cydfuddsoddi mewn gwelliannau seilwaith yn ardal y rhaglen.

7.103 Dylai cynigion datblygu trefol fod yn gysylltiedig â chronfeydd a rhwydweithiau cysylltiedig, yn dibynnu ar y rhanbarth neu'r awdurdod trefol dan sylw. Gallai hyn gynnwys URBACT, Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, LIFE, CIVITAS, Porth Symudedd Trefol, CONCERTO, Dinasoedd Deallus a Phartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd Cymunedau, a chysylltiadau ag ardaloedd gwledig drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

# 8. ECHEL BLAENORIAETH 5: Cymorth Technegol

8.1. Caiff camau a ariennir Cymorth Technegol (CT), fel gyda rhaglenni 2007-2013, eu datblygu fel rhan o flaenoriaethau mono gronfa ond fe'u cyflawnir gan yr Awdurdod Rheoli (ARh) a'r rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o gamau cydweithredol ac integredig ar draws rhaglenni ERDF ac ESF ardaloedd rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Adlewyrchir y dull gweithredu a amlinellir yn yr echel blaenoriaeth isod ar draws yr ardaloedd rhaglen hyn ac fe'u hadlewyrchir yn y dangosyddion canlyniadau ac allbwn a ddewisir.

8.2. Mae'r dull gweithredu yn adeiladu ar y broses lwyddiannus o gyflawni gweithgarwch CT yn rhaglenni 2007-2013 a ddefnyddiodd CT i wella trefniadau gweithredu, gan ddarparu adnoddau ychwanegol ym maes cefnogi a datblygu rhaglen, gweithgarwch ymchwil a monitro a hyrwyddo rhaglen. Hefyd, defnyddiwyd CT i gefnogi costau cyflogau yn uniongyrchol gan yr ARh a'r rhanddeiliaid perthnasol.

8.3. Ystyrir bod cefnogi costau cyflog uniongyrchol o fewn rhaglenni 2014-2020 yr ARh, yr Awdurdod Ardystio (AA), yr Awdurdod Archwilio a phartneriaid yn elfen bwysig o gyflawni'r rhaglenni. Ar gyfer rhaglenni 2014-2020, cynigir y dylid defnyddio CT i barhau i gefnogi'r swyddi hynny a nodwyd yn rhaglen 2007-2013 fel rhai a oedd yn cynyddu capasiti swyddogaethau gweinyddol yr awdurdodau a'r partneriaid perthnasol. Yn unol â hyn, caiff unrhyw swyddi ychwanegol newydd ar gyfer rhaglenni 2014-2020 i ddatblygu ymhellach swyddogaeth archwilio a gweinyddol yr ARh, AA a'r Awdurdod Archwilio eu cefnogi gan CT hefyd. Defnyddir adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ochr yn ochr ag adnoddau CT.

8.4. Cynhaliwyd nifer o werthusiadau lefel rhaglen ac adolygiadau allanol yn ystod rhaglenni 2007-2013[197] sydd wedi cwmpasu nifer o feysydd a gefnogir gan weithgarwch wedi'i ariannu CT gan gynnwys:

- y trefniadau rheoli a monitro rhaglen gwell, i gynnwys swyddogaeth y Swyddog Datblygu Prosiect (SDP);
- arweiniad a chymorth arbenigol a thechnegol, gan gynnwys y Timau Ewropeaidd Arbenigol (TEA) a'r timau Trawsbynciol;
- ymchwil a gwerthuso;

[197] The Guilford Review of Implementation Arrangements (2012): WEFO Customer Insight Survey 2009: The Effectiveness of Implementation in the 2007-2013 Structural Funds Programming Period Final Report. (Ionawr 2011); Thematic Evaluations of 2007-2013 EU Structural Funds Programmes; and Spatial European Teams Evaluation (Tachwedd 2010)

- gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys gweithredu llinell gymorth i gwsmeriaid;
- trefniadau archwilio wedi'u hatgyfnerthu a rheoli afreoleidd-dra

8.5. Dangosodd canfyddiadau'r gwerthusiadau bod cymorth eang i rôl SDP a gwasanaethau cymorth i fuddiolwyr, a gyflenwir drwy'r ARh a'r TEA yn cyflwyno buddiannau rhaglen gwirioneddol ac yn sicrhau bod y prosesau arfarnu a rheoli yn cael eu deall yn dda ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r broses lwyddiannus o reoli rhaglenni 2007-2013 Cymru hefyd wedi cael ei chydnabod drwy nifer o wobrau i Gymru gan gynnwys Gwobrau 'Rhanbarth Rhagoriaeth' a thair gwobr RegioStarts seiliedig ar brosiect.

8.6. Mae'n bwysig bod cronfeydd CT yn cael eu defnyddio yn ystod rhaglenni 2014-2020 er mwyn cynnal y sefyllfa gref hon a chyflawni rhagor o welliannau

## **Amcan Penodol 5.1:** Sicrhau bod rhaglenni 2014-2020 yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

### Canlyniadau disgwyliedig

8.7. Nod Amcan Penodol 1 yw sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu cyflawni mewn ffordd effeithlon ac effeithiol yng Nghymru. Y mesur allweddol sy'n sail i'r amcan hwn ac sy'n ffurfio rhan o'r adroddiad cydymffurfiaeth ar gyfer y rhaglen yw'r gyfradd afreoleidd-dra. Mae'r mesur hwn yn nodi cyfanswm gwerth afreoleidd-dra'r rhaglen a adroddwyd i OLAF fel canran o gyfanswm y gwariant cymwys ardystiedig a hawliwyd gan brosiectau.

8.8. Yn 2013 roedd y gyfradd afreoleidd-dra ar gyfer y rhaglen yn 0.53%, ymhell islaw'r  trothwy o 2% a ddefnyddiwyd gan y CE i gymryd camau cywirol.

8.9. Hefyd, caiff cyfradd wallau WEFO, a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Archwilio yn yr Adroddiad Rheoli Blynyddol, ei defnyddio fel mesur er mwyn cefnogi a mesur y broses o gyflawni'r Amcan Penodol.  Roedd cyfradd wallau WEFO ym mis Rhagfyr 2012 ar gyfer ardaloedd y rhaglen yn 0.81%.

## **Amcan Penodol 5.2:** Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau.

### Canlyniadau disgwyliedig

8.10. Nod Amcan Penodol 2 yw gwella lefelau boddhad cwsmeriaid drwy roi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau. Wedi'i fesur ar draws gweithgarwch a ariennir CT ar gyfer yr holl gronfeydd Strwythurol yng Nghymru mae'n adlewyrchu boddhad buddiolwyr â'r gwasanaeth a gafwyd gan WEFO ar gyfer yr holl weithrediadau cymeradwy.

8.11. Y gyfradd boddhad cwsmeriaid gyffredinol sylfaenol, sy'n dyddio o 2009, yw 45%[198].

8.12. Nod Amcan Penodol 2 yw sicrhau bod y rhaglenni'n ategu'r holl gronfeydd ESI yng Nghymru, ynghyd â rhaglenni ehangach y Comisiwn, Llywodraeth Cymru ac a Arweinir gan y Sector a'u bod yn cael eu hintegreiddio â hwy.  Caiff y gweithgarwch hwn ei fesur yn bennaf ar ffurf allbynnau fel nifer y prosiectau cydweithredol a gyflawnir.

## **Amcan Penodol 5.3:** Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill a rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, ynghyd â'u natur ategol.

### Canlyniadau disgwyliedig

8.13. Nod Amcan Penodol 3 yw sicrhau bod y rhaglenni'n ategu'r holl gronfeydd ESI yng Nghymru, ynghyd â rhaglenni ehangach y Comisiwn, Llywodraeth Cymru ac a Arweinir gan y Sector a'u bod yn cael eu hintegreiddio â hwy.  Caiff y gweithgarwch hwn ei fesur yn bennaf ar ffurf allbynnau fel nifer y prosiectau cydweithredol a gyflawnir.

### Dangosyddion canlyniadau

| Dangosydd | Uned Fesur | Gwerth Sylfaenol | Blwyddyn sylfaenol | Gwerth Targed (2023) | Ffynhonnell data | Amlder adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Afreoleidd-dra | Canran | 0.53% | 2013 | Llai na 2% | Adroddiad Cydymffurfiaeth WEFO | Blynyddol |
| Cyfradd wallau WEFO | Canran | 0.81% | 2013 | Llai na 2% | Adroddiad Cydymffurfiaeth WEFO | Blynyddol |
| Boddhad Cwsmeriaid | Canran | 45% | 2009 | 50% | Arolwg o Farn Cwsmeriaid | Untro |

### Camau

8.14. Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen yn effeithiol. Mae'r broses o gyflawni rhaglenni 2014-2020 yn gofyn am bwyslais parhaus ar waith cyflenwi strategol gyda mwy o gysoni ac unioni â buddsoddiadau Cronfa ESI drwy grynodi adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau cynaliadwy ar gyfer swyddi a thwf.

[198] WEFO Customer Insight Survey 2009 - Dyma ganran y rhyngweithio, lle cafodd y gweithrediad ei gymeradwyo, yr oedd y buddiolwr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth a gafwyd

8.15. Yng Nghymru, ceir nifer o feysydd allweddol a gaiff eu datblygu a'u cyflawni gan sefydliadau partner a'r ARh ei hun er mwyn cyflawni'r amcanion a sicrhau bod rhaglenni'n cyflawni'r lefel o integreiddio, crynodi a ffocws sydd ei hangen. Nid yw'r camau a gymerir yn annibynnol ar unrhyw un o'r amcanion ac felly maent wedi'u grwpio ar sail chwe maes buddsoddi allweddol a fydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod yr amcanion a'r canlyniadau cysylltiedig wedi'u cyflawni.

8.16. Bydd costau cyflog, fel gyda rhaglenni 2017-13, yn rhan bwysig o'r broses o gyflawni gweithgarwch a ariennir CT ar gyfer yr ARh, AA, yr Awdurdod Archwilio a phartneriaid cyflenwi ehangach. Eir i'r costau cyflog hyn fel rhan o'r holl weithgareddau isod a gwellir y gallu i gyflawni amcanion cyffredinol y flaenoriaeth CT.

8.17. Mae gan yr ARh a'i bartneriaid gryn brofiad yn gweithredu CT yn y ffordd hon. Bydd yr holl swyddi a ariennir drwy CT yn amodol ar bolisïau Adnoddau Dynol a chydnabyddiaeth y sefydliad cyflogi.

## Rheoli

8.18. Bydd y gwaith o integreiddio cronfeydd yn dwyn heriau gweinyddol newydd i'r ARh, er enghraifft wrth gyflawni mwy o rôl ar gyfer Offerynnau Ariannol ac integreiddio swyddogaethau arbenigol fel Themâu Trawsbynciol[199]. Bydd camau gweithredu yn gwella ac yn atgyfnerthu cymorth a datblygiad rhaglenni strategol ac integredig.

8.19. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:

- Parhau i wella'r swyddogaeth rheoli rhaglen fewnol wrth ddatblygu a chyflawni rhaglenni integredig a chynaliadwy;
- Parhau i ddatblygu gwybodaeth arbenigol yr ARh a'r rhanddeiliaid drwy weithgareddau hyfforddi a rhwydweithio rheolaidd;
- Llywio a chefnogi datblygiad prosiectau, annog arloesedd, cydweithredu trawsgenedlaethol, rhannu arfer da a phrif ffrydio;
- Camau, yn unol â'r rhai a amlinellir yn Adran 10, sy'n ceisio lleihau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr;
- Darparu cyngor technegol a swyddogaethau arbenigol o ansawdd uchel, mewn meysydd sy'n ymwneud â'r canlynol, er enghraifft: gwaith caffael, arbenigedd ariannol (i gynnwys Offerynnau Ariannol) a gwyddonol, datblygu prosiect, datrys cwynion, arloesedd a chydymffurfiaeth;
- Datblygu a gwella systemau TG pwrpasol ac integredig ar gyfer cyflwyno Cronfeydd ESI a helpu e-Gydlyniant;
- Rhoi cyngor a chymorth arbenigol i brosiectau ar integreiddio, gweithredu a monitro'r themâu trawsbynciol.

## Partneriaeth a Rhwydweithio

[199] WEFO Customer Insight Survey 2009 a The Effectiveness of Implementation in the 2007-2013 Structural Funds Programming Period

8.20. Mae partneriaethau a rhwydweithiau cryf wrth wraidd y broses lwyddiannus o weithredu'r rhaglenni ac integreiddio cronfeydd ESI ar bob lefel. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys partneriaid cymdeithasol, a rhanddeiliaid allweddol wrth weithredu a chyflawni rhaglenni.

8.21. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:

- Annog a hwyluso prosiectau cydweithredol a ffyrdd cydweithredol o weithio;
- Cysoni â rhaglenni a arweinir gan y Comisiwn Ewropeaidd, cronfa ESI a seiliedig ar Sector;
- Gwella'r gallu i gydgysylltu ar draws rhaglenni ac integreiddio cronfeydd ESI â gwariant a rhaglenni cenedlaethol;
- Atgyfnerthu dulliau cydgysylltu a chysylltu â phartneriaethau a hyrwyddo gwaith partneriaeth.

## Monitro

8.22. Sefydlir Pwyllgor Monitro Rhaglenni unigol i oruchwylio effeithiolrwydd ac ansawdd rhaglenni Cronfa ESI ynghyd â'r broses o'u hintegreiddio[200]. Lle bo cymhwysedd yn caniatáu, defnyddir CT er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei rheoli mewn ffordd effeithlon ac effeithiol drwy gefnogi dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

8.23. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sefydlu Ysgrifenyddiaeth i reoli trefniadau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer holl raglenni Cronfa ESI. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cymeradwyo, yn rheoli ac yn monitro'r holl wariant Cymorth Technegol a ddatgenir mewn perthynas â chyfarfodydd a swyddogaethau'r Pwyllgor, gan sicrhau na chaiff gwariant ei ddatgan fwy nag unwaith yn erbyn Cronfa ESI wahanol. Dyrennir costau'r Pwyllgor ar draws rhaglenni Cronfa ESI, yn seiliedig ar faint perthynol (gwerth cyfraniad yr UE) pob rhaglen.

8.24. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:

- Gwell cymorth rheoli i'r Pwyllgor a gwell adroddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd; a;
- Gwariant ar y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cynnwys treuliau a ffioedd ar gyfer arbenigwyr penodedig (caiff arbenigwyr a benodir i'r Pwyllgor ar sail teilyngdod gydnabyddiaeth yn unol ag arfer arferol Llywodraeth Cymru).

## Ymchwil a Gwerthuso

[200] ERDF ac ESF (Rhanbarthau Llai Datblygedig a Mwy Datblygedig) ac EAFRD

8.25. Mae Ymchwil a Gwerthuso yn parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o helpu'r ARh i reoli rhaglenni'n effeithiol. Bydd y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso arbenigol o fewn yr ARh yn parhau i ddylunio, cynnal a rheoli gwerthusiadau lefel rhaglen a darparu neu gyrchu cyngor ac arweiniad arbenigol ar gyfer gwerthusiadau lefel prosiect.

8.26. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:

- Gwaith ymchwil a gwerthuso ar lefel rhaglenni, yn cynnwys ymchwilio i'r Themâu Trawsbynciol;
- Rhoi cyngor a chanllawiau ar werthuso i sefydliadau noddi;
- Lledaenu gwybodaeth am ymchwil a gwerthuso a digwyddiadau gweithdy;
- Rheoli ymarferion ymchwil a gwerthuso, er enghraifft drwy'r Grŵp Cynghori ar Werthusiadau.

## Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

8.27. Mae llwyddiant y broses o integreiddio rhaglenni a ariennir gan ESI yn dibynnu i raddau helaeth ar ddealltwriaeth eang ymhlith y noddwyr, y partneriaid a'r rhanddeiliaid o'i chynnwys, rheoliadau llywodraethu, a nodau ac amcanion. Mae hefyd yn hanfodol y rhoddir cyhoeddusrwydd eang i fanteision a chyflawniadau'r rhaglenni er mwyn amlygu'r gwerth a ychwanegir gan y gwaith partneriaeth rhwng yr UE a Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

8.28. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:

- Lledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu yn cynnwys canllawiau i bartneriaid a noddwyr, seminarau a gweithdai a digwyddiadau rhwydweithio;
- Lledaenu a hyrwyddo effeithiau gwell integreiddio â chronfeydd ESI a rhaglenni sector ehangach e.e. Horizon 2020;
- Datblygu a chynnal gwefan WEFO;
- Mentrau amrywiaeth a hygyrchedd;
- Gweithredu Llinell Gymorth.

## Archwilio a Rheoli

8.29. Mae WEFO a'r Awdurdod Archwilio wedi meithrin cryn gryfder ym maes archwilio a rheoli o fewn rhaglenni 2007-2013. Bydd gwella'r swyddogaethau archwilio a rheoli ymhellach, ochr yn ochr ag uned gydymffurfio ddynodedig yn sicrhau bod WEFO yn parhau i adeiladu ar gryfderau a ddatblygwyd ac yn achub ar y cyfle y gall buddsoddiadau cronfeydd strwythurol ei gynnig.

8.30. Bydd y camau gweithredu yn cynnwys:

- Trefniadau archwilio gwell i sicrhau bod y rhain yn gweithio'n effeithiol, gan wella ansawdd ac amseroldeb;
- Gwella gwaith monitro a chyflwyno adroddiadau o ran afreoleidd-dra;

- Gwell cymorth i drechu twyll a llygredd;
- Rhoi cyngor a chanllawiau cyson i noddwyr a phartneriaid drwy uned gydymffurfio WEFO.

## Dangosyddion allbwn

| Dangosydd (enw'r dangosydd) | Uned fesur | Gwerth targed (2023) | Ffynhonnell data |
|---|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd* | Nifer | 10 | Data monitro |
| Contract Fframwaith ar gyfer Arbenigedd ar waith ar gyfer cyflawni prosiectau* | Nifer | 1 | Data monitro |
| Nifer y prosiectau sy'n cael asesiad ffurfiol o integreiddio themâu trawsbynciol | Canran | 90 | Data monitro |
| Nifer yr adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd | Nifer | 114 | Data monitro |
| Nifer y prosiectau a gafodd cyngor Monitro a Gwerthuso | Canran | 100 | Data monitro |
| Nifer y digwyddiadau lledaenu* | Nifer | 6 | Data monitro |
| Nifer y digwyddiadau a drefnwyd gan WEFO* | Nifer | 10 | Data monitro |
| Nifer y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd* | Nifer | 150 | Data monitro |
| Nifer y lansiadau prosiect proffil uchel | Canran | 50 | Data monitro |
| Nifer yr e-gylchlythyrau a ddosbarthwyd* | Nifer | 72 | Data monitro |
| Canran yr ymholiadau a ddatryswyd o fewn pum diwrnod gwaith | Canran | 75 | Data monitro |
| Nifer yr ymweliadau archwilio | Canran | 50 | Data monitro |
| Nifer y cyflogeion CALI (cyfwerth ag amser llawn) y caiff eu cyflogau eu cydariannu gan TA | Number | N/A | Monitoring data |

* Mae'r targedau'n cwmpasu rhaglenni gweithredol ESF (ac ERDF). Oherwydd y ffordd y mae'r Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo cyllid yr UE nid oes modd dyrannu'r gweithgarwch hwn i bob rhaglen

# 9. Dull integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol

## Disgrifiad o'r dull integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol

9.1. Mae rhaglenni ESI Cymru wedi cael eu datblygu i gyd gyda'i gilydd, gan fwrw golwg cyfannol ar draws Cymru gyfan. Bydd gwaith targedu gofodol effeithiol yn ffordd allweddol o gefnogi'r gwaith o integreiddio a chrynodi cronfeydd yn seiliedig ar anghenion a chyfleoedd tiriogaethol penodol yn y ffordd fwyaf priodol (cenedlaethol, rhanbarthol, isranbarthol neu leol). Nid yw rhanbarthau NUTS2 yn ystyried ardaloedd economaidd swyddogaethol is-ranbarthol yng Nghymru, fel Dinas-Ranbarth Caerdydd yn y de-ddwyrain neu Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe yn y de-orllewin[201]. Felly anogir dulliau integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol yn seiliedig ar waith cynllunio strategol. Mae Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd Cymru[202] yn ategu'r Rhaglenni Gweithredol amrywiol, gan helpu i nodi gwaith targedu gofodol allweddol sydd eisoes yn mynd rhagddo a chyfleoedd allweddol i fuddsoddi yn y dyfodol.

9.2. Mae strategaethau gofodol yn dod i'r amlwg i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ardaloedd trefol (strategaethau Dinas-Ranbarth, ardaloedd gwledig (mentrau Ardaloedd Twf[203]), a safleoedd strategol (Ardaloedd Menter[204]). Mae gan bob menter ei threfniadau cynllunio a llywodraethu strategol ei hun, a ategir drwy waith cynllunio llywodraeth leol a rhanbarthol (e.e. Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol).

9.3. Nodir anghenion cyffredin clir ar draws pob dadansoddiad gofodol, gyda'r angen am gysylltedd gwell drwy fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yn brif flaenoriaeth (er bod yr heriau yn wahanol). Mae meysydd blaenoriaeth eraill yn dibynnu'n fwy ar y maes ond yn gyffredinol maent yn cynnwys seilwaith strategol (safleoedd busnes, twristiaeth neu hygyrchedd), sgiliau (er mwyn ymdrin â diffygion) a denu buddsoddiad preifat (e.e. drwy gymorth busnes); gan adlewyrchu'n ofalus y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer cronfeydd ESI Cymru.

---

[201] I weld yr adroddiad ar Ddinas-Ranbarthau: http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/120711cityregions/?lang=en

[202] Caiff fersiynau drafft cynnar eu cyhoeddi ar wefan WEFO, gyda drafft diwygiedig sy'n ymgorffori elfennau gofodol i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2014. Gweler: http://wefo.wales.gov.uk/applyingforfunding/funding2014-2020/epf/?skip=1&lang=cy

[203] Er enghraifft ym Mhowys (http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/policy/plgzones/?skip=1&lang=cy) a Dyffryn Teifi (http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/policy/teifi/?skip=1&lang=cy)

[204] Nodwyd Saith Ardal Fenter ledled Cymru, gyda phob un yn canolbwyntio ar sectorau penodol. Rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.enterprisezones.wales.gov.uk

9.4. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio gyda buddiolwyr i nodi'r pecyn ariannu mwyaf priodol ar draws cronfeydd ESI. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i fuddsoddiadau â dimensiwn tiriogaethol clir. Bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i ardaloedd arbennig o amddifad, yn enwedig y mannau hynny a nodir yn Adran 5 fel rhai sy'n dioddef amddifadedd. Y flaenoriaeth ar gyfer y rhaglen hon fydd i fuddsoddiadau dargedu cyfleoedd twf a all helpu i wella rhagolygon cyflogaeth nid yn yr unig yn yr ardal a gefnogir, ond mewn ardaloedd cyfagos hefyd.

9.5. Rhaid i fuddsoddiadau cydgysylltiedig mewn canolfannau twf lleol gael eu cefnogi drwy amrywiaeth o wahanol ffynonellau ariannol er mwyn cael effaith wirioneddol. Felly, disgwylir i arian o'r rhaglen hon gyfrannu at strategaethau tiriogaethol integredig cyfannol (e.e. strategaeth economaidd ranbarthol neu strategaeth dinas-ranbarth). Disgwylir cymorth dynodedig, yn unol â'r egwyddorion ar gyfer Datblygu Trefol Cynaliadwy, o dan Echel Blaenoriaeth 4 ar gyfer datblygu safleoedd strategol mewn ffordd a dargedir.

## Datblygiadau lleol o dan arweiniad cymunedau

9.6. Nodir y dull gweithredu cyffredinol yn y Cytundeb Partneriaeth. Ni ragwelir unrhyw gefnogaeth i waith Datblygu Lleol a Arweinir gan y Gymuned (DLlAG) fel y nodir yn Erthygl 32 o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin ar gyfer y Rhaglen Weithredol hon.

9.7. Er mwyn sicrhau dull integredig o gyflawni gwaith datblygu tiriogaethol anogir cysylltiadau uniongyrchol rhwng DLlAG a gefnogir drwy'r EAFRD (o dan LEADER) a buddsoddiadau a wneir o dan ERDF. Dylai hyn helpu i fwyhau unrhyw fentrau LEADER a fu'n hynod lwyddiannus â'r potensial i gyflawni canlyniadau ERDF.

9.8. Bydd y cydgysylltu rhanbarthol a ddisgrifiwyd yn y Cytundeb Partneriaeth yn gyswllt allweddol rhwng buddsoddiadau DLlAG a wneir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig a'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau mwy o faint o dan yr ERDF.

9.9. Rhagwelir mai rhan o'r gwaith cydgysylltu rhanbarthol cryfach a gyflwynir yn 2014-2020 (ac a argymhellwyd gan Adroddiad Guilford) fydd nodi cysylltiadau rhwng gwahanol gronfeydd ESI. Yna, dylai fod gan fentrau DLlAG llwyddiannus a ariennir drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig y potensial i gael eu mwyhau gan ddefnyddio ERDF neu gronfeydd eraill. Er enghraifft, gallai cynllun peilot arloesol sy'n ymwneud ag ynni cymunedol drwy LEADER gael ei fwyhau i gynllun rhanbarthol neu genedlaethol drwy ERDF (Amcan Penodol sy'n anelu at gynyddu nifer y cynlluniau ynni cymunedol).

9.10. Ni chredwyd ei bod yn briodol defnyddio ERDF ochr yn ochr ag EAFRD ar gyfer DLlAG am ddau reswm allweddol: yn gyntaf mae'r strategaethau ar gyfer y ddwy gronfa yn wahanol, gydag EAFRD yn gweithredu ar lefel leol ac ERDF yn ceisio buddsoddiad sy'n bwysig yn rhanbarthol ac yn genedlaethol; ac yn ail am fod y mathau o weithgarwch a gefnogir yn debyg iawn ar gyfer y ddwy gronfa. Nodir y gwaith cydgysylltu a gynllunnir rhwng y cronfeydd yn fwy

manwl yn Adran 2 o'r Cytundeb Partneriaeth ac Adran 8 o'r Rhaglen Weithredol hon.

## Camau integredig ar gyfer gwaith datblygu trefol cynaliadwy

9.11. Ni ddefnyddir unrhyw ERDF i gefnogi gwaith datblygu trefol cynaliadwy yn unol ag Erthygl 7(2) o reoliad ERDF. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi sut y gwnaiff y DU fodloni gofynion ar gyfer 5% o ERDF yn y maes hwn.

9.12. Fodd bynnag, cefnogir camau integredig sy'n cefnogi gwaith datblygu trefol cynaliadwy yn ardal y rhaglen yn unol ag ysbryd y rheoliadau (gan gynnwys y defnydd o strategaethau, cynnwys partneriaid mewn penderfyniadau a chamau cydgysylltiedig). Ni fydd y rhain yn cydymffurfio'n llawn oherwydd ni chaiff ei gyflawni drwy'r defnydd o Raglen Weithredol, Echel Blaenoriaeth neu ITI cwbl ar wahân; na thrwy ddirprwyo tasgau i'w dethol yn llawn.

9.13. Rydym yn awyddus i sicrhau nad yw strategaethau tiriogaethol integredig ond yn ymwneud â sicrhau a gwario cronfeydd UE a'u bod felly yn annog y defnydd o strategaethau economaidd sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chreu rhai newydd. Dylai hyn helpu i sicrhau bod unrhyw gamau a gefnogir ar draws yr economi yn cael eu hintegreiddio'n wirioneddol yn hytrach na dim ond â chronfeydd ESI eraill. Er enghraifft, gall buddsoddiad mewn tai, gofal iechyd, addysg a mewnfuddsoddi oll fod yn ysgogwyr tiriogaethol allweddol ac ni fyddent yn rhan o ddull gweithredu a oedd ond yn canolbwyntio ar wario cronfeydd ESI.

9.14. Anogir rôl glir ar gyfer awdurdodau rhanbarthol a threfol priodol wrth helpu i gynllunio a chyflawni'r rhaglenni, gan adeiladu ar y cydweithredu a ddatblygwyd yn ystod 2007-2013. Bydd rôl ar gyfer awdurdodau rhanbarthol a threfol wrth ddatblygu a blaenoriaethu cyfleoedd allweddol yn helpu i ddangos cydweddu strategol clir â'r Awdurdod Rheoli a gellir ei gefnogi drwy'r defnydd o Gymorth Technegol.

9.15. Rhagwelwn y bydd pob rhan o raglen ERDF yn gallu cefnogi strategaethau integredig ar gyfer gwaith datblygu trefol cynaliadwy. Cyflawnir y buddsoddiadau seilwaith ffisegol strategol (heb gynnwys unrhyw ddyraniad i Offeryn Ariannol dynodedig) o dan Flaenoriaeth 4 yn unol ag egwyddorion gwaith Datblygu Trefol Cynaliadwy gan eu bod yn ysgogwyr allweddol strategaethau tiriogaethol integredig. Bydd gostyngiadau sylweddol yng nghyfran yr arian sydd ar gael i fuddsoddi yn y maes hwn (sy'n berthynol i 2007-2013) er mwyn bodloni gofynion rheoliadol, ond rydym yn dal i anelu at ddarparu tua 10% o raglen ERDF er mwyn helpu i lywio'r math hwn o dwf rhanbarthol.

9.16. Nodweddion cyffredin strategaethau integredig ar gyfer gwaith datblygu trefol cynaliadwy yw gwelliannau mewn cysylltedd a buddsoddi mewn seilwaith busnes, twristiaeth a threftadaeth. Y nod wrth fuddsoddi mewn cysylltedd i ac o ganolfannau trefol allweddol, ac yn yr arlwy seilwaith ffisegol (ar gyfer busnesau ac ymwelwyr) o fewn y canolfannau hynny, yw creu cyfleoedd tiriogaethol newydd, gan gynnwys mewnfuddsoddi. Yr her yw sicrhau nad yw

buddsoddi yn digwydd ar ei ben ei hun ond ei fod yn cynnig cyfleoedd adfywio ac yn annog mwy o fuddsoddiad gan y sector preifat).

9.17. Os caiff ei gydgysylltu â gweithgareddau eraill, gellir ategu pecyn integredig o gymorth ar gyfer adfywio lle drwy un buddsoddiad (neu nifer fach o fuddsoddiadau) mewn seilwaith ffisegol neu well cysylltedd. Cefnogir yr elfennau hyn o dan Echel Blaenoriaeth 4, a lle y caiff buddsoddiadau o'r fath eu cefnogi disgwylir iddynt fod yn rhan wedi'i blaenoriaethu o strategaeth diriogaethol integredig yn unol ag egwyddorion Datblygu Trefol Cynaliadwy. At hynny, dylent ddangos sut y gwnaiff y buddsoddiad hwnnw ategu mentrau eraill (e.e. buddsoddi mewn sgiliau, marchnadoedd llafur lleol, buddsoddi mewn busnes ac ati).

## Buddsoddiad Tiriogaethol Integredig (ITI)

9.18. Nid oes unrhyw fwriad uniongyrchol i ddefnyddio cyfryngau Buddsoddiad Tiriogaethol Integredig. Amlinellir y dull gweithredu hwn a chyfnod adolygu yn y bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y DU.

9.19. Ar hyn o bryd, teimlir y gellir cyflawni'r un buddiannau drwy drefniadau gweithredu a gynlluniwyd gan Gymru na fyddent yn gofyn am ragddethol dyraniadau ariannol neu ofynion adrodd a monitro newydd. Mae Awdurdodau Rheoli Cymru yn ceisio sicrhau mwy o integreiddio a chydgysylltu rhwng holl gronfeydd ESI yng Nghymru, ac fel gwlad fach gallant weithio'n agos gyda phartneriaid ledled Cymru i gyflawni buddsoddiadau tiriogaethol integredig heb fod angen cyflwyno trefniadau gweinyddol newydd.

9.20. Anogir awdurdodau rhanbarthol a threfol i ddefnyddio prosesau cynllunio a chydgysylltu sy'n bodoli eisoes (er mwyn cyflawni strategaethau tiriogaethol presennol) er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau ar gyfer eu hardaloedd tiriogaethol. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio gyda'r awdurdodau hyn er mwyn helpu i nodi'r pecyn ariannu ESI mwyaf priodol, os yw'n berthnasol. Er enghraifft, gallai pecyn cymorth integredig gael ei ddatblygu ar draws cronfeydd ESI er mwyn helpu i ddatblygu Dinas-Ranbarth neu Ardal Fenter, ond nid oes angen i hyn gael ei wneud drwy ITI, dim ond drwy waith cynllunio a chydgysylltu effeithiol.

## Camau rhyngranbarthol a thrawsgenedlaethol

9.21. Her allweddol i'r rhaglen fydd prif ffrydio camau cydweithredu'n fwy effeithiol a chyflawni gwell cydgysylltu rhyngwladol. Mae hyn yn hynod bwysig ar gyfer pob buddsoddiad ym maes Ymchwil ac Arloesedd - o ran yr amcan thematig dynodedig a'r amcan thematig Carbon Isel. Mae diffyg partneriaid a rhwydweithiau rhyngwladol yn rhwystr allweddol i sefydliadau ymchwil yng Nghymru rhag cael arian ymchwil cystadleuol ac mae angen ymdrin â hyn yn uniongyrchol mewn unrhyw gymorth a roddir drwy'r rhaglen hon. Disgwylir i'r rhan fwyaf o brosiectau a gefnogir yn y meysydd hyn drwy'r rhaglen hon ymgorffori rhyw fath o weithgarwch trawsgenedlaethol.

9.22. Yn Strategaeth Blue Growth y Comisiwn, tynnwyd sylw at y ffaith bod y sector ynni morol yn un o bum maes datblygol yn yr 'economi las' a allai helpu i greu swyddi mewn ardaloedd arfordirol. Mae mentrau eraill y Comisiwn, fel y ddogfen gyfathrebu ar Dechnolegau ac Arloesedd Ynni a Chynllun Gweithredu'r Iwerydd, wedi cydnabod pwysigrwydd ynni cefnfor ac yn anelu at annog cydymchwil a datblygu a chydweithredu trawsffiniol er mwyn hybu ei ddatblygiad. At hynny, mae dogfen gyfathrebu'r Comisiwn ar Ynni Glas yn ystyried y potensial i'r sector ynni cefnfor gyfrannu at amcanion Strategaeth Ewrop 2020.

9.23. O bosibl, ceir cyfleoedd hefyd i gyflawni gweithgareddau cydweithredu o dan flaenoriaethau Cystadleurwydd BBaCh a Chysylltedd a Datblygu Trefol, er y bydd llai o weithredu uniongyrchol i annog y rhain. Dylai cymorth BBaChau, mentrau cyllid BBaCh a chamau integredig ar gyfer gwaith adfywio, trafnidiaeth gynaliadwy a rhwydweithiau geisio adeiladu ar arfer gorau rhyngwladol o ran cynllunio gofodol ac arbenigedd technegol.

9.24. Hefyd, gwneir cysylltiadau uniongyrchol rhwng y rhaglen hon a'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd y mae ardal y rhaglen yn cymryd rhan ynddynt. Ceir nifer o amcanion cyffredin, y ceisir pecynnau ariannu ategol ar eu cyfer: yn arbennig, amcanion ar gyfer Ymchwil ac Arloesedd, Ynni Adnewyddadwy, Newid i Garbon Isel a buddsoddi mewn seilwaith sydd o ddiddordeb cyffredin (e.e. gallai camau i ddiogelu'r amgylchedd morol a chyfnewid arfer gorau ar lefel Ewropeaidd gael eu cydgysylltu â chamau Ymchwil ac Arloesedd er mwyn datblygu adnoddau ynni morol). Mae Cymru hefyd yn cymryd rhan yn rhaglen drawsffiniol Iwerddon / Cymru, Rhaglen Ardal yr Iwerydd a rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop.

### Strategaethau macro-ranbarthol a basn môr

9.25. Ymgorfforir y DU yn Strategaeth yr Iwerydd a ddisgrifir yn y Cytundeb Partneriaeth. Anogir cysylltiadau lle mae cyfleoedd yn codi mewn ardaloedd twf glas, a chydweithredu ym maes ymchwil ac arloesedd (yn enwedig yr hyn sy'n cefnogi ynni morol a'r amgylchedd a Her Fawr ynni).

# 10. Partneriaid perthnasol ynghyd â'u rô l

## Awdurdodau a chyrff perthnasol

| Awdurdod / corff | Enw'r awdurdod/corff, a'r adran neu'r uned | Pennaeth yr awdurdod/corff (rôl neu swydd) |
|---|---|---|
| Awdurdod Rheoli | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) | Prif Weithredwr WEFO |
| Awdurdod ardystio, lle bo'n gymwys | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | Pennaeth yr Awdurdod Ardystio |
| Awdurdod archwilio | Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (Llywodraeth Cymru) | Pennaeth Sicrwydd a Llywodraethu Corfforaethol (Llywodraeth Cymru) |
| Y corff y bydd y Comisiwn yn gwneud taliadau iddo | Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad (Llywodraeth Cymru) | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad |

## Cynnwys partneriaid perthnasol

10.1. Mae'r Rhaglen Weithredol wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Mae WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli, wedi arwain y blaen ac wedi bod yn gyfrifol am lunio'r Rhaglen ond bu cryn ymgysylltu â phartneriaid ynghylch y gwaith datblygu a'r cynnwys.

10.2. Mae hyn wedi cynnwys nifer o Grwpiau Cynghori a benodwyd yn benodol a ffrydiau gwaith/gweithgorau arbenigol sydd â chryn ymgysylltu cyhoeddus dros y cyfnod datblygu. Adlewyrchodd aelodaeth pob grŵp ystod lawn o fuddiannau rhanddeiliaid (a'r rhai a nodwyd yn Erthygl 5) o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ynghyd â chydbwysedd priodol o ran rhyw a daearyddiaeth a chyda buddiannau cydraddoldeb ac amgylcheddol yn cael eu cynrychioli. Disgrifir y grwpiau amrywiol isod gyda manylion yr aelodau yn 12.3.

10.3. Cyn dechrau drafftio'r Rhaglen Weithredol, sefydlodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar y pryd "**Ymarfer Myfyrio**[205]" a roddodd gyfle cynnar i randdeiliaid wneud sylwadau ar

205 http://wefo.wales.gov.uk/programmes/post2013/milestones/120515reflectionsexercise/?skip=1&lang=cy

y cyfeiriad strategol a blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol yn seiliedig ar y cynigion deddfwriaethol drafft. Ar y cyfan, roedd partneriaid a rhanddeiliaid yn cefnogi'r egwyddorion a oedd yn ategu'r cynigion deddfu a'r angen i gysoni'r rhaglenni newydd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Drwy hyn bu modd i'r Dirprwy Weinidog amlinellu'r cyfeiriad strategol a nifer o egwyddorion arweiniol y byddai rhaglenni 2014-2020 yn cael eu datblygu oddi tanynt mewn datganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mai 2012.[206]. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i ganolbwyntio a thargedu ein hadnoddau ar y meysydd hynny sydd fwyaf tebygol o gael effaith drawsnewidiol ar economi Cymru a chyfrannu'n sylweddol at greu swyddi.

10.4. Cefnogwyd y gwaith cychwynnol drwy'r Grŵp Cynghori Gweinidogol **ar Raglenni Ewropeaidd**, grŵp gorchwyl a gorffen bach, a sefydlwyd i lunio syniadau a chynghori Gweinidogion yn uniongyrchol ar nifer o faterion strategol allweddol. Dewiswyd yr aelodau yn ofalus fel arbenigwyr yn eu maes, gyda'r gallu a'r ddealltwriaeth i gynnig y meddylfryd strategol angenrheidiol ar draws rhaglenni a meysydd polisi. Mae'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr allanol â chryn brofiad ac arbenigedd strategol, uwch Swyddogion o brif adrannau gwario Llywodraeth Cymru a chynghorwyr sy'n cynnig cyngor arbenigol, gan gynnwys uwch swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflawni rhaglenni Ewropeaidd.

10.5. Sefydlwyd **Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd** fel y prif gyfrwng i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ar ddatblygiadau ariannu Ewropeaidd ar ôl 2013. Sefydlwyd y Fforwm yn 2011 a bu ar waith yn ystod y cyfnod datblygu rhaglenni cyfan; gan gynnig mewnbwn uniongyrchol i'r gwaith o greu'r Rhaglen Weithredol a'r Cytundeb Partneriaeth. Daeth yr aelodau yn rhannol o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan, ac yna fe'i hategwyd gan bartneriaid ychwanegol er mwyn sicrhau bod y Fforwm yn adlewyrchu buddiannau pob grŵp rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru. Drwy sefydlu'r grŵp, cydbwyswyd buddiannau ac adlewyrchwyd lefel briodol o gynrychiolaeth gan y sector preifat, cydbwysedd rhwng y rhywiau, wedi'i ledaenu ar draws cronfeydd, a chynrychiolaeth ddaearyddol.

10.6. Sefydlwyd pedwar **grŵp llif gwaith technegol** yng nghanol 2012 er mwyn ystyried manylion technegol a gweithredol rhaglenni 2014-2020 a rhoi cyngor ar y cynnwys, prosesau a'r gweithdrefnau gan adlewyrchu cyfeiriad strategol y Gweinidog. Roedd y rhain yn cwmpasu'r canlynol:

- Rhaglenni Gweithredol
- Cyflenwi a Chydymffurfio
- Monitro a Gwerthuso
- Cydweithrediad Tiriogaethol

[206] http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/pages/plenaryitem.aspx?category=Record%20of%20Proceedings&itemid=827#dat4

10.7. Chwaraeodd aelodau o'r llif gwaith Rhaglenni Gweithredol ran uniongyrchol yn y broses o ddiffinio cynnwys y rhaglenni gan gynnwys cyfeiriad y strategaeth a themâu trawsbynciol (egwyddorion llorweddol) tra aeth aelodau o'r llifau gwaith Cyflenwi a Chydymffurfio a Monitro a Gwerthuso ati'n benodol i ystyried a pharatoi canllawiau, dangosyddion a threfniadau cyflenwi a rheoli. Penodwyd aelodau drwy wahodd enwebiadau ac fe'u dewiswyd ar sail profiad rhaglenni wedi'u hariannu gan yr UE a pholisïau perthnasol yr UE, y DU a Chymru, ynghyd â phrofiad pwnc perthnasol a oedd yn briodol i bob Llif Gwaith. Cynhaliwyd cydbwysedd llawn o ran buddiannau rhanddeiliaid, daearyddiaeth a'r rhywiau.

10.8. Yn olaf, er mwyn sicrhau bod cynigion yn gyson â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru sefydlwyd **Grŵp Polisi Rhaglenni Ewropeaidd Llywodraeth Cymru**. Dilynodd cyfarfodydd Grŵp Polisi rai'r llif gwaith Rhaglenni Gweithredol a llywiodd y ddau grŵp y cynigion drafft a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau 2013. Roedd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr polisi lefel uwch a enwebwyd gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol o holl adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.

10.9. Lansiwyd **ymgynghoriad cyhoeddus** llawn, 'Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf' ar 14 Ionawr 2013 er mwyn ceisio barn partneriaid ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Datblygu Gwledig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Ebrill 2013, a chafwyd 126 o ymatebion i'r cynigion yn ymwneud â'r Gronfa Strwythurol[207].

10.10. Ategwyd yr ymgynghoriad gan bedwar digwyddiad rhanddeiliaid rhanbarthol Llywodraeth Cymru, gyda thros 300 o randdeiliaid yn dod i drafod y prif gyfleoedd a heriau mewn cyfres o weithdai. Hefyd, trefnodd nifer o grwpiau rhanddeiliaid allanol ddigwyddiadau sectoraidd yn ystod y cyfnod ymgynghori a fynychwyd gan swyddogion WEFO.

10.11. Penodwyd ymgynghorwyr i ddadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad a chyhoeddwyd eu hadroddiad ar Gronfeydd Strwythurol ar wefannau WEFO[208] a Llywodraeth Cymru ac fe'i cyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid mewn datganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Gorffennaf 2013. Roedd yr ymgynghorwyr a benodwyd i ddadansoddi'r ymgynghoriad o'r un sefydliad a fu'n gyfrifol am y Gwerthusiad Ex Ante ac felly roedd ganddynt ddealltwriaeth fanwl o'r materion a godwyd.

10.12. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynigion Cronfa Strwythurol yn sgil yr ymgynghoriad, o ran y blaenoriaethau buddsoddi a ddewiswyd a phwysigrwydd canolbwyntio adnoddau er mwyn cael effaith drawsnewidiol. Cododd nifer o ymatebwyr bryderon am absenoldeb Blaenoriaeth benodol ar gyfer trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae rhaglen ESF wedi'i datblygu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn ei Chynllun Gweithredu ar Drechu Tlodi, sy'n nodi mai cyflogaeth yw'r llwybr gorau allan o dlodi.

---

207 http://wales.gov.uk/consultations/businessandeconomy/130114walesandtheeu/?skip=1&lang=cy

208 http://wefo.wales.gov.uk/news/latest/130115consultation/?skip=1&lang=cy

10.13. Felly, mae camau i ymdrin â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gyflogaeth a helpu pobl i gael gwaith. Gyda hyn fel y prif egwyddor, ail-luniodd WEFO gamau i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol, neu sy'n wynebu'r risg o hynny, i fod o fewn Echel Blaenoriaeth 'Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy' gan helpu'r cyfranogwyr hynny i gael gwaith cynaliadwy a sicr a'i gadw. Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn ategu'r thema drawsbynciol ar Drechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

10.14. Sefydlwyd un Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru ar gyfer rhaglenni Buddsoddi Strwythurol ac Ewropeaidd 2014-2020 ar ffurf gysgodol a chaiff ei fabwysiadu'n ffurfiol ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r rhaglenni.

10.15. Bydd y Pwyllgor hwn yn cwmpasu'r tair cronfa ESI a reolir gan Lywodraeth Cymru (ERDF, ESF, EAFRD) a bydd yn gyfrifol am gymeradwyo meini prawf dethol prosiect Cronfeydd Strwythurol, ystyried y cynnydd a wnaed i gyflawni'r amcanion rhaglen cytûn, ac unrhyw ddiwygiadau i'r rhaglenni a chytuno ar y Cynllun Gwerthuso ac unrhyw ddiwygiadau i'r rhaglenni.

10.16. Mae'r aelodaeth o 27 (a Chadeirydd), sy'n seiliedig ar egwyddorion partneriaeth a llawer o'r arferion gorau a nodir yn y Cod Ymddygiad Ewropeaidd ar Bartneriaeth, yn cynnwys chwe aelod arbenigol a benodwyd drwy broses penodiadau cyhoeddus a 21 o aelodau a enwebwyd ar sail sector. Dewiswyd aelodau o blith y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (gan gynnwys partneriaid economaidd a chymdeithasol, awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; a chynrychiolwyr cymdeithas sifil gan gynnwys cyrff amgylcheddol a chydraddoldeb). Hefyd, dyluniwyd yr aelodaeth i sicrhau cydbwysedd eang rhwng y rhywiau a dosbarthiad ar draws y ddau ranbarth yng Nghymru a'r dimensiwn trefol/gwledig. Paratoir cylch gorchwyl drafft a chytunir arno yn y cyfarfod cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau manwl ar sut y gellir ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl.

10.17. Cefnogwyd sefydlu un Pwyllgor gan ein partneriaid ar sail yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a bydd yn llywio asesiad mwy cyfannol o effaith ac effeithiolrwydd y cronfeydd wrth gyflawni agenda Ewrop 2020, yn erbyn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd ac a gefnogir gan well gwybodaeth reoli a monitro.

10.18. Bydd y Grwpiau Cyflenwi a Chydymffurfio a Gwerthuso sy'n bodoli eisoes yn parhau i weithredu drwy gydol 2014-2020 er mwyn parhau i roi cyngor ar waith cyflenwi a gweithredu (gan gynnwys cynnwys canllawiau) a threfniadau monitro a gwerthuso. Mae'r grwpiau hyn wedi bodoli drwy gydol cyfnod rhaglenni 2007-13 ac maent yn cynnwys buddiannau rhanddeiliaid eang mewnol Llywodraeth Cymru a buddiannau rhanddeiliaid allanol.

10.19. Mae'r Grŵp Cyflenwi a Chydymffurfio yn grŵp arbenigol technegol a sefydlwyd gan yr Awdurdod Rheoli (WEFO) fel fforwm i bartneriaid roi adborth ar faterion gweithredol gweithredu a chydymffurfio.

10.20. Mae gwaith y Grŵp yn llywio gwaith y Pwyllgor, ac mae ganddo gylch gwaith penodol i adolygu 'Adroddiad Cydymffurfio' rheolaidd WEFO cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau archwilio a gwallau cyffredin a geir yng ngwaith dilysu rheolwyr. Mae'r grŵp yn helpu'r Pwyllgor i fodloni ei hun ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru ym meysydd cyflenwi a chydymffurfio.

10.21. Rôl y Grŵp Cynghori ar Werthuso yw cynnig cyngor a chymorth wrth ddylunio astudiaethau gwerthuso, gan reoli ansawdd yr adroddiadau ymchwil terfynol a sicrhau bod canfyddiadau yn cael eu dosbarthu'n eang. Bydd y grŵp hefyd yn monitro'r broses o weithredu'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru yn 2014-2020.

10.22. Yn ystod cyfnod rhaglen 2007-2013, defnyddiwyd Cymorth Technegol i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â sefydliadau anlywodraethol a gwirfoddol wrth gyflenwi rhaglenni, a datblygu eu capasiti. Mae hyn wedi cynnwys darparu cymorth, gwybodaeth, cyngor a chyfleoedd rhwydweithio. Cynigir y bydd gweithgareddau tebyg yn bosibl drwy weithgareddau Cymorth Technegol o fewn rhaglen ERDF fel y disgrifiwyd yn Adran 2.B., a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Rheoli - datblygu ymhellach swyddogaethau a systemau'r Awdurdod Rheoli er mwyn cyflenwi rhaglenni cynaliadwy integredig a rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol i fuddiolwyr

- Partneriaeth a Rhwydweithio - hwyluso gwaith ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth effeithiol â rhanddeiliaid wrth gefnogi'r broses o roi rhaglenni ar waith

- Monitro - sefydlu a chefnogi Pwyllgor Monitro Rhaglen Cronfeydd ESI unigol

- Ymchwil a Gwerthuso - parhau i ddarparu gwybodaeth seiliedig ar dystiolaeth o ansawdd er mwyn helpu i gyflenwi rhaglenni

- Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd - tynnu sylw at y gwerth a ychwanegir gan yr UE yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

- Archwilio a Rheoli - cyflenwi rhaglenni effeithiol a rhai sy'n cydymffurfio yng Nghymru

10.23. Nid oes cynlluniau i drosglwyddo rhan o'r cyfrifoldeb am reoli'r Rhaglen Weithredol i Gyrff Canol, er enghraifft drwy ddefnyddio Grantiau Byd-eang neu Fuddsoddiadau Tiriogaethol Integredig a defnyddio'r darpariaethau a nodir yn erthygl 123(7) o Reoliad Darpariaethau Cyffredin (CPR) UE 1303/2013. Bydd Cyrff Canol, gan ddefnyddio'r darpariaethau a nodir yn erthygl 123(6) o'r CPR, yn cyflawni tasgau dirprwyedig penodol mewn perthynas â rheoli rhai cynlluniau cymorth. Bydd tasgau dirprwyedig yn cynnwys, o leiaf, ddethol prosiectau (buddiolwyr), rhoi dogfennau i fuddiolwyr

sy'n nodi'r amodau o ran cymorth a gweinyddiaeth cymorth gwladwriaethol y cynllun. Mae'r Cyrff Canol a ddewisir i reoli'r cynlluniau cymorth yn debygol o fod yn adrannau Llywodraeth Leol.

## Partneriaid perthnasol sydd ynghlwm wrth baratoi'r rhaglen weithredol

GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG AR RAGLENNI EWROPEAIDD 2014-20

Partneriaid:

- British Telecom (sector preifat)
- Cogitamus (sector preifat)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (cydraddoldebau)
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (trydydd sector)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (llywodraeth leol)
- Yn ogystal â chynrychiolwyr o adrannau gwariant allweddol Llywodraeth Cymru

FFORWM PARTNERIAETH RHAGLENNI EWROPEAIDD (2014-20)

Partneriaid:

- Bangor Mussel Producers Ltd (pysgodfeydd / sector preifat)
- Barsby Associates (Sefydliad y Cyfarwyddwyr)
- British Telecom (sector preifat)
- CBI Cymru (sefydliad cyflogwyr)
- Prifysgol Caerdydd (addysg uwch)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (cydraddoldebau)
- Comisiynydd Coedwigaeth Cymru (amgylchedd / gwledig)
- Grahame Guilford & Co Ltd (sector preifat)
- Coleg Gŵyr (addysg bellach)
- Y Ganolfan Byd Gwaith (cyflogaeth)
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (addysg)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (amgylcheddol/gwledig)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (llywodraeth leol)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (llywodraeth leol)
- Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru (amgylchedd)
- Canolfan Cydweithredol Cymru (trydydd sector)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)
- TUC Cymru (sefydliad y gweithwyr)
- Ffermwyr Cymru (amaethyddol)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (llywodraeth leol)
- Working Links (cyflogaeth)
- Yn ogystal â chynrychiolwyr o adrannau gwariant allweddol Llywodraeth Cymru

10. PARTNERIAETH

FFRYDIAU GWAITH ÔL 2013

*(i) Ffrwd Waith Rhaglenni Gweithredol*

Partneriaid:

- CBI Cymru Cyngor Sir Ynys Môn (sefydliad cyflogwyr)
- Cyngor Sir Caerdydd (addysg uwch)
- Chwarae Teg (trydydd sector)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (amgylchedd/gwledig)
- Cynnal Cymru-Sustain Wales (amgylcheddol / cynaliadwyedd)
- EEF Cymru (sefydliad y gweithgynhyrchwyr) )
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (addysg uwch)
- Y Ganolfan Byd Gwaith (cyflogaeth)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (llywodraeth leol)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- RSPB Cymru (amgylchedd a chefn gwlad)
- Canolfan Cydweithredol Cymru (trydydd sector)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)

*(ii) Ffrwd Waith Cyflenwi a Chydymffurfio*

Partneriaid:

- Cyngor Celfyddydau Cymru (y celfyddydau)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (llywodraeth leol)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (gwledig)
- Coleg Gŵyr (addysg bellach)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (llywodraeth leol)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)

*(iii) Ffrwd Waith Monitro a Gwerthuso*

Partneriaid:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (llywodraeth leol)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru (amgylchedd/gwledig)
- London Economics (cwmni ymgynghori sector preifat)
- Cyngor Sir Fynwy (llywodraeth leol)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (amgylcheddol/gwledig)
- Prifysgol Abertawe (addysg uwch)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (trydydd sector)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (llywodraeth leol)

# 11. Lleihau baich gweinyddol buddiolwyr

## Crynodeb o'r asesiad o faich gweinyddol buddiolwyr

11.1. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd i leihau baich gweinyddol buddiolwyr o dan raglenni 2007-2013. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno gweithdrefnau gwaith newydd o ran cyflwyno system TG PPIMS a arweiniodd at unioni prosesau ar draws cronfeydd strwythurol ac sy'n galluogi buddiolwyr i fewnbynnu data prosiect yn uniongyrchol drwy borth ar y we. Mae hyn wedi arwain at brosesau cyffredin, gwella'r broses o gyfnewid dogfennaeth ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd a phrosesau a thaliadau cyflymach i fuddiolwyr. Sefydlwyd model Swyddog Datblygu Prosiect hefyd yn sgil y cylch rhaglenni 2007-2013. Mae hyn wedi gweld un swyddog fel y prif gyswllt ar gyfer buddiolwyr drwy gydol y camau gwneud cais, datblygu ac ôl gymeradwyo.

11.2. Cynhaliwyd arolwg o farn cwsmeriaid gan WEFO yn 2009[209] a geisiodd farn noddwyr prosiectau ar weithdrefnau a phrosesau gweinyddol a oedd ynghlwm wrth wneud cais am brosiectau UE a'u rheoli. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i arbedion effeithlonrwydd yn deillio o lawer o'r gwelliannau ar-lein a gyflwynwyd ar gyfer cylch ariannu 2017-13 ynghyd â chefnogaeth i'r cysyniad o Swyddog Datblygu Prosiect. Codwyd rhai pryderon ynghylch y fiwrocratiaeth a oedd ynghlwm wrth wneud cais am gyllid (gellid gwneud penderfyniadau ar gam cynharach heb fod angen llenwi cynifer o ffurflenni) a hygyrchedd ac iaith dechnegol peth o'r canllawiau.

11.3. Mae Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar ddatblygiadau blaenorol ac yn ymdrin ag adborth noddwyr prosiectau ar gyfer rhaglenni 2014-2020 drwy achub ar gynifer o gyfleoedd integreiddio ac unioni â phosibl er mwyn helpu i gyflawni a lleihau ymhellach y faich i fuddiolwyr.

11.4. Bydd hyn yn cynnwys proses gwneud cais ac asesu syml, yn cynnwys cyfres o byrth a phwyntiau penderfynu ynghylch cymhwysedd prosiectau ynghyd â gwelliannau pellach i PPIMS. Bydd hyn yn cynnwys porth ar-lein unigol ar gyfer prosiectau posibl er mwyn cael gafael ar holl gronfeydd ESI, a fydd yn cyfeirio prosiectau posibl i dîm penodol ac yn hwyluso'r broses o ddewis yr offeryn(nau) ariannu a'r dull cyflawni gorau (tra'n parchu'r gwahaniaethau rhwng cronfeydd).

11.5. Bydd rheolau cymhwyso cenedlaethol ESI wedi'u hunioni a chanllawiau ategol cyffredin ar waith ar gyfer pob sefydliad yng Nghymru sy'n derbyn cronfeydd gan ERDF, ESF ac EAFRD, oni bai lle pennwyd rheolau cymhwyso gan ddeddfwriaeth CE sy'n benodol i gronfa. Bydd hyn yn symlach o lawer i fuddiolwyr yng Nghymru ac mae'n adeiladu ar ddarpariaethau cymhwyso

209 http://wefo.wales.gov.uk/publications/publications/monitoringevaluation/programmeevaluations/customerinsightsurvey2009/?skip=1&lang=cy

cyffredin y Comisiwn Ewropeaidd yn y Rheoliad Darpariaethau Cyffredin ar gyfer materion fel cadernid, cynhyrchu refeniw, ac opsiynau cost syml. Caiff y rheolau cymhwyso wedi'u hunioni eu cyhoeddi a byddant ar gael yn hawdd ar wefan WEFO.

11.6. Hefyd, mae Cymru yn bwriadu annog y defnydd o opsiynau ad-dalu cost syml (cyfandaliadau, cyfraddau safonol, costau uned) drwy sicrhau bod yr holl opsiynau deddfwriaethol ar gael i ddarpar ymgeiswyr, cyhoeddi canllawiau manwl, a rhedeg gweithdai hyfforddi gyda chynrychiolwyr o sectorau allweddol er mwyn deall y rhwystrau sy'n atal eu defnyddio ac ymdrin â hwy. Disgwylir i gostau cyfradd safonol mewn perthynas ag ad-dalu costau anuniongyrchol fod o fudd penodol i fuddiolwyr yng Nghymru. Bydd graddau'r newid tuag at system ad-dalu sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau (cyfandaliadau, costau uned) hefyd yn dibynnu ar ddarpariaethau pecyn deddfwriaethol y polisi cydlyniant, addasrwydd cyfraddau safonol y CE, a chanllawiau gweithredu'r Comisiwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o gynnwys y defnydd o Gynlluniau Gweithredu ar y Cyd nas ystyrir yn addas yng Nghymru.

11.7. Bydd prosiectau yng Nghymru hefyd yn cael budd o lai o waith gweinyddol wrth i Lywodraeth Cymru weithredu mesurau symleiddio'r CE yn llawn, fel cyfnodau cadw dogfennau byrrach, cyfrifiadau cynhyrchu refeniw cyfradd safonol, a diogelu prosiectau rhag dyblygu gweithgarwch archwilio o'r Awdurdod Archwilio a'r Comisiwn Ewropeaidd yn yr un flwyddyn.

# Rhestr Termau Acronymau Cyffredin

| | |
|---|---|
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol. |
| AEG | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| AP | Amcan Penodol |
| ATh | Amcan Thematig |
| BAME | Grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig |
| BBaChau | Busnesau Bach a Chanolig |
| BF | Blaenoriaeth Fuddsoddi |
| CALl | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| CAMPUS | Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CSF | Fframwaith Strategol Cyffredin |
| DC | Dwyrain Cymru |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| EMFF | Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop |
| EPPF | Fforwm Partneriaeth Polisi Ewrop |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESI | Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd |
| GCC | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| GYC | Gwerth Ychwanegol Crynswth |
| ITI | Buddsoddiadau Tiriogaethol Integredig |
| JAP | Cynlluniau Gweithredu ar y Cyd |
| NRP | Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol |
| NUTS | Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth |
| PMC | Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan |
| PSED | Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus |
| R&D | Ymchwil a Datblygu |

12. RHESTR TERMAU ACRONYMAU CYFFREDIN

| | |
|---|---|
| RDP | Cynllun Datblygu Gwledig |
| RME | Ymchwil, Monitro a Gwerthuso |
| RhW | Rhaglen Weithredol |
| SWOT | Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau |
| TEN-T | Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd |
| TRL | Lefelau Parod am Dechnoleg |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| UE2020 | Ewrop 2020 |
| UKCSR | Argymhellion sy'n Benodol i Wledydd y DU |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WIIP | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru |